

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Gymdeithasol:

28/2020

Dyddiad Cyhoeddi:

03/04/2020

Ymchwil i'r broses sefydlu statudol ar gyfer athrawon

Ymchwil i'r Broses Sefydlu Statudol ar gyfer Athrawon

Awdur: Nia Bryer, Ymchwil OB3

Ymchwilwyr: Nia Bryer, Heledd Bebb, Teresa Foster Evans a Llŷr Roberts

Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:
Y Gangen Ymchwil Ysgolion
Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd

E-bost: ymchwilysgolion@llyw.cymru

Cynnwys

Geirfa	2
Canfyddiadau Allweddol.....	3
1. Cyflwyniad	8
2. Methodoleg	10
3. Adolygiad Llenyddiaeth	15
4. Ymwybyddiaeth o'r broses sefydlu statudol ac agweddau tuag ati.....	33
5. Rheoliadau a chanllawiau sefydlu statudol	39
6. Darpariaeth dysgu proffesiynol	47
7. Rôl unigolion a chyrff allweddol	51
8. Profiadau ANG sy'n cyflenwi	61
9. Barn ynghylch yr adnoddau sydd ar gael i ANG	75
10. Effeithiolrwydd cyfnod sefydlu athrawon	80
11. Casgliadau ac argymhellion	85
Atodiad A: Offerynnau ymchwil	93

Rhestr o dablau

Tabl 3.1: Rhaglen dysgu proffesiynol ar draws rhanbarth ERW (2019/20)	28
Tabl 3.2: Nifer yr ANG a ddechreuodd ar y broses sefydlu yng Nghymru.....	32

Rhestr o ffigurau

Ffigur 5.1: Enghreifftiau o brofiadau ANG sy'n cyflenwi	39
Ffigur 5.2: Enghraifft o brofiad ANG sy'n cyflenwi.....	43
Ffigur 8.1: Enghraifft o asiantaeth gyflenwi.....	67
Ffigur 8.2: Diffiniad o gyflogaeth reolaidd	69
Ffigur 8.3: Enghreifftiau o bolisïau asiantaethau cyflenwi	70
Ffigur 9.1: Enghraifft o ddefnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol	75
Ffigur 9.2: Adnoddau a ddefnyddir gan ANG.....	79
Ffigur 10.1: Adborth ANG ar addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	81

Geirfa

Acronym/Allweddair	Diffiniad
AB	Addysg Bellach
ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
AGA	Addysg Gychwynnol i Athrawon (term a fabwysiadwyd yng Nghymru)
ANG	Athro Newydd Gymhwysu
All	Awdurdod Lleol
CA	Cynorthwydd Addysgu
CALU	Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch
CCD	Consortium Canolbarth y De
CGA	Cyngor y Gweithlu Addysg
CP	Corff Priodol
CPA	Cynllunio, Paratoi ac Asesu
Cydlynnydd ADY	Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol
ERW	Ein Rhanbarth ar Waith
GA	Gwiriwr Allanol
GCA	Gwasanaeth Cyflawni Addysg
GwE	Gwasanaeth Effeithiolrwydd
HCA	Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (term a fabwysiadwyd yn Lloegr)
MS	Mentor sefydlu
PDP	Pasbort Dysgu Proffesiynol
SAC	Statws Athro Cymwysedig
TAR	Tystysgrif Addysg i Raddedigion
UDR	Uwch Dîm Rheoli

Canfyddiadau Allweddol

Ymwybyddiaeth o'r broses sefydlu statudol, y wybodaeth amdani ac agweddau tuag ati

- Yn ystod y flwyddyn academiaidd 2018/19, dechreuodd 1,167 o athrawon ar eu cyfnod sefydlu statudol yng Nghymru. Mae'r nifer sy'n gwneud hynny wedi lleihau dros yr wyth mlynedd diwethaf. Yn yr wyth mlynedd er 2012/13 dechreuodd cyfanswm o 9,000 o ANG ar eu cyfnod sefydlu statudol yng Nghymru.
- Mae ychydig dros hanner yr holl athrawon sy'n dechrau ar eu cyfnod sefydlu statudol yn ei gwblhau o fewn un flwyddyn academiaidd ac mae cwarter arall yn ei gwblhau o fewn dwy flwyddyn academiaidd.
- Mae ymwybyddiaeth a gwybodaeth athrawon newydd gymhwyso (ANG) am y broses sefydlu statudol ar gyfer athrawon yng Nghymru cyn cymryd rhan yn broses yn amrywio.
- ANG sy'n gwneud gwaith cyflenwi yw'r rhai lleiaf gwybodus am ofynion y cyfnod sefydlu. Mae ANG sy'n symud yn ôl i Gymru, neu i mewn i Gymru, i ymgymryd â'r broses sefydlu hefyd yn llai gwybodus am y gofynion.
- Mae'n ymddangos nad yw llawer o ANG sy'n cofrestru fel athrawon, yn enwedig ANG sy'n cyflenwi, yn ymgymryd â'r broses sefydlu yng Nghymru er gwaethaf ymdrechion Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) i gyfleu'r gofyniad i wneud hynny. Ym mis Ionawr 2020, nid oedd 345 o ANG yn ymgymryd â'r broses sefydlu statudol.
- Mae sesiynau briffio cychwynnol a ddarperir gan Awdurdodau Lleol (ALLau) a'r Consortia Addysg yn ddull pwysig i ANG werthfawrogi gofynion y cyfnod sefydlu yn llawn.
- Ymddengys fod ymdrechion diweddar i gyfleu gofynion sefydlu athrawon i hyfforddeion presennol ar raglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) yng Nghymru wedi helpu i wella ymwybyddiaeth.

- Mae llawer o ANG yn colli'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt fel rhan o'u cyfnod sefydlu gan nad ydynt bob amser yn cael eu hadnabod na'u hysbysu'n llawn mewn modd amserol gan sefydliadau allweddol.
- Er bod ANG yn ystyried bod cyfnod sefydlu'n briodol, mae'r rhaglen bresennol yn aml yn cael ei hystyried yn 'gylch' i neidio drwyddo neu'n 'flwch i'w dicio' er mwyn parhau â'u gyrfa yn y proffesiwn, yn hytrach na cham cychwynnol ar daith datblygiad proffesiynol.

Effeithiolrwydd y broses sefydlu statudol

- Mae cyfnod sefydlu statudol o flwyddyn yn briodol, ond dylid ystyried ymestyn agweddau ar y gefnogaeth sydd ar waith (gan gynnwys gostyngiad graddol yn yr amser nad yw'n amser addysgu a chymorth mentora pellach neu gymorth gan rwydwaith cymheiriaid).
- Mae'r trefniadau presennol ar gyfer y broses sefydlu athrawon yng Nghymru yn addas iawn ar gyfer y mwyafrif o ANG a gyflogir gan ysgolion sydd hefyd yn cael cymorth digonol gan eu Mentor Sefydlu (MS). Fodd bynnag, mae angen gwneud rhai newidiadau sylfaenol er mwyn mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu ANG nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn.
- Mae angen rhoi sylw i ddwy agwedd ar y rhaglen sefydlu athrawon fel blaenoriaeth:
 - mae profiad ANG sy'n cyflenwi o fynd drwy'r broses sefydlu yn heriol dros ben ac mae angen sicrhau bod y garfan hon yn cael profiad tecach mwy cyfartal
 - mae profiad ANG o gymorth gan MS yn amrywio'n sylweddol ymhlith ANG a gyflogir gan ysgolion ac ar hyn o bryd nid yw'r rhai sy'n gwneud gwaith cyflenwi yn cael darpariaeth fentora debyg.
- Mae trefniadau sefydlu athrawon yng Nghymru yn gymhleth, oherwydd yr ystod o randdeiliaid sy'n gysylltiedig â'r broses a'r angen i ddiwallu anghenion ANG a gyflogir ac ANG sy'n cyflenwi. Mae dadl gref dros symleiddio'r dull cymaint ag sy'n ymarferol bosibl a mabwysiadu model gwahanol ar gyfer ANG sy'n cyflenwi.

- Mae gan y Consortia Addysg agweddau gwahanol tuag at rôl Corff Priodol (CP) a dirprwyaeth y rôl honno. Mewn Consortia Addysg lle mae rôl CP yn cael ei chyflawni ar lefel ALI, yn naturiol mae mwy o amrywiad ar draws y rhanbarth hwnnw o ran yr arferion a'r systemau sy'n cael eu mabwysiadu. Nid oes gan rai ALLau sy'n ymgymryd â rôl Corff Priodol yr adnoddau i gyflawni eu rôl.
- Mae ystod eang o wybodaeth fanwl, ragorol i gefnogi'r broses sefydlu athrawon ar gael o ystod eang o ffynonellau a sefydliadau i'r rhai sy'n dechrau ar eu gyrfa addysgu.
- Mae'r cyfleoedd dysgu proffesiynol a ddarperir fel rhan o'r broses sefydlu yn cael eu hystyried yn gryfder ac mae cyfleoedd i adeiladu ar y ddarpariaeth hon.
- Mae asiantaethau cyflenwi wedi dod i chwarae rôl ehangach yn y broses sefydlu athrawon yng ngoleuni'r niferoedd cynyddol o ANG sy'n dilyn y broses sefydlu drwy'r llwybr hwn ac mae angen cydnabod hyn o fewn y canllawiau sefydlu ar gyfer athrawon drwy gryfhau'r gofynion a ddisgwylir gan asiantaethau cyflenwi.

Argymhellion

Cynigir chwe argymhelliad strategol i gryfhau'r broses sefydlu statudol ar gyfer athrawon yng Nghymru yn y dyfodol.

Argymhelliad 1: Rydym yn argymell y dylid cadw'r cyfnod sefydlu statudol o flwyddyn, ond y dylid ystyried ymestyn y cymorth ar ôl y cyfnod hwn. Gallai hyn gynnwys darparu cymorth drwy fentora a rhwydwaith cymheiriaid ynghyd â gostyngiad graddol yn yr amser nad yw'n amser addysgu ar ôl diwedd y cyfnod statudol.

Argymhelliad 2: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellid darparu profiad tecach o'r broses sefydlu i ANG sy'n cyflenwi. Gallai hyn gynnwys datblygu model penodol a ddyluniwyd yn arbennig i gefnogi ANG sy'n cyflenwi. Gallai gynnwys:

- dull sy'n ceisio rhoi mwy o brofiadau o gyfnodau addysgu olynol mewn un ysgol i ANG sy'n cyflenwi
- ymestyn y prosiect Peilot Clwstwr Cyflenwi fel cyfrwng ar gyfer darparu profiadau addysgu cyflenwi tymor hwy i ANG sy'n cyflenwi ac sy'n ymgymryd â'r broses sefydlu
- gwneud ad-daliad ariannol i ANG sy'n cyflenwi am fynychu sesiynau dysgu proffesiynol
- cofnodi profiadau o waith cyflenwi cymwys drwy ddefnyddio tystiolaeth sydd eisoes ar gael ar ffurf cofnodion cyflogaeth asiantaethau cyflenwi er mwyn lleihau'r baich presennol ar athrawon cyflenwi i gasglu'r wybodaeth hon â llaw
- sicrhau bod gan ANG sy'n cyflenwi fynediad at gymorth gan MS penodedig. Gellid cyflawni hyn drwy GA, asiantaethau cyflenwi neu ei ymgorffori yn y Prosiect Clwstwr Cyflenwi
- egluro'r gofynion ar ysgolion i ddarparu amser addysgu gwarchodedig i ANG sy'n cyflenwi sy'n gweithio gyda nhw.

Argymhelliad 3: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, ar y cyd â'r Consortia Addysg ac ALLau, yn ystyried a ellid symleiddio strwythur y trefniadau sefydlu yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys adolygu p'un a yw GA, MS a CP a rolau penodol yn dal i fod yn briodol. Dylai hefyd ystyried rôl asiantaethau cyflenwi a'r gofynion ohonynt, yng ngoleuni'r awgrymiadau a wneir yn Argymhelliad 2.

Argymhelliad 4: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gallai pob ANG elwa o gymorth rhagorol gan MS yn ystod eu cyfnod sefydlu athrawon statudol. Yng ngoleuni'r newidiadau a allai ddeillio o weithredu argymhelliad 3, gallai hyn gynnwys ymchwilio i opsiynau ar gyfer datblygu a darparu hyfforddiant hyblyg i MS a gwella rôl yr MS o ran statws a chydabyddiaeth ariannol.

Argymhelliad 5: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r prosesau gweinyddol a chyfathrebu sydd wedi'u mabwysiadu gan sefydliadau allweddol sy'n ymwneud â'r broses sefydlu statudol ar

gyfer athrawon. Awgrymwn y dylai'r adolygiad hwn ymchwilio i drosglwyddo gwybodaeth i CP am athrawon ysgol sydd newydd gofrestru a'r broses o gysylltu ag athrawon ysgol sydd newydd eu cofrestru er mwyn eu hannog i gymryd rhan yn broses sefydlu.

Argymhelliad 6: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, ar y cyd â'r Consortia Addysg, yn comisiynu rhaglen dysgu proffesiynol genedlaethol o ansawdd uchel ar gyfer ANG y gellid ei darparu mewn ffordd hyblyg. Dylai'r rhaglen hon gynnwys modiwlau gorfodol craidd (gan gynnwys sesiwn friffio gychwynnol) y byddai disgwyl i ANG eu cwblhau yn ystod eu cyfnod sefydlu a modiwlau ychwanegol y gellid eu cynnig yn ystod y ddwy neu dair blynedd gyntaf o addysgu.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Penodwyd Ymchwil OB3 gan Lywodraeth Cymru i ymchwilio i'r broses sefydlu statudol ar gyfer athrawon.
- 1.2 Nod yr ymchwil oedd 'cynhyrchu tystiolaeth a fydd yn helpu i lywio'r broses o ddatblygu polisi a gweithredu trefniadau sefydlu yn y dyfodol'¹. Y bwriad oedd y byddai'r ymchwil yn cyflawni tri amcan penodol:
- deall barn a phrofiadau athrawon newydd gymhwyso (ANG) sy'n ymgymryd â'r rhaglen sefydlu
 - deall y ffactorau a/neu'r amodau a all gefnogi neu llesteirio gweithredu gofynion y broses sefydlu statudol yn effeithiol
 - nodi ffyrdd o gryfhau'r broses sefydlu.
- 1.3 Lluniwyd pedwar cwestiwn ymchwil penodol ar gyfer yr astudiaeth, yn ymwneud ag:
- ymwybyddiaeth o'r broses sefydlu statudol, y wybodaeth amdani ac agweddau tuag ati
 - effeithiolrwydd y broses sefydlu statudol o ran adeiladu ar Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA), darparu profiadau proffesiynol, cefnogi ymarferwyr i fyfyrion ar eu hymarfer eu hunain a pharatoi athrawon newydd gymhwyso (ANG) ar gyfer dysgu gydol oes a gyrfa mewn addysgu.
 - yr amodau sy'n cefnogi neu'n llesteirio proses sefydlu effeithiol
 - ffyrdd o gryfhau'r broses sefydlu i gefnogi'r amcan o ddatblygu gweithlu medrus iawn yng Nghymru.
- 1.4 Roedd y fethodoleg a fabwysiadwyd yn cynnwys ymchwil desg a gwaith maes gyda chonsortia addysg, awdurdodau lleol (ALLau), ANG, gwirwyr allanol (GA), asiantaethau athrawon cyflenwi a Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA).

¹ Manyleb ymchwil.

1.5 Cyflwynir yr adroddiad hwn mewn un ar ddeg o benodau fel a ganlyn:

- pennod un: cyflwyniad i'r adroddiad
- pennod dau: amlinelliad o fethodoleg yr astudiaeth
- pennod tri: y cefndir, y cyd-destun rheoliadol a data ar ANG yng Nghymru
- penodau pedwar i ddeg: canfyddiadau'r gwaith maes gyda chyfranwyr
- pennod un ar ddeg: ein casgliadau a'n hargymhellion ar gyfer polisi ac ymarfer Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

2. Methodoleg

- 2.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer ymgymryd â'r ymchwil, yn darparu trosolwg o nodweddion yr Athrawon Newydd Gymhwys (ANG) a gyfrannodd at yr ymchwil ac mae'n trafod yr ystyriaethau methodolegol allweddol wrth gynnal yr astudiaeth.

Dull

- 2.2 Roedd yr ymchwil, a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2019 a mis Chwefror 2020, yn cynnwys yr elfennau canlynol:
- cam cychwynnol, a oedd yn cynnwys cyfarfod cychwynnol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, cyfweiliadau cwmpasu gyda chynrychiolwyr y consortia addysg a pharatoi methodoleg a chynllun prosiect wedi'u mireinio
 - ymchwil desg, a oedd yn cynnwys dadansoddiad o ddogfennau polisi a dogfennau rheoliadol perthnasol gan gynnwys cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r rhaglen sefydlu ar gyfer athrawon; data Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) ar nifer yr unigolion sy'n dilyn y broses sefydlu; a dogfennaeth a ddarparwyd gan y Consortia Addysg ac Awdurdodau Lleol (ALLau) sy'n ymwneud â rhaglenni hyfforddi eu ANG
 - paratoi pum canllaw trafod ansoddol i'w defnyddio ar gyfer cyfweild ag ANG a GA yn ogystal â chynrychiolwyr ALLau, y Consortia Addysg, CGA ac asiantaethau athrawon cyflenwi
 - nodi, dewis a gwahodd ANG i gymryd rhan mewn trafodaethau grwpiau ffocws
 - cynnal saith grŵp ffocws gyda chyfanswm o 37 ANG. Cynhaliwyd dau grŵp ffocws yn rhanbarth pob Consortiwm Addysg, ac eithrio'r rhanbarth a wasanaethir gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) lle y cynhaliwyd un. Nodir proffil y cyfranwyr ym mharagraff 2.3

- cyfweld â:
 - chynrychiolwyr o ddeg ALI ar draws y rhanbarthau a wasanaethir gan Ein Rhanbarth ar Waith (ERW) a'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd (GwE)
 - pedwar cynrychiolydd o bob un o'r Consortia Addysg (ERW, GwE, GCA a Chonsortium Canolbarth y De {CCD})
 - pedwar GA², un o bob rhanbarth y Consortia Addysg
 - pedair asiantaeth gyflenwi
 - tri chynrychiolydd o CGA.
- paratoi a dosbarthu holiadur byr dwyieithog i asiantaethau cyflenwi ei gwblhau. Anfonwyd yr holiadur at 75 o gysylltiadau ar draws 60 o asiantaethau cyflenwi i gyd. Derbyniwyd ymatebion gan chwech, a chafodd un o'r rhain hefyd ei gynnwys yn y sampl o'r rhai a gafodd eu cyfweld
- syntheseiddio canfyddiadau'r gwaith maes a pharatoi'r adroddiad hwn.

Proffil yr ANG a gyfrannodd at yr ymchwil

2.3 O'r 37 ANG a gyfrannodd at yr ymchwil

- roedd pedwar wedi'u lleoli yn rhanbarth GCA, 11 yn rhanbarth CCD, 12 yn rhanbarth ERW a 10 yn rhanbarth GwE
- roedd ychydig yn llai na dwy ran o dair, sef 28, yn gweithio mewn lleoliad cynradd a gynhelir, roedd wyth mewn lleoliad uwchradd a gynhelir ac roedd un yn gweithio mewn ysgol annibynnol
- roedd dwy ran o dair o'r cyfranogwyr, sef 25, yn fenywod a 12 yn ddynion
- roedd chwech yn addysgu (yn rhannol o leiaf) drwy gyfrwng y Gymraeg

² Cyfwelwyd ag un hefyd yn rhinwedd ei swydd fel cynrychiolydd y Consortia Addysg

- roedd gan dri chwarter yr ANG, sef 29, rywfaint o brofiad o wneud gwaith cyflenwi ac roedd 18 yn gwneud gwaith cyflenwi ar y pryd, boed hynny yn waith byrdymor neu hirdymor, adeg mynychu'r grwpiau ffocws
- roedd saith wedi cwblhau eu cyfnod sefydlu a mynychodd pob un ond dau o'r rhain grŵp ffocws a drefnwyd gan CCD ar gyfer y rhai a oedd ar hyn o bryd yn eu hail flwyddyn ddysgu
- roedd cyfanswm o 16 wedi dechrau'r broses sefydlu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd 17 arall wedi dechrau o fewn y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf ac roedd pedwar wedi dechrau'r broses sefydlu ers tymor yr hydref 2017 neu'n gynharach.

Ystyriaethau methodolegol

2.4 Mae nifer o faterion methodolegol y dylid eu hystyried o fewn y gwaith ymchwil hwn:

- roeddem yn dibynnu ar Consortia Addysg ac ALLau i adnabod a recriwtio ANG i gymryd rhan mewn sesiynau grwpiau ffocws. Darparwyd cyfarwyddiadau ym mhob achos ar broffil cyffredinol yr unigolion a oedd yn ofynnol er mwyn sicrhau croestoriad eang o ran daearyddiaeth, lleoliad ysgol, iaith y lleoliad, hyd y profiad addysgu a statws cyflogaeth ANG (h.y. yn cael eu cyflogi gan yr ysgol neu gan asiantaeth gyflenwi). Oherwydd yr adborth helaeth a gasglwyd eisoes ar draws GCA drwy waith gwerthuso diweddar, targedwyd y grŵp ffocws yn y rhanbarth hwn yn benodol tuag at ANG sy'n cyflenwi. Anogwyd y Consortia Addysg ac ALLau i roi gwahoddiad agored i ANG fynychu'r grwpiau ffocws. Mae'r gwahanol lefelau o wybodaeth ymysg cyfranogwyr am y rhaglen sefydlu ac ymgysylltu â phobl a sefydliadau allweddol yn awgrymu bod yr ymchwil wedi'i lywio gan groestoriad da o brofiadau ANG. Mewn un achos (athrawon ar eu hail flwyddyn a oedd wedi cwblhau'r broses sefydlu yn ddiweddar) roedd unigolion wedi cael eu dewis a'u targedu gan y Consortiwm Addysg, ac roeddent yn tueddu i gynnwys unigolion a oedd wedi cael eu defnyddio i ddarparu sgysiau i ANG cyfredol fel rhan o ddigwyddiadau hyfforddi'r Consortiwm Addysg

- cytunodd Llywodraeth Cymru i ad-dalu ysgolion (am gostau trefnu athrawon cyflenwi am hanner diwrnod) ac asiantaethau (i ad-dalu ANG sy'n gwneud gwaith cyflenwi), er mwyn annog ANG i gymryd rhan yn y grwpiau ffocws. Trefnwyd tri o'r grwpiau ffocws naill ai fel sesiynau cyfnos ar ôl ysgol neu yn ystod amser cinio, er mwyn lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â defnyddio athrawon cyflenwi
- roedd y sampl gyffredinol o ANG a gyfrannodd at yr ymchwil yn is na'r hyn a gynlluniwyd (37 o'i gymharu â tharged o rhwng 60 a 70). Roedd sawl ffactor i'w gyfrif am hyn: cytunwyd mai dim ond un grŵp ffocws fyddai'n cael ei gynnal ar draws rhanbarth GCA o ystyried y cyfoeth o dystiolaeth sydd eisoes ar gael gan ANG yn yr ardal hon; er gwaethaf y cynnig i gynnal tri grŵp ffocws mewn gwahanol leoliadau ar draws rhanbarth ERW roedd ANG yn barod i deithio i ddwy sesiwn a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin ac Abertawe; a dim ond ychydig iawn o unigolion a fynychodd rai grwpiau ffocws (e.e. dim ond dau ANG a fynychodd un grŵp ffocws yn rhanbarth GwE er gwaethaf y ffaith iddo gael ei drefnu mewn ysgol a oedd yn cyflogi mwy o ANG). O edrych yn ôl, efallai ei bod yn afrealistig disgwyl i rhwng saith ac wyth ANG fynychu pob grŵp ffocws a byddai rhwng pump a chwech wedi bod yn darged mwy realistig
- er gwaethaf hyn, roedd yr ANG a gyfrannodd at y grwpiau ffocws yn cynnwys croestoriad da o ran rhyw, daearyddiaeth, lleoliad addysg a natur y gyflogaeth. Roedd y sampl o ANG a recriwtiwyd a chanddynt brofiad o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (chwech i gyd) yn fach ac felly dim ond enghreifftiau o fewn ystod eu profiadau sefydlu a ddarperir, er y casglwyd adborth hefyd gan dri siaradwr Cymraeg arall a oedd yn dilyn eu rhaglen sefydlu drwy gyfrwng y Saesneg mewn un rhanbarth
- roedd yr ymateb gan asiantaethau cyflenwi yn fach, yn yr ystyr mai dim ond cyfanswm o naw o blith³ y 60 y cysylltwyd â hwy am gyfweliad neu drwy holiadur a gyfrannodd at yr ymchwil er gwaethaf ymdrechion yr

³ O blith y rhain, mae 27 o asiantaethau cyflenwi ar fframwaith athrawon cyflenwi'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

ymchwilwyr a Llywodraeth Cymru i'w hannog i gymryd rhan drwy e-bost a galwadau ffôn dilynol. Mae pob un o'r naw asiantaeth wedi'i phenodi i fframwaith athrawon cyflenwi newydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. O'r herwydd, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau mewn perthynas â'r sector hwn o ystyried nad ydynt yn gynrychioliadol o'r boblogaeth gyfan. Rydym o'r farn mai'r rhai sydd wedi cyfrannu at yr ymchwil yw'r asiantaethau cyflenwi hynny sy'n dangos yr ymarfer mwyaf effeithiol ac yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, y Consortia Addysg ac ALLau.

3. Adolygiad Llenyddiaeth

- 3.1 Mae'r bennod hon yn nodi dadansoddiad o ddogfennau polisi a strategaeth sy'n berthnasol i'r broses sefydlu athrawon, gan gynnwys cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru a data CGA ar nifer yr unigolion sy'n ymgymryd â'r broses sefydlu yng Nghymru. Mae hefyd yn ystyried y cyd-destun rheoliadol a'r canllawiau cyfredol ar gyfer sefydlu athrawon ynghyd â dogfennaeth a ddarperir gan y Consortia Addysg ac ALLau sy'n ymwneud â'u rhaglenni hyfforddi ANG.

Cyd-destun polisi a rheoliadol

- 3.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i '[d]atblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel' fel y nodir yn ei strategaeth ar gyfer y sector addysg hyd at 2021, **Cenhadaeth Ein Cenedl**⁴. Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn, mae'r strategaeth yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn 'cefnogi athrawon yng Nghymru i fod yn ddysgwyr proffesiynol gydol oes sy'n myfyrio ar eu hymarfer eu hunain a'i wella er mwyn cymell ac ysbrydoli'r plant a'r bobl ifanc yn eu gofal'⁵. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi agenda Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r cwricwlwm ac arholiadau, i wella hyfforddiant i athrawon, i sefydlu Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol ac i adolygu Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth.

Adolygiadau perthnasol

- 3.3 Mae sawl adolygiad diweddar wedi cynnig argymhellion pwysig sydd wedi llywio polisi a darpariaeth Llywodraeth Cymru.
- 3.4 Mae'r ddarpariaeth addysg gychwynnol i athrawon (AGA) yng Nghymru wedi bod yn destun nifer o adolygiadau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf gan gynnwys Adolygiad yr Athro Furlong o'r ddarpariaeth hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn 2006⁶ ac **Adolygiad yr Athro Ralph**

⁴ Llywodraeth Cymru (2017) [Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl Cynllun gweithredu 2017-21](#).

⁵ Ibid., t.25.

⁶ Furlong et al (2006) 'Review of Initial Teacher Training Provision in Wales' Adroddiad i Lywodraeth Cymru.

Tabberer o ansawdd a chysondeb hyfforddiant athrawon yn 2013⁷.

Argymhellodd adolygiad Tabberer y dylid sicrhau bod darpariaeth ar gael i ANG i'w helpu i ddangos sut y maent yn parhau i gyrraedd y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth dros eu tair i bum mlynedd gyntaf o addysgu er mwyn 'rhoi llwybr eglur i arwain dilyniant gyrfa gynnar athrawon'⁸.

- 3.5 Yn fwy diweddar, pwysleisiodd adroddiad yr Athro Furlong, **Addysgu Athrawon Yfory**⁹, yr angen i addysg gychwynnol i athrawon fod yn bartneriaeth rhwng y myfyriwr, y darparwr ac ysgolion. Mae'r adroddiad yn cydnabod y byddai'r diwygiadau sylweddol i addysg, a roddwyd ar waith yn dilyn argymhellion a gynigiwyd gan Adolygiad Donaldson yng Nghymru, yn 'codi'r safon yn sylweddol' o ran yr hyn a ddisgwylid gan athrawon. O ganlyniad, mae adroddiad Furlong yn rhagweld y bydd 'angen math gwahanol o athro ac athrawes broffesiynol; un sy'n ysgwyddo cryn dipyn yn fwy o gyfrifoldeb, un sy'n deall dulliau addysgu a'r rhesymau drostyn nhw yn ogystal â chynnwys yr addysgu... [a fydd yn arwain at] oblygiadau pwysig ar gyfer addysg gychwynnol athrawon ac ar gyfer DPP'¹⁰.
- 3.6 Mae **asesiad polisi cyflym y Sefydliad ar gyfer Cydweithredu a Datblygu Economaidd (OECD)**¹¹ yn ystyried y diwygiad hirdymor i addysg a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru er 2014 ac yn cynnig argymhellion ar gyfer y dyfodol. Mae'r adroddiad yn nodi bod angen rhoi sylw pellach i bolisi er mwyn datblygu proffesiwn addysgu o ansawdd uchel¹² ac yn argymhell bod angen dull dysgu proffesiynol cenedlaethol ar draws pob cam gyrfa fel bod gan y sector addysg y gallu i weithredu'r cwricwlwm newydd. Mewn perthynas â sefydlu athrawon newydd, daw'r adroddiad i'r casgliad mai ychydig sy'n hysbys am ansawdd rhaglenni sefydlu yng Nghymru ac mae'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ymchwilio i'r mater

⁷ Yr Athro Ralph Tabberer (2013) [Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru](#).

⁸ Ibid., t.24.

⁹ Yr Athro John Furlong (2015) [Addysgu Athrawon Yfory](#).

¹⁰ Ibid., t.38.

¹¹ OECD (2017) [The Welsh Education Reform Journey. A Rapid Policy Assessment](#).

¹² Ibid. Crynodeb Gweithredol.

ymhen ychydig flynyddoedd, ar ôl i'w diwygiadau presennol gyrraedd camau olaf eu gweithrediad¹³.

- 3.7 Canfu adolygiad yr OECD¹⁴ i ba raddau y mae ysgolion yng Nghymru yn datblygu fel sefydliadau dysgu, er bod y mwyafrif o ysgolion yn cymryd camau tuag at hyn, bod cyfran sylweddol yn dal i fod ymhell o gyflawni'r amcan hwn. Mae'r adroddiad yn cynnig nifer o argymhellion yn ymwneud â datblygu cyfalaf proffesiynol mewn ysgolion sy'n berthnasol i ANG yn ogystal â'r gweithlu ehangach. Un neges allweddol yw'r angen i flaenoriaethu dysgu proffesiynol mewn dulliau sy'n seiliedig ar ymholiadau drwy gryfhau rhaglenni sefydlu a hyrwyddo mentora a hyfforddi, arsylwi ac adolygiadau gan gymheiriaid¹⁵.
- 3.8 Canfu **adolygiad annibynnol o gyflogau ac amodau athrawon ysgol yng Nghymru**¹⁶, o dan arweiniad yr Athro Mick Waters, fod 'dechrau'r proffesiwn yn rhy sydyn yn y symud o hyfforddiant i gymhwyso'¹⁷. Canfu'r adolygiad fod mentora a chymorth yn dod i ben ar ôl y flwyddyn gyntaf yn yr ysgol. Canfu'r adolygiad hefyd y 'dylai athrawon ar ddechrau eu gyrfa gael eu cefnogi'n well o ran eu bywyd gwaith'¹⁸ ac y dylid rhoi 'cymorth mwy effeithiol i athrawon yn eu gyrfaoedd cynnar'¹⁹.
- 3.9 Argymhellodd yr adolygiad y dylid cefnogi athrawon, er mwyn cyrraedd y Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth yng nghamau cynnar eu gyrfa, am bedair blynedd ac y dylent 'fod â llai o ymrwymiad addysgu, ar ben yr amser cynllunio, paratoi ac asesu presennol o 10% ym mlwyddyn 1; 5% ym mlwyddyn 2'. Ystyriodd y panel a gynhaliodd yr adolygiad a ddylid ymestyn y cyfnod sefydlu ar gyfer ANG i ddwy flynedd ond penderfynodd yn erbyn hyn ar y sail na fyddai ar yr un

¹³ Ibid., t.31.

¹⁴ OECD (2018) [Developing Schools as Learning Organisations in Wales](#).

¹⁵ Ibid., t.16.

¹⁶ Yr Athro Mick Waters (2018) [Addysgu: Proffesiwn gwerthfawr](#).

¹⁷ Ibid., t.34.

¹⁸ Ibid., t.35.

¹⁹ Ibid., t.35.

lefel â'r cyfnod sefydlu blwyddyn a oedd ar waith yn Lloegr ar y pryd (trafodir hyn ymhellach yn adran 3.41).

- 3.10 Yn ei adolygiad o'r defnydd o athrawon cyflenwi mewn ysgolion, argymhellodd y **Tasglu Gweinidogol ar gyfer Modelau Cyflenwi**²⁰ y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gallai ANG sy'n cyflenwi 'elwa ar drefniadau rheoli perfformiad mwy strwythuredig, ynghyd â'r cyfle i gyrchu gweithgareddau dysgu proffesiynol rheolaidd²¹. Mewn ymateb i hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i alluogi athrawon cyflenwi i gael mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol, gan gynnwys mynediad i Hwb, platform dysgu Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg, a hefyd i ystyried sut mae 'ein hathrawon newydd gymhwyso nad ydynt yn cael swyddi dysgu parhaol ar ôl cwblhau eu hyfforddiant cychwynnol athrawon, yn gallu manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol rheolaidd, ac yn cael digon o gefnogaeth yn ystod eu blwyddyn ymsefydlu²².

Datblygiadau allweddol

- 3.11 Mae newidiadau a datblygiadau diweddar sydd wedi digwydd ar draws y sector addysg yn cael effaith ar gyfrifoldebau athrawon newydd a'r disgwyliadau ohonynt. Mae'r rhain yn cynnwys **cyflwyno cwricwlwm newydd**: yn sgil cyhoeddi'r canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn ddiweddar²³ mewn ymateb i argymhellion a wnaed yn adolygiad yr Athro Graham Donaldson²⁴ bydd dull newydd o addysgu pobl ifanc yn cael ei gyflwyno ar draws ysgolion yng Nghymru. Bydd y cwricwlwm newydd, sy'n seiliedig ar chwe maes dysgu a phrofiad a thri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd, yn cael ei fabwysiadu ledled Cymru o fis Medi 2022 ymlaen.
- 3.12 **Cyhoeddwyd Safonau Proffesiynol Newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth** ym mis Medi 2017²⁵ gan Lywodraeth Cymru a nododd y sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiad a ddisgwylir gan athrawon dan

²⁰ [Tasglu Gweinidogol ar gyfer Modelau Cyflenwi](#) (2017).

²¹ Ibid., t.8.

²² [Datganiad Ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg](#) (2017).

²³ [Cwricwlwm i Gymru](#).

²⁴ Donaldson, G (2015) [Dyfodol Llwyddiannus Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru](#).

²⁵ [Safonau proffesiynol](#).

hyfforddiant, ANG ac athrawon ac arweinwyr presennol. Disgwylir i'r safonau newydd helpu i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yng Nghymru a gwireddu ei hamcanion diwygio addysg, gan gynnwys diwygiadau i addysg gychwynnol i athrawon a gweithredu cwricwlwm newydd. Disodlwyd tair set o safonau blaenorol a oedd ar waith ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (2009), Safonau Athrawon wrth eu Gwaith (2011) a Safonau Arweinyddiaeth (2011) gan yr un set hon o safonau yn unol â'r hyn a argymhellwyd yn adolygiad Tabberer. Mae'r safonau'n cynnwys pum elfen sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu effeithiol, sef Addysgeg, Cydweithredu, Arloesi, Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth. Yn ogystal, mae chwech o werthoedd ac ymagweddau cyffredinol yn cyd-fynd â'r safonau proffesiynol. Arweiniwyd y gwaith o ddatblygu'r safonau gan yr Athro Mick Waters gyda mewnbwn parhaus gan y proffesiwn, a buont yn destun proses ymgynghori a threialu helaeth. Fe'u cyhoeddwyd ym mis Medi 2017, gydag athrawon newydd gymhwyso (ANG) yn gweithio tuag atynt ar sail statudol a'r holl athrawon ac arweinwyr presennol yn eu mabwysiadu o fis Medi 2018 ymlaen. Cawsant eu mabwysiadu gan y ddarpariaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) ym mis Medi 2019. Cyhoeddwyd safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu hefyd yn 2019 ar gyfer cynorthwywyr addysgu a chynorthwywyr addysgu lefel uwch.

- 3.13 Disgwylir i athrawon ddefnyddio'r **Pasbort Dysgu Proffesiynol** (PDP) a gynhelir gan Gyngor y Gweithlu Addysg i fyfyrion ar eu hymarfer a dangos eu bod yn cyrraedd y safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Mae'r platfform ar-lein yn caniatáu i'r holl ddefnyddwyr cofrestredig gofnodi eu gweithgareddau dysgu proffesiynol a disgwylir i bob ANG sy'n dilyn eu rhaglen sefydlu ddefnyddio'r pasbort i gael mynediad i'w Proffil Sefydlu a'i gwblhau.
- 3.14 Mae'r **Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol**²⁶, a lanswyd yn 2018, wedi cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r

²⁶ [Dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol](#).

amrywiad ledled Cymru o ran darpariaeth a phrofiadau dysgu proffesiynol. Y bwriad yw i'r dull ddarparu model o elfennau rhyng-gysylltiedig sy'n nodi:

- y ddarpariaeth a'r cymorth y gall ymarferwyr ddisgwyl eu cael gan y system
- y meini prawf dylunio ar gyfer gweithgareddau, adnoddau a phrosesau dysgu proffesiynol
- disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran ymddygiad y system er mwyn gwneud penderfyniadau polisi ac adnoddau yn dryloyw i'r haen ganol ac i ysgolion.

3.15 Ategir y datblygiadau hyn yng **Nghynllun Datblygu'r Gweithlu**²⁷ a gyhoeddwyd yn ddiweddar sy'n nodi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer system cynllunio'r gweithlu effeithiol. Mae un rhan o'r cynllun yn canolbwyntio ar daith unigolyn drwy'r proffesiwn. Ymysg y camau a nodir yn y cynllun mae 'ailstrwythuro'r cyfnod sefydlu statudol' a 'datblygu rhaglen o gymorth i athrawon newydd gymhwyso'²⁸. Mae'r cynllun yn amlinellu Pecyn Cymorth Gyrfa Gynnar ar gyfer ymarferwyr a fyddai'n cynnwys 'ffocws newydd ar ymsefydlu ac adolygiad o'r trefniadau presennol'²⁹. Noda y bydd adolygiad o drefniadau sefydlu yn cael ei gynnal yn ystod 2019-21 gyda ffocws penodol ar ddeall y ffactorau sy'n arwain at gwblhau cyfnod sefydlu yn llwyddiannus drwy'r llwybr cyflenwi tymor byr ac adolygiad o raglenni cymorth consortia addysg rhanbarthol ar gyfer ANG sy'n ymgymryd â'r broses sefydlu. Mae'r cynllun hefyd yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhaglen hyfforddi a mentora genedlaethol ar gyfer ANG a'r rhai yn eu pedair blynedd gyntaf o addysgu a rhaglen dysgu proffesiynol genedlaethol i gefnogi athrawon yn ystod eu cyfnod sefydlu a'u gyrfa gynnar.

²⁷ Llywodraeth Cymru (2019) [Buddsoddi mewn rhagoriaeth: Ein cynllun cenedlaethol i ddatblygu'r gweithlu 2019-21](#).

²⁸ Ibid., t.7.

²⁹ Ibid., t.31.

Athrawon cyflenwi

- 3.16 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru **fframwaith newydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer athrawon cyflenwi**³⁰ yng Nghymru ym mis Medi 2019, yn dilyn ymarfer caffael. Anogir ysgolion sy'n diwallu eu hanghenion o ran athrawon cyflenwi drwy staff asiantaeth gyflenwi i ddefnyddio asiantaethau fframwaith gan eu bod wedi dangos eu bod yn bodloni gofynion penodol megis sicrhau bod yr holl wiriadau'n ymwneud â chymwysterau, addasrwydd a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cwblhau. Yn arbennig o berthnasol i'r adolygiad hwn mae'r ffaith ei bod yn ofynnol i bob asiantaeth ar y fframwaith gynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol i gyflogeion a sicrhau y rhoddir cefnogaeth briodol i bob ANG i'w galluogi i fodloni'r gofynion sefydlu.
- 3.17 Ym mis Hydref 2017, sefydlwyd **peilot clwstwr cyflenwi mewn ysgolion**³¹ i wella'r ffordd y mae athrawon cyflenwi yn cefnogi ysgolion. Cefnogodd y peilot 18 o brosiectau clwstwr mewn ysgolion ar draws 15 ALI i dreialu dulliau o gyflogi athrawon a oedd wedi cymhwyso'n ddiweddar ar sail ychwanegol er mwyn cael athrawon cyflenwi i gwmpasu cyfnodau pan fyddai athrawon eraill yn absennol. Canfu gwerthusiad annibynnol o'r dull gweithredu fod y peilot:
- wedi llwyddo i ddod o hyd i ffyrdd amgen ac arloesol o gael athrawon cyflenwi ar gyfer absenoldeb
 - wedi cefnogi 38 o athrawon ychwanegol i gwblhau eu cyfnod sefydlu ANG yn llwyddiannus
 - wedi darparu profiadau sefydlu cadarnhaol i ANG ac roedd hyn mewn gwrthgyferbyniad â'r heriau a wynebier ganddynt fel athrawon cyflenwi dyddiol. Nodwyd bod cefnogaeth y mentor yn gryfder ond bod y diffyg 'addysgu rheolaidd mewn dosbarthiadau er mwyn caniatáu ar gyfer yr elfen baratoi/ gwerthuso sy'n ofynnol er mwyn cwblhau'r cyfnod ymsefydlu ANG³².

³⁰ [Athrawon cyflenwi](#).

³¹ Llywodraeth Cymru (2019) [Gwerthusiad o'r Prosiect Clwstwr Cyflenwi mewn Ysgolion](#).

³² Ibid., t.38.

3.18 Argymhellodd y gwerthusiad y dylid cefnogi ail gam y model clwstwr cyflenwi ac, os caiff ei dargedu at ANG, y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i:

- pwy sydd â chyfrifoldeb am drefnu cefnogaeth a hyfforddiant i ANG
- cynllunio blociau o amser addysgu wrth ddyrannu amserlen ar gyfer ANG er mwyn eu galluogi i gyflawni eu cyfnod sefydlu
- sefydlu a hwyluso 'rhwydwaith i ddarparu cymorth gan gymheiriaid ar gyfer y rhai sy'n cyflawni'r rôl [ANG]'³³.

Pa mor ddeniadol yw addysgu a chadw athrawon

3.19 Canfu astudiaeth ar ba mor ddeniadol yw addysgu, a chadw athrawon yng Nghymru³⁴ fod y ffactorau a helpodd i gryfhau ymrwymiad i addysgu ymhlith ANG yn cynnwys mynediad at fentoriaid cefnogol, yn enwedig mentor a oedd wedi cymhwyso'n ddiweddar, teimlo'n rhan o dîm a derbyn cyngor am opsiynau hyfforddi. Ymhlith y ffactorau y nodwyd eu bod yn creu amheuan ymhlith ANG ynglŷn â pharhau i addysgu roedd diffyg cefnogaeth yn yr ysgol, diffyg adborth ar eu gwaith a'r angen i lunio ffeiliau tystiolaeth. Mae'r adroddiad yn dadlau bod 'cymorth proffesiynol effeithiol a chyson yn ystod AGA, y cam sefydlu ANG, addysgu ar ddechrau gyrfa...yn elfen hanfodol o gadw athrawon'³⁵ a bod 'ansawdd a chysondeb mentora ar gyfer pob ymarferydd ym mlynnyddoedd cyntaf eu gyrfaedd' yn ystyriaeth bwysig. Daw'r ymchwil i'r casgliad y dylai mentoriaid 'feddu ar yr hyfforddiant gofynnol a chael amser i gyflawni'r rôl', 'y nodweddion personol a oedd yn golygu ei bod hi'n hawdd mynd atynt a'u bod yn gefnogol' a 'darparu adborth o ansawdd uchel fel rhan o'u cymorth'³⁶.

³³ Ibid., t.60.

³⁴ Beaufort Research ac NFER (2019) [Astudiaeth Ymchwil ar Ba Mor Ddeniadol yw Addysgu, a Chadw Athrawon](#). Caerdydd: Llywodraeth Cymru, y Llywodraeth, rhif adroddiad GSR 09/2019.

³⁵ Ibid., t.108.

³⁶ Ibid., t.113.

Trefniadau sefydlu ar gyfer athrawon newydd

- 3.20 Mae'r **Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015**³⁷ yn nodi ei bod yn ofynnol i bob ANG yng Nghymru a enillodd statws athro cymwysedig (SAC) ar ôl 1 Ebrill 2003 ymgymryd â chyfnod sefydlu mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru, oni bai eu bod yn dod o fewn categori eithrio. Mewn rhai amgylchiadau, gellir cwblhau'r cyfnod sefydlu mewn sefydliad priodol arall fel ysgol annibynnol neu goleg Addysg Bellach (AB) yng Nghymru neu Loegr.
- 3.21 Arweiniodd y gostyngiad mewn argaeledd contractau addysgu hirdymor ar gyfer ANG, at Llywodraeth Cymru yn caniatáu i ANG gyflawni eu rhwymedigaeth statudol drwy lwybrau rhan-amser a/neu lwybrau cyflenwi byrdymor. Felly, er 2012, mae hyblygrwydd wedi caniatáu i ANG ymgymryd â chyfnod sefydlu drwy lwybr cyflenwi byrdymor.
- 3.22 Mae canllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru '**Ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru**' yn nodi'r gofynion sefydlu presennol ar gyfer ANG yng Nghymru³⁸. Noda ei bod yn rhaid i bob ANG sy'n dechrau ar ei gyfnod sefydlu o ddechrau mis Medi 2017 ddangos sut mae ei ymarfer yn cyrraedd y safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi'r cymorth y gall ANG ddisgwyl ei gael yn ystod y cyfnod sefydlu, a sut yr asesir eu bod wedi cyrraedd y safonau proffesiynol.
- 3.23 Mae **Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011**³⁹ yn amlinellu prosesau rheoli perfformiad ar gyfer y proffesiwn addysgu. Fodd bynnag, mae ANG sy'n ymgymryd â'u cyfnod sefydlu statudol wedi'u heithrio o'r rheoliadau hyn ond mae'n ofynnol iddynt ymgymryd â phroses debyg lle y dylent drafod â'u mentor sut y byddant yn dangos tystiolaeth o'u gwaith yn erbyn y safonau proffesiynol perthnasol. Mae'n ofynnol i ANG ddangos eu bod yn bodloni'r holl ddisgrifyddion perthnasol yn y safonau proffesiynol er mwyn cwblhau eu cyfnod sefydlu yn llwyddiannus.

³⁷ [Rheoliadau Addysg \(Trefniadau Sefydlu Athrawon Ysgol\) \(Cymru\) 2015](#).

³⁸ Llywodraeth Cymru (2017) [Ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru](#).

³⁹ [Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol \(Cymru\) 2011](#).

3.24 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi mai pwrpas y broses sefydlu statudol yw:

- 'cyfrannu at y gwaith o ddatblygu gweithlu addysgu rhagorol er budd pob dysgwr
- cefnogi athrawon newydd gymhwyso er mwyn iddynt gael y dechrau gorau posibl i'w gyrfaedd
- rhoi cyfle i athrawon newydd gymhwyso ddatblygu eu harfer drwy ganolbwyntio ar y gofynion a nodir yn y safonau proffesiynol perthnasol
- paratoi athrawon newydd gymhwyso ar gyfer eu gyrfa drwy sefydlu'r sgiliau a'r ymddygiadau y bydd angen iddynt adeiladu arnynt drwy gydol eu gyrfa
- sicrhau bod athrawon newydd gymhwyso'n canolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol
- sicrhau bod athrawon newydd gymhwyso'n meddu ar y sgiliau i oresgyn yr heriau a ddaw yn sgil diwygio'r sector addysg
- sicrhau bod athrawon newydd gymhwyso'n canolbwyntio eu dysgu proffesiynol ar y dulliau mwyaf effeithiol gan gynnwys ymarfer myfyriol, cydweithio effeithiol, hyfforddi a mentora, a defnyddio data a thystiolaeth ymchwil yn effeithiol
- adeiladu ar y profiadau a gafwyd mewn addysg gychwynnol athrawon i gefnogi twf proffesiynol gydol gyrfa⁴⁰.

3.25 Mae'r canllawiau'n disgrifio rôl y **mentor sefydlu** (MS) fel darparu gwasanaeth mentora a goruchwyllo o ansawdd uchel yn ogystal â chymorth o ddydd i ddydd i'r ANG. Fel rheol, disgwylir i'r MS fod wedi'i leoli yn yr un ysgol â'r ANG ond gall hefyd weithio gyda grŵp o ANG sy'n ymgymryd â'r broses sefydlu fel athrawon cyflenwi byrdymor ar draws nifer o ysgolion. Disgwylir iddynt hefyd weithio gyda'r GA i gyflwyno argymhelliad i'r corff priodol ynglŷn â chanlyniad y cyfnod sefydlu.

⁴⁰ Ibid. t.2-3.

- 3.26 Ariennir **gwirwyr allanol** (GA) gan Lywodraeth Cymru drwy Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) i sicrhau ansawdd y trefniadau sefydlu ar ran y corff priodol. Disgwylir iddynt hefyd gyfwyno argymhelliad i'r corff priodol ynglŷn â chanlyniad y cyfnod sefydlu.
- 3.27 Mae gan y **corff priodol** (CP) '[g]yfrifoldeb cyffredinol o sicrhau bod y cyfnod ymsefydlu yn bodloni'r gofynion statudol ac mae'n defnyddio tystiolaeth asesu i wneud y penderfyniad terfynol o ran canlyniad y cyfnod ymsefydlu'⁴¹. Rhaid i awdurdodau lleol wasanaethu fel CP, er y gellir dirprwyo'r rôl hon i gonsortiw addysg rhanbarthol.
- 3.28 Disgwylir i asiantaethau cyflogaeth neu gyflenwi ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol i ANG, lle mae rhywfaint o'u cyfnod sefydlu neu'r cyfan ohono yn digwydd drwy'r llwybr hwn.
- 3.29 Mae CGA yn gyfrifol am gasglu, coladu a chynnal ffynhonnell ddata ganolog am ANG sy'n ymgymryd â'r broses sefydlu yn ogystal â gweinyddu cyllid sefydlu i ysgolion. Mae CGA yn cynnal ac yn darparu mynediad i'r Proffil Sefydlu ar-lein drwy'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) 'er mwyn galluogi athrawon newydd gymhwyso i ystyried y safonau proffesiynol perthnasol a chofnodi eu profiadau proffesiynol'⁴².
- 3.30 Yn unol â'r rheoliadau, mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi bod yn rhaid i bob ANG gwblhau cyfnod sefydlu o dri thymor ysgol neu gyfnod cyfatebol, sy'n dod i gyfanswm o 380 o sesiynau ysgol. Mae'r canllawiau'n nodi 'nid oes terfyn ar faint o amser y gallant ei gymryd i wneud hyn'⁴³ sy'n ystyried y rhai sy'n gweithio'n rhan-amser neu'n athrawon cyflenwi.
- 3.31 Mae'r canllawiau'n nodi'r cymorth y mae gan ANG yr hawl i'w gael yn ystod eu cyfnod sefydlu, gan gynnwys cymorth gan eu mentor sefydlu.
- 3.32 Mae'r canllawiau hefyd yn nodi hawl ANG i gael llai o amser addysgu yn ystod eu cyfnod sefydlu. Yn unol â'r rheoliadau, ni ddylai athro sy'n ymgymryd â'r broses sefydlu 'addysgu am fwy na 90 y cant o'r amser y

⁴¹ Ibid., t.3.

⁴² Ibid., t.3.

⁴³ Ibid., t.5.

byddai disgwyl iddynt ei dreulio'n addysgu yn yr ysgol fel arfer'⁴⁴. Mae'r canllawiau'n nodi bod gan ANG hawl i 'ostyngiad pellach o 10 y cant i'w hamserlen addysgu sy'n weddill...ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu'⁴⁵. Mae ysgolion yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru, a weinyddir gan CGA i dalu'r costau sy'n gysylltiedig ag amserlen lai ar gyfer ANG. Nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â chymorth MS ar gyfer ANG.

3.33 Mae gwybodaeth ar wefan CGA⁴⁶ yn nodi'r camau y mae'n rhaid i ANG eu dilyn wrth ddechrau ar eu cyfnod sefydlu:

- wrth gymhwyso fel athro yng Nghymru, mae CGA yn rhoi gwybod i'r unigolyn y dyfarnwyd SAC iddo a chaiff gyfeirnod athro unigryw
- er mwyn ymarfer fel athro ysgol yng Nghymru, rhaid i unigolion gofrestru gyda CGA
- rhaid i ysgolion hysbysu CGA (drwy'r ffurflen hysbysu sefydlu) bod ANG yn dechrau cyfnod sefydlu yn yr ysgol o fewn deg diwrnod gwaith ar ôl dechrau'r cyfnod sefydlu
- rhaid i ANG sy'n ymgymryd â chyfnod sefydlu fel athrawon cyflenwi byrdymor hysbysu CGA (drwy'r ffurflen hysbysu sefydlu fel athro cyflenwi byrdymor) eu bod yn dechrau rhaglen sefydlu o fewn deg diwrnod gwaith i ddechrau eu sesiwn gyntaf fel athro cyflenwi byrdymor
- rhaid i ANG gwblhau Proffil Sefydlu drwy eu cofnod CGA ar-lein.

Rhaglenni dysgu proffesiynol

3.34 Gall ANG ddisgwyl disgwyl manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol yn ystod eu cyfnod sefydlu. Mae pob Consortiwm Addysg neu ALI yn cyhoeddi ei raglen hyfforddi flynyddol ar gyfer ANG ac mae eu darpariaeth ar gyfer y flwyddyn academiaidd hon (2019/20) wedi'i nodi isod.

⁴⁴ Ibid., t.8.

⁴⁵ Ibid., t.8.

⁴⁶ [Cyngor y Gweithlu Addysg](#)

GwE

- 3.35 Cyflwynir y rhaglen dysgu proffesiynol gan yr ALI a'r consortia addysg dros bum niwrnod. Yn ystod tymor yr hydref mae pob ALI yn cyflwyno rhaglen gyffredin dros gyfnod o ddau ddiwrnod sy'n ymdrin ag agweddau statudol fel amddiffyn plant, diogelwch ar-lein, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), rheoli'r ystafell ddosbarth a datblygiad cychwynnol eu Proffil Sefydlu. Fodd bynnag, mae rhywfaint o amrywiad yng nghynnwys a strwythur y sesiynau ALI hyn gan eu bod yn amrywio o 1.5 i 2.5 diwrnod ar draws y chwe ALI. O dymor y gwanwyn ymlaen, cyflwynir darpariaeth gan GwE mewn tri lleoliad gwahanol ledled y rhanbarth i sicrhau cefnogaeth ieithyddol a daearyddol briodol. Mae'r ddarpariaeth yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â'r cwricwlwm gan gynnwys llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol, y cwricwlwm newydd ac addysgu myfyriol. Mae'r ALLau yn darparu hyfforddiant undydd ar gyfer MS gan gynnwys sesiwn hyfforddi diweddarau hanner diwrnod ar gyfer MS cyfredol ac mae GwE yn darparu hyfforddiant pwrpasol ar gyfer GA.

ERW

- 3.36 Mae pob un o'r chwe ALI yn darparu rhaglen hyfforddi debyg i ANG. Mae pob rhaglen yn cynnwys hyd at chwe diwrnod datblygiad proffesiynol, fel y nodir yn Nhabl 3.1. Mewn tri achos, mae hyfforddiant ar gael i fentoriaid ac mewn dau achos, i wirwyr allanol. Fel sy'n wir ar draws GwE, mae rhywfaint o amrywiad yng nghynnwys y sesiynau hyn: er enghraifft, mae un ALI wedi cyflwyno sesiwn ychwanegol ar addysgeg a myfyrio ar ymarfer i'w ANG yn ystod y flwyddyn academaidd hon, yn ychwanegol at yr hyn a ddarperir gan bob ALLau.

Tabl 3.1: Rhaglen dysgu proffesiynol ar draws rhanbarth ERW (2019/20)

	Sir Benfro	Sir Gaerfyrddin	Ceredigion	Castell-nedd Port Talbot	Abertawe	Powys
Digwyddiad croeso	x	x	x	x	x	x
Sgiliau cyfathrebu	x					
Creu amgylchedd dysgu cadarnhaol	x	x	x	x	x	x
Ymarfer myfyriol	x	x				x
Cymhwysedd digidol / diogelu	x	x	x	x	x	x
Llythrennedd a / neu rifedd	x	x	x	x	x	x
Anghenion Dysgu Ychwanegol		x				
Dysgwyr Saesneg fel iaith Ychwanegol				x	x	
Arwain prosiect ymchwil weithredu					x	
Hyfforddiant i Fentoriaid Sefydlu	x			x		x
Hyfforddiant i Wirwyr Allanol	x			x		

GCA

- 3.37 Ar draws GCA, darperir rhaglen dysgu proffesiynol 4.5 diwrnod ac mae'n cynnwys sesiwn ragarweiniol ac yna bedair sesiwn broffesiynol a gyflwynir yn y 38 o ysgolion dysgu proffesiynol⁴⁷ o fewn y rhanbarth. Y themâu dan sylw yw dylanwadu ar ddysgwyr, mireinio addysgu, arferion proffesiynol a hyrwyddo dysgu (i gynnwys ymweliad â lleoliad arall). Darperir y sesiwn friffio hanner diwrnod gychwynnol gan GCA a'r pedwar diwrnod sy'n weddill gan GA sy'n gyfrifol am Ysgolion Dysgu Proffesiynol. Mae pob sesiwn dysgu proffesiynol yn cynnwys elfen o arsylwi ymarfer byw.

CCD

- 3.38 Mae rhaglen pum niwrnod wedi'i brandio fel 'Anelu' ar gael i ANG sy'n cael ei darparu ar draws 18 o leoliadau dysgu proffesiynol yn y pum maes ALI a gwmpesir gan CCD.

⁴⁷ Mae ysgolion dysgu proffesiynol yn gwneud cais i GCA ddarparu a chefnogi cyfleoedd dysgu proffesiynol ledled y rhanbarth. Mae'n darparu sesiynau dysgu proffesiynol i ymarferwyr gan gynnwys CA, ANG ac athrawon ac arweinwyr profiadol yn ogystal â hyfforddi ysgolion eraill i gyflwyno'r ddarpariaeth hon.

- 3.39 Mae CCD hefyd yn cyflwyno cwrs Anelu cywasgedig i ANG sy'n cwblhau cyfnod sefydlu drwy'r llwybr cyflenwi byrdymor. Darperir rhaglen deuddydd a chaiff ANG eu talu i'w mynychu drwy eu hasiantaeth gyflenwi.

Adolygiad o ddarpariaeth GCA ar gyfer ANG, Prifysgol Manceinion.

- 3.40 Mae adolygiad diweddar o'r cymorth sydd ar gael i ANG ledled rhanbarth GCA⁴⁸ yn seiliedig ar farn 46 o ANG a gyfwelwyd ar draws 13 o grwpiau ffocws rhwng mis Mawrth a mis Mai 2019. Mae'r adolygiad yn ystyried y model cymorth sydd ar waith ar gyfer ANG sy'n cynnwys sesiynau sefydlu a hwylusir gan GCA, ac yna sesiynau cyfnos a phedwar Diwrnod Dysgu Proffesiynol llawn a gynhelir mewn Ysgolion Dysgu Proffesiynol. Canfu'r adolygiad:
- fod Diwrnodau Dysgu Proffesiynol yn uchel iawn eu parch ymysg ANG, yn enwedig o ran gwerth rhwydweithio ag ANG eraill, arsylwi ymarfer byw a chael lle diogel i gynnal deialog broffesiynol
 - bod ansawdd a hygyrchedd y cymorth gan fentor yn amrywio. Mae'r adolygiad yn argymhell y dylai pob mentor 'gael yr amser sydd ei angen arno i gyflawni'r rôl yn dda, a chefnogaeth ar gyfer dysgu proffesiynol i fentoriaid'⁴⁹
 - roedd profiad o gyfnod sefydlu yn dibynnu ar statws cyflogaeth yr ANG, gyda'r rhai sy'n ymgymryd â'r broses sefydlu fel athrawon cyflenwi yn wynebu mwy o broblemau. Mae'r adolygiad yn argymhell y dylid sicrhau profiad teg i bob ANG beth bynnag yw daliadaeth ei swydd
 - mae angen adolygu ymarferoldeb a phriodoldeb y PDP er mwyn sicrhau ei fod yn cefnogi twf a dysgu proffesiynol yn well
 - mae angen cryfhau llythrennedd ymchwil ymhlith ANG fel eu bod yn gwneud mwy o ddefnydd o dystiolaeth ymchwil i wella eu harferion addysgu.

⁴⁸ Prifysgol Fetropolitan Manceinion (2019) EAS Support for newly qualified teachers - NQT focus group report. Heb ei gyhoeddi.

⁴⁹ Ibid., t.9.

Datblygiadau diweddar yn Lloegr

- 3.41 Ym mis Rhagfyr 2017, lansiodd yr Adran Addysg ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i gryfhau Statws Athro Cymwysedig (SAC) a gwella dilyniant gyrfa addysgu⁵⁰. Roedd y cynigion yn cynnwys rhoi dyfarniad SAC (dros dro) i unigolion sy'n cwblhau eu cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon yn llwyddiannus ac ymestyn y cyfnod sefydlu o flwyddyn i ddwy flynedd, gyda SAC yn cael ei ddyfarnu ar ddiwedd y cyfnod sefydlu hwy hwn. Nodwyd y cynigion hyn ar y sail bod y system gymhwyso gyfredol yn golygu bod SAC yn cael ei ddyfarnu ar ddiwedd HCA, ond nid yw athro wedi'i' gymhwyso'n llawn nes ei fod wedi pasio ei flwyddyn sefydlu statudol. Os na fyddant yn cwblhau'n llwyddiannus yn ystod y flwyddyn honno, ni chaniateir iddynt addysgu fel athrawon cymwysedig mewn ysgol a gynhelir, ac eto mae ganddynt SAC⁵¹. Gwneir y cynnig i ymestyn y cyfnod sefydlu i ddwy flynedd ar y sail bod hyn yn rhoi cyfnod hwy i athrawon newydd datblygu eu gwybodaeth a'u hymarfer proffesiynol.
- 3.42 Cynigiodd yr ymgynghoriad hefyd y dylid datblygu fframwaith strwythuredig ar gyfer cynnwys gyrfa gynnar a fyddai'n set o wybodaeth graidd a sgiliau proffesiynol y dylai pob athro fod wedi'u datblygu i safon benodol yn ystod ei amser fel ANG, er mwyn cael SAC. Mae'r ymgynghoriad yn ystyried nifer o opsiynau ar gyfer sut y gellid gweithredu'r dull hwn.
- 3.43 At hynny, cynigiodd yr ymgynghoriad hefyd ddarparu cymorth mentora ryfach i athrawon newydd ac athrawon ar gam cynnar o'u gyrfa. Roedd y rhain yn cynnwys:
- adolygu'r safonau presennol yn ymwneud â mentoriaid HCA er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer mentoriaid athrawon newydd
 - cyflwyno rôl mentor newydd i ganllawiau sefydlu statudol i weithio ochr yn ochr â rôl gyfredol y tiwtor sefydlu
 - cryfhau canllawiau sefydlu statudol i'w gwneud yn ofynnol i ysgolion ddarparu sesiynau mentora amlach

⁵⁰ Yr Adran Addysg (2017) [Strengthening Qualified Teacher Status and improving career progression for teachers](#).

⁵¹ Ibid., t.13.

- comisiynu hyfforddiant o ansawdd uchel i fentoriaid neu ehangu'r hyfforddiant presennol os yw o ansawdd digonol
- datblygu fframwaith cynnwys strwythuredig ar gyfer gyrfa gynnar sy'n nodi'r hyn y mae angen i bob athro ei wybod a meysydd i'w datblygu.

3.44 Yn ei hymateb i'r ymatebion i'r ymgynghoriad, nododd Llywodraeth y DU ei bwriadau⁵² a chadarnhaodd y byddai'n gwneud y canlynol yn Lloegr, ymhlith pethau eraill:

- cyflwyno Fframwaith Gyrfa Gynnar ar gyfer y cyfnod sefydlu i sicrhau bod athrawon newydd yn cael mwy o gymorth a bod ysgolion yn cael mwy o arweiniad ynghylch yr hyn y dylent fod yn ei gynnig
- ymestyn y cyfnod sefydlu statudol ar gyfer athrawon newydd o flwyddyn i ddwy flynedd. Ni fydd y newid hwn yn effeithio ar gyflogau athrawon, fodd bynnag, a bydd y cyflogau'n cael eu cynnal ar raddfa gyflog athrawon cymwys
- adolygu safonau mentoriaid HCA i sicrhau eu bod yn berthnasol i fentoriaid ANG mewn ysgolion yn ogystal ag mewn lleoliadau HCA
- diwygio'r canllawiau sefydlu statudol i greu rôl newydd fel mentor yn ychwanegol at y cydlynnydd/tiwtor sefydlu.

3.45 Fodd bynnag, cadarnhaodd Llywodraeth y DU na fyddai'n newid y trefniadau dyfarnu ar gyfer SAC ledled Lloegr ac y byddai'n parhau i gael ei ddyfarnu ar ddiwedd yr HCA.

Data CGA ar unigolion sy'n ymgymryd â'r broses sefydlu

3.46 Yn ystod y flwyddyn academaidd (BA) 2018/19, dechreuodd 1,167 o athrawon ar eu cyfnod sefydlu statudol yng Nghymru. Mae nifer yr athrawon sy'n dechrau ar eu cyfnod sefydlu statudol yng Nghymru wedi lleihau dros yr wyth mlynedd diwethaf, fel y dangosir yn Nhabl 3.2. Dros y cyfnod hwn o wyth mlynedd dechreuodd cyfanswm o 9,000 o ANG ar eu cyfnod sefydlu statudol yng Nghymru.

⁵² Yr Adran Addysg (2018) [Strengthening Qualified Teacher Status and improving career progression for teachers](#).

Tabl 3.2: Nifer yr ANG a ddechreuodd ar y broses sefydlu yng Nghymru

	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Nifer	1,604	1,362	1,323	1,236	1,099	1,209	1,167

Ffynhonnell: CGA

- 3.47 Mae ychydig dros hanner yr holl athrawon sy'n dechrau'r broses sefydlu statudol yn ei chwblhau o fewn un flwyddyn academaidd ac mae'r chwarter arall yn ei chwblhau o fewn dwy flwyddyn academaidd. Gan ddiystyru'r rhai a ddechreuodd y broses sefydlu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn unig, nid yw un o bob deg o'r rhai a ddechreuodd y broses sefydlu ers 2012 wedi ei chwblhau. Dim ond tri o'r rhai a ddechreuodd y broses sefydlu ers 2012 sydd wedi methu â chyrraedd y safonau gofynnol.
- 3.48 Yn ôl data a ddarparwyd gan CGA, ym mis Tachwedd 2019, roedd 438 o unigolion y dyfarnwyd statws athro cymwysedig (SAC) iddynt cyn mis Awst 2019, a oedd wedi cofrestru yn y categori 'athro' ac yr oedd yn ofynnol iddynt ymgymryd â'r broses sefydlu statudol, heb wneud hynny. Roedd hyn yn llai na'r nifer na wnaeth hynny yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol, pan gofnodwyd nad oedd 549 o unigolion wedi dechrau'r broses sefydlu.
- 3.49 Roedd mwyafrif y rhai nad oeddent yn ymgymryd â'r broses sefydlu ym mis Tachwedd 2019 (370 o 438) yn athrawon cyflenwi tra bod lleiafrif (68) yn athrawon a gyflogwyd mewn ysgolion. Roedd tair rhan o bump o'r rhain (271 o'r 438) wedi cofrestru gyda CGA yn ddiweddar tra bod y traean arall (167) wedi derbyn gohebiaeth flaenorol ynghylch y gofyniad i ymgymryd â'r broses sefydlu.
- 3.50 Mae nifer yr athrawon nad ydynt yn ymgymryd â'r broses sefydlu yn lleihau dros y flwyddyn academaidd, yn rhannol oherwydd ymdrechion CGA i ohebu â'r unigolion hyn i ail-bwysleisio'r gofyniad. Erbyn mis Ionawr 2020, roedd y nifer nad oeddent yn ymgymryd â'r broses sefydlu wedi lleihau i 345. O'r rhain, roedd y mwyafrif (284) yn athrawon cyflenwi ac roedd lleiafrif (61) yn athrawon a gyflogwyd mewn ysgolion.

4. Ymwybyddiaeth o'r broses sefydlu statudol ac agweddau tuag ati

- 4.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith maes gydag athrawon newydd gymhwyso (ANG), Gwirwyr Allanol (GA) yn ogystal â chynrychiolwyr o'r Consortia Addysg, Awdurdodau Lleol (ALLau), Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) ac asiantaethau cyflenwi mewn perthynas ag ymwybyddiaeth ANG o'r broses sefydlu statudol a'u hagweddau tuag ati.

Ymwybyddiaeth o'r broses sefydlu statudol

- 4.2 Cyn dechrau'r cyfnod sefydlu statudol i athrawon, roedd yr ymwybyddiaeth o'r hyn yr oedd yn ei olygu yn amrywio ymhlith ANG. Roedd mwyafrif llethol yr ANG a gyfrannodd at y grwpiau ffocws yn cofio bod ganddynt ddealltwriaeth amwys o leiaf bod angen iddynt ymgymryd â chyfnod sefydlu, a ystyrir fel arfer yn flwyddyn o brofiad addysgu, ond nid oedd mwyafrif yr ANG yn deall yn iawn beth fyddai hyn yn ei olygu a beth fyddai'n ofynnol ohonynt ar ôl cwblhau eu cwrs Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA). ANG sy'n cyflenwi oedd y rhai lleiaf gwybodus ar ddechrau eu cyfnod sefydlu ynglŷn ag agweddau ymarferol y broses, megis pryd a sut y gallent ddechrau eu cyfnod sefydlu.
- 4.3 Adleisiodd Consortia Addysg ac ALLau farn ANG, gan ychwanegu, o'u profiad eu hunain, nad oedd gan ANG yn gyffredinol ddealltwriaeth fanwl o'r hyn y byddai cyfnod sefydlu statudol yn ei olygu ar y cychwyn. Dywedodd y Consortia Addysg, ALLau ac asiantaethau cyflenwi fod ymwybyddiaeth ANG a gafodd eu hyfforddi mewn Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) yn Lloegr o ofynion y broses sefydlu yng Nghymru fel arfer yn isel, er bod y rhai a oedd wedi hyfforddi ym Mhrifysgol Caer yn ddiweddar yn fwy gwybodus ers achrediad diweddar y Brifysgol fel darparwr AGA yng Nghymru.
- 4.4 Yn gyffredinol, roedd ANG yn derbyn ac yn croesawu'r cysyniad o gyfnod sefydlu statudol gan ei fod yn golygu nad oeddent yn cael eu 'taflu i'r pen dwfn heb unrhyw gymorth'. Er gwaethaf hyn, roedd ANG yn aml yn gweld y flwyddyn sefydlu fel cylch arall i neidio drwyddo ac roedd ambell un yn ofni methu:

'Mae sefydlu yn cael ei werthu fel rhywbeth y mae'n rhaid i chi ei wneud. Maen nhw'n dweud wrthyich na allwch chi ei ailsefyll os byddwch chi'n methu, ac mae hynny'n hoelio eich sylw.' (ANG)

- 4.5 Adleisiwyd hyn gan gynrychiolwyr y Consortia Addysg a'r ALI hyn, gan ychwanegu bod ANG yn ystyried y flwyddyn sefydlu i raddau helaeth fel 'blwch arall i roi tic ynddo' ac mae'n cael ei weld fel 'rhywbeth y mae angen ei wneud er mwyn ei gael allan o'r ffordd'.

- 4.6 Roedd ANG wedi dod i wybod am ofynion y cyfnod sefydlu statudol mewn sawl ffordd. Roedd yr ANG a oedd wedi mynychu'r sesiynau hyn yn ystyried bod y briff cychwynnol a ddarparwyd gan y Consortia Addysg neu ALLau yn hollbwysig:

'Doedd gen i ddim clem cyn hynny.' (ANG)

'Fis Medi cawsom e-bost gan [enw'r ALI] yn ein gwahodd i ddiwrnod sefydlu ANG ac ar ddiwedd hwnnw meddyliais, o mam bach.' (ANG)

- 4.7 Nodwyd bod gwybodaeth a ddarperir gan ysgolion, gan gynnwys drwy MS, hefyd yn ffynhonnell bwysig i rai ANG a gyflogir. Roedd llawer o ANG, yn enwedig y rhai a oedd wedi dechrau ar y llwybr cyflenwi yn wreiddiol, hefyd wedi casglu gwybodaeth gychwynnol drwy ddulliau anffurfiol megis gan eu cyd athrawon ar y cwrs AGA a'u cydweithwyr presennol. Dywedodd nifer fach o ANG fod asiantaethau cyflenwi wedi rhoi gwybodaeth iddynt am y cyfnod sefydlu, a nododd un:

'Dim ond pan wnaeth fy asiantaeth gyflenwi dynnu fy sylw ato ... gofynnodd rhywun i mi a oeddwn yn gwneud y cyfnod sefydlu. Dw i ddim yn credu y bydden nhw wedi sylwi mewn asiantaeth fwy.' (ANG)

- 4.8 Yn gyffredinol, roedd ANG o ddau ranbarth y de-ddwyrain yn fwy gwybodus am ofynion sefydlu athrawon, ond gallai hyn fod oherwydd bod yr ANG hyn wedi'u recriwtio'n uniongyrchol gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) a Chonsortium Canolbarth y De (CSC) ac yn cymryd rhan mewn sesiynau a gynhelir gan y Consortia Addysg.

- 4.9 Mae sesiynau briffio cychwynnol y Consortia Addysg a'r ALI (y cyntaf o'r rhaglen dysgu proffesiynol fel arfer) yn chwarae rhan hanfodol wrth

hysbysu ANG am fanylion y gofynion sefydlu ac roedd adborth gan ANG yn ategu hyn. Roedd ANG a oedd wedi mynychu sesiwn friffio gychwynnol ar y cyfnod sefydlu yn fwy gwybodus na'r rhai nad oeddent wedi gwneud hynny. Awgrymodd cynrychiolwyr y Consortia Addysg a'r ALI mai'r rhai sy'n llithro drwy'r rhwyd ar ddechrau eu cyfnod sefydlu ac nad ydynt yn cael eu darganfod tan yn ddiweddarach yw'r pryder mwyaf i Gyrff Priodol (AB).

Sesiynau briffio i hyfforddeion AGA

- 4.10 Er mwyn gwella'r ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth o gyfnod sefydlu athrawon, nododd y Consortia Addysg eu bod wedi dechrau cyflwyno sesiynau briffio i hyfforddeion AGA yn ddiweddar tuag at ddiwedd eu cwrs prifysgol. O ganlyniad, credwyd bod ymwybyddiaeth wedi gwella ymhlith athrawon sydd newydd gofrestru dros y flwyddyn ddiwethaf:

'Rwy'n credu ei fod yn gwella. Ond mae gennym wastad grŵp o ANG nad ydyn nhw fel pe baent yn ymgysylltu â'r broses, gan ddweud nad ydyn nhw'n gwybod dim amdani, ac nid ydynt yn darllen y wybodaeth.' (ALI)

- 4.11 Roedd y rhan fwyaf o ANG a oedd wedi cwblhau eu AGA yng Nghymru yn ddiweddar yn cofio'r sesiynau hyn - mewn rhai achosion roedd y rhain hefyd wedi cynnwys cyflwyniadau gan ANG profiadol a oedd wedi egluro'r llwybrau cyflogaeth a chyflenwi. Roedd ANG a oedd wedi cwblhau gradd baglor tair blynedd mewn addysg yn fwy gwybodus am ofynion y broses sefydlu na'u cymheiriaid a chanddynt dystysgrif addysg i raddedigion (TAR).

- 4.12 Cyfaddefodd sawl ANG nad oedd wedi talu llawer o sylw i'r sesiynau hyn gan mai'r flaenoriaeth ar y pryd oedd cwblhau'r cwrs AGA yn llwyddiannus a chael SAC. Mae hyn yn awgrymu ei bod yn bwysig atgyfnerthu'r neges eto ar ddechrau'r hyfforddiant ANG:

'Roedd yn cyd-daro â'r adeg pan oeddem newydd gyflwyno ein haseiniad mawr, felly doedd neb yn gwrando mewn gwirionedd. Roedd yn un o'n darlithoedd olaf hefyd a chafodd ei gyflwyno fel 'o, gyda llaw, os na wnewch chi hyn, llall ac arall' felly o'm rhan i, fe wnes i ddysgu wrth fynd ymlaen, ac roedd gen i ffrindiau mewn swyddi amser llawn mewn ysgolion yn dweud 'Dwi newydd orfod gwneud hyn ar gyfer fy nghyfnod sefydlu' a meddyliais

'o, rargol'. Felly, fe wnes i e-bostio [y consortiwm] a ffrindiau a chael y wybodaeth rhywsut neu'i gilydd.' (ANG)

'yn ystod y cwrs TAR, rydych yn dysgu bod yn rhaid i chi ei wneud ond ar ddechrau'r flwyddyn sefydlu rydych yn cael teimlad o'r hyn mae'n ei olygu o ddifrif.' (ANG)

4.13 Awgrymodd ANG hefyd y dylai'r cwrs AGA roi mwy o bwyslais ar gyfleu gofynion sefydlu, yn hytrach na bod hwn yn weithgaredd ychwanegol a gyflwynir gan siaradwr allanol tua diwedd ei AGA.

4.14 Dywedodd rhai Consortia Addysg eu bod wedi ceisio trefnu sesiynau briffio i hyfforddeion AGA mewn SAU yn Lloegr ond, heblaw am Brifysgol Caer, cafwyd diffyg ymateb i'r ceisiadau hyn. O ganlyniad, roedd y Consortia Addysg, ALLau, ANG ac asiantaethau cyflenwi o'r farn bod angen negeseuon wedi'u targedu a sesiynau briffio penodol ar y rhai a oedd yn dychwelyd neu'n symud i Gymru i addysgu fel ANG. Prin iawn oedd dealltwriaeth dau ANG a oedd wedi cwblhau eu hyfforddiant mewn SAU yn Lloegr o drefniadau sefydlu yng Nghymru, gan dybio y byddent yr un fath â'r trefniadau yn Lloegr. Meddai un cyfranogwr o'r fath:

'O'm rhan i, fe wnaeth Bryste ein paratoi'n dda ond cymryd yn ganiataol y byddem yn dysgu mewn ysgol yn Lloegr. Ar ôl dod yn ôl i Gymru doeddwn i ddim yn gwybod am Pebble Pad [y Pasbort Dysgu Proffesiynol]. Unrhyw hyfforddiant y byddai pobl wedi'i gael mewn prifysgol [yng Nghymru]... chawson ni ddim o hynny.' (ANG)

4.15 O ran pontio o AGA i'r cyfnod sefydlu, nododd AGA ddarlun cymysg: roedd rhai o'r farn bod y pontio'n ddidrafferth ond roedd eraill yn fwy beirniadol:

'Rwy'n teimlo ein bod ni wedi cael ein tynnu'n syth allan o hyfforddiant ac yna cael ein taflu i'r pen dwfn.' (ANG)

Cofrestru fel athrawon ysgol gydag CGA

4.16 Roedd mwyafrif helaeth yr ANG a gyfrannodd at y gwaith ymchwil hwn wedi bod yn ymwybodol o'r angen i gael eu cofrestru gyda CGA yn y categori athro ysgol cyn y gallent ddechrau addysgu. Dywedodd nifer o ANG er iddynt gofrestru tra'n dilyn y cwrs AGA 'fe wnaethant ein cofrestru

yn y fan a'r lle... aethom â'n gliniaduron i'r ddarlith... a'i wneud yn y fan a'r lle'. Y rhai a oedd wedi ymgymryd â'u AGA y tu allan i Gymru oedd y lleiaf gwybodus am yr angen i gofrestru gyda CGA. Roedd un o'r cyfranwyr hyn wedi cael cynnig swydd mewn ysgol uwchradd yng Nghymru ond nid oedd modd iddo ddechrau ar unwaith oherwydd problemau cofrestru:

'Roeddwn i mewn ysgol am wythnos a hanner oherwydd doeddwn i ddim yn gwybod bod yn rhaid i mi gofrestru â CGA [fel athro ysgol]. Ni chafodd hyn ei godi yn y cyfweiliad yn yr ysgol. Roedd yn rhaid iddyn nhw drefnu athro cyflenwi. Doedd yna erioed drafodaeth yn yr ysgol ynghylch rhif SAC. Roedden nhw wedi cymryd yn ganiataol bod gen i un.' (ANG)

Gwybodaeth gan CGA

- 4.17 Roedd nifer o ANG yn cofio derbyn cadarnhad gan CGA eu bod wedi'u cofrestru fel athrawon ysgol a bod y cadarnhad hwn yn cynnwys gwybodaeth ysgrifenedig fanwl. Fodd bynnag, cyfaddefodd llawer nad oeddent wedi cymryd fawr o sylw o gynnwys yr ohebiaeth hon. Dywedodd un ANG:

'Mae'r CGA yn anfon llwyth o wybodaeth ... pan fydd tudalennau ar dudalennau [allwch chi ddim talu sylw i bobpeth].' (ANG)

'Pan fyddwch chi'n cael cymaint o wybodaeth... mae'n ormod ... mae'n anodd gwybod beth sy'n bwysig.' (ANG)

- 4.18 Cafwyd rhyw awgrym gan Consortia Addysg ac ALLau nad yw ANG bob amser yn ddigon annibynnol i sylweddoli pwysigrwydd gwybodaeth a anfonir atynt gan CGA ar y cychwyn. O ganlyniad, mae'r Consortia Addysg ac ALLau yn treulio amser yn nhymor yr hydref yn olrhain ANG unigol nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.

- 4.19 Roedd yr ANG hynny a oedd wedi methu â deall y gofynion sefydlu athrawon ar y cychwyn o'r farn y gallent fod yn fwy gwybodus pe bai dulliau eraill yn cael eu mabwysiadu (er ei bod yn bwysig nodi bod y rhain eisoes ar waith yn y rhan fwyaf o achosion ond nad oedd ANG yn ymwybodol ohonynt):

'Tiwtorial cam wrth gam ... gyda delweddau.' (ANG)

'Pwyslais yn y brifysgol i gofrestru ar gyfer pethau.' (ANG)

'Diwrnod HMS ar ddiwedd mis Awst ar gyfer ANG cyn i chi fynd yn ôl i'r ysgol... ac wedi'i deilwra ar gyfer ANG sy'n cyflenwi neu ANG cyflogedig'.
(ANG)

5. Rheoliadau a chanllawiau sefydlu statudol

- 5.1 Mae'r bennod hon yn ystyried barn y cyfranwyr am y gofynion penodol a nodir o fewn rheoliadau a chanllawiau sefydlu statudol, gan gynnwys yr angen i gofnodi sesiynau addysgu, nifer y sesiynau addysgu sy'n ofynnol i gwblhau cyfnod sefydlu a mynediad at lai o amser addysgu.

Cofnodi sesiynau addysgu

- 5.1 Dywedodd y rhan fwyaf o athrawon newydd gymhwyso (ANG) eu bod wedi dod yn ymwybodol bod yn rhaid cyfrif sesiynau tuag at y broses sefydlu yn ystod eu hwythnosau cychwynnol o addysgu, er bod rhai wedi cymryd llawer mwy o amser i glywed am y gofyniad hwn. Roedd hyn yn fwy o broblem i athrawon cyflenwi a nododd, fel y nodir yn Ffigur 5.1, eu bod yn dod yn ymwybodol o'r gofyniad hwn ar sail ad-hoc o ganlyniad i ddulliau anffurfiol neu ar ôl derbyn llythyr atgoffa gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Nododd ANG a gyflogir gan ysgolion eu bod wedi cael gwybod am y gofyniad hwn drwy ystod o ffynonellau gan gynnwys ysgolion a'u Mentor Sefydlu (MS), Awdurdodau Lleol (ALLau) a'r Consortia Addysg.

Ffigur 5.1: Enghreifftiau o brofiadau ANG sy'n cyflenwi

Roedd un ANG sy'n cyflenwi wedi cael gwybod gan yr asiantaeth gyflenwi am yr angen i lofnodi ffurflenni sefydlu gan yr ysgolion ryw chwe wythnos ar ôl dechrau ar ei chyfnod cyflenwi.

Roedd ANG arall a oedd yn gwneud gwaith cyflenwi byrdymor yn cofio derbyn llythyr gan CGA dros hanner tymor yr hydref yn holi a oedd wedi ymgymryd ag unrhyw sesiynau addysgu: yn yr achos hwn roedd yr unigolyn wedi gwneud gwaith cyflenwi byrdymor rheolaidd ers dechrau'r tymor ond heb fod yn ymwybodol o'r angen i'w cofnodi.

Dywedodd trydydd ANG sy'n cyflenwi 'Fe wnes i ddod i wybod am lawer o bethau drwy WhatsApp gan fyfyrwyr TAR... Pan ddechreuais i doeddwn i ddim yn gwybod am PebblePad [y Pasbort Dysgu Proffesiynol]. Doeddwn i ddim yn gwybod bod yn rhaid i mi gofnodi. Roeddwn i wedi cofrestru ac yn ôl pob tebyg wedi cael y manylion.

Dywedodd ffrind wrthyf am y ffurflenni. Ym mis Rhagfyr ysgrifennodd CGA ataf... gan ddweud nad oeddwn yn cofnodi sesiynau.'

Cyfaddefodd pedwerydd ANG nad oedd yn gwybod bod yn rhaid cofnodi'r holl sesiynau addysgu yn ystod trafodaeth y grŵp ffocws, gan dybio bod rhywfaint o ddisgresiwn ynghylch gwneud hynny ai peidio: yn yr achos hwn roedd yr unigolyn wedi cael swydd gyflenwi hirdymor gydag ysgol i ddechrau ym mis Ionawr ac wedi penderfynu nad oedd yn werth trafferthu cofnodi unrhyw waith cyflenwi byrdymor yn y cyfamser:

'Doeddwn i ddim eisiau'r ffwddan... rwyf wedi gweithio fel athro cyflenwi ond heb gofnodi hynny'.

- 5.7 Er gwaethaf yr enghreifftiau hyn a gododd yn ystod y grwpiau ffocws a data CGA (a drafodir yn adran 3.48) yn dangos nad yw rhai ANG cofrestredig sy'n cyflenwi yn ymgymryd â chyfnod sefydlu, roedd ALlau a Chonsortia Addysg o'r farn bod ANG sy'n cyflenwi na ddaethant yn ymwybodol o'r angen i gofnodi eu sesiynau sefydlu (neu a ddewisodd beidio â gwneud hynny) yn ystod y flwyddyn academiaidd yn 'anfynych'. Nododd un ALI o'r fath 'y llynedd deuthum ar draws ambell un nad oedd yn ymgymryd â'r broses sefydlu'.

Gweithio fel goruchwyliwr cyflenwi

- 5.8 At ei gilydd, roedd dealltwriaeth dda ymhlith ANG ac asiantaethau cyflenwi fel ei gilydd nad oedd sesiynau a weithiwyd fel goruchwyliwr cyflenwi (fel Cynorthwyydd Addysgu (CA) neu Gynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch (CALU)) yn cyfrif tuag at eu cyfnod sefydlu. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir bob tro ac roedd dau ANG yn ddryslyd ynghylch a oedd y sesiynau a gofnodwyd yn erbyn eu cyfnod sefydlu wedi bod yn sesiynau athro neu oruchwyliwr cyflenwi:

'Rwy'n sylweddoli nawr fy mod i wedi gwneud cymaint o sesiynau fel CALU, ac nid wyf hyd yn oed yn siŵr faint o sesiynau rydw i wedi'u gwneud lle rydw i wedi'u cyfrif fel sesiynau athro lle na ddylwn i fod wedi gwneud hynny o bosibl.'

Ysgolion mewn mesurau arbennig

- 5.9 Roedd llawer o ANG yn ymwybodol efallai na fyddent yn cael eu penodi i weithio fel athro mewn ysgol lle mae angen rhoi mesurau arbennig ar waith, oni bai bod Estyn wedi ardystio yn ysgrifenedig bod yr ysgol yn addas i ddarparu goruchwyliaeth a hyfforddiant sefydlu. Roedd ANG a gyflogwyd gan ysgolion yn llai gwybodus am hyn yn gyffredinol gan nad oedd yn berthnasol i'w profiad. Roedd ANG o un grŵp yn ERW yn llawer llai ymwybodol o'r cyfyngiadau ar y mathau o ysgolion ble y gallent ymgymryd â'u cyfnod sefydlu, ond roedd hyn yn unol â'u lefelau is o ddealltwriaeth yn fwy cyffredinol am ofynion y broses sefydlu.
- 5.10 Awgrymodd CP y dylai'r canllawiau sy'n ymwneud ag ANG sy'n ymgymryd â chyfnod sefydlu mewn ysgolion o dan fesurau arbennig 'gael eu tynhau' gan fod hwn yn un maes lle roedd ysgolion ac ANG yn aml yn cysylltu â Chyrff Priodol (CP) gyda chwestiynau.

Hyd y cyfnod sefydlu

- 5.11 Mae'n ofynnol i ANG gwblhau cyfnod sefydlu o dri thymor ysgol neu gyfnod cyfatebol. Rhaid i ANG nad ydynt yn gyflogedig yn llawn amser neu heb gyflogaeth reolaidd gwblhau 380 o sesiynau mewn ysgol. Nid oes cyfyngiad ar yr amser y gall ANG ei gymryd i gyflawni'r isafswm hyn o sesiynau.
- 5.12 Canfu'r gwaith maes fod y rhan fwyaf o gyfranwyr o'r farn bod un flwyddyn academiaidd yn gyfnod priodol o amser ar gyfer cyfnod sefydlu os oeddent yn ymgymryd ag ef ar sail amser llawn, gan fod hyn yn darparu cyfleoedd i ANG gael profiad o flwyddyn academiaidd llawn mewn ysgol. Ni fynegodd ANG ddymuniad i weld y cyfnod sefydlu ffurfiol yn cael ei ymestyn. Os rhywbeth, roedd ambell ANG (yn enwedig y rhai â phrofiad blaenorol fel CA neu CALU) yn credu y dylai fod yn fyrrach.
- 5.13 Roedd y rhan fwyaf o ANG yn ymwybodol nad oedd terfyn amser i gwblhau eu cyfnod sefydlu, er bod y cyfranogwyr mewn un grŵp ffocws wedi dangos llai o ddealltwriaeth o hyn o ystyried bod terfyn amser arno yn hanesyddol:
- 'Os oes gennych swydd barhaol yna mae'n rhaid i chi ei wneud mewn blwyddyn... Roedd yn rhaid i mi... ond os ydych yn athro cyflenwi yna mae gennych bum mlynedd i'w wneud'. Mewn ymateb i hyn heriodd cyfranogwr

arall hyn gan ychwanegu 'ond rwy'n credu eu bod wedi newid hyn nawr.'
(ANG)

- 5.14 Roedd mwyafrif y cyfranwyr o'r farn bod y canllawiau sefydlu, sy'n caniatáu i CP ymestyn y cyfnod sefydlu hyd at 30 diwrnod cyn iddo gael ei gwblhau er mwyn cwmpasu absenoldeb salwch neu ffactorau eraill, yn briodol ac y gallai ddarparu ar gyfer y rhan fwyaf o amgylchiadau. Fodd bynnag, byddai rhai CP yn croesawu mwy o ddisgresiwn i ddyfarnu cwblhau cyfnod sefydlu yn llwyddiannus i ANG nad oedd yn cyflawni'r isafswm o sesiynau addysgu ond a oedd serch hynny yn bodloni gofynion y safonau proffesiynol er eu bod yn ofni y gallai cyflwyno polisi o'r fath greu mwy o broblemau. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos ANG a oedd ond yn brin o nifer fach o ddyddiau ar ddiwedd blwyddyn academiaidd, a lle y byddai parhau â'u cyfnod sefydlu yn pontio i'r flwyddyn academiaidd nesaf.
- 5.15 Ystyriwyd bod cwblhau 380 o sesiynau addysgu yn her wirioneddol i'r rhai a oedd yn gwneud gwaith cyflenwi byrdymor, a hefyd mewn rhai achosion i'r rhai sy'n gweithio'n rhan-amser, gyda disgwyl i'r rhai hynny a oedd fel arfer yn cael rhyw ddau ddiwrnod o waith cyflenwi yr wythnos gymryd dros dair blynedd i gwblhau'r cyfnod sefydlu. Ymhlith y ffactorau y credwyd eu bod yn ei gwneud yn heriol i ANG sy'n athrawon cyflenwi byrdymor gyflawni'r isafswm o sesiynau addysgu roedd:
- llai o alw am athrawon cyflenwi ar gyfnodau penodol o'r flwyddyn academiaidd, fel arfer ar ddechrau pob tymor academiaidd
 - cyflwyno cyfraddau uwch o waith cyflenwi drwy'r fframwaith cyflenwi gan arwain at ysgolion yn dewis defnyddio goruchwylwyr cyflenwi rhatach
 - rhai ysgolion, yn enwedig ysgolion uwchradd, y gweithredu polisïau lle nad ydynt yn defnyddio athrawon cyflenwi am gyfnodau o lai na phum diwrnod ysgol.
- 5.16 Mae'r diffiniad o'r hyn yw sesiwn addysgu yn creu problemau i nifer fach iawn o ANG, yn enwedig y rhai yn y sector uwchradd:

Ffigur 5.2: Enghraifft o brofiad ANG sy'n cyflenwi

Cymerodd un ANG dair blynedd i gwblhau ei chyfnod sefydlu. Er gwaethaf y ffaith bod ganddi gontract addysgu rhan-amser parhaol mewn ysgol uwchradd, dim ond 27 o sesiynau addysgu yr oedd modd i'r ANG eu cofnodi yn ystod ei blwyddyn gyntaf o addysgu oherwydd natur ei chontract cyflogaeth:

'Dim ond oriau a oedd yn cyfateb i ddau ddiwrnod llawn yr wythnos yr oedd fy nghontract yn eu cwmpasu. Oherwydd y ffordd y mae'r ysgol yn trefnu ei hamserlen, mae gennym bedair gwers yn y bore ac un yn y prynhawn. Felly, dros y flwyddyn gyntaf dim ond 27 o sesiynau y llwyddais i'w cofnodi... roedd fy ngwersi wedi'u gwasgaru ar draws yr amserlen felly dim ond y prynhawniau oedd yn cyfrif tuag at fy nghyfnod sefydlu. Pe bawn i'n dysgu pob gwers brynhawn dros y pythefnos, yna byddwn yn cael 10 mewn pythefnos. Oherwydd mai dim ond un wers yr oedd yn ei dysgu yn y bore, nid oedd yr un ohonynt yn cyfrif.'

Cynigiodd yr ysgol gyfleoedd CA i'r ANG er mwyn llenwi ei hamserlen i ddechrau ond dros amser, cynyddodd ei chontract addysgu a ganiataodd iddi gwblhau ei gofynion sefydlu yn y pen draw.

- 5.17 Problem gysylltiedig a godwyd yn rheolaidd gan ANG sy'n cyflenwi oedd y gofyniad i gael llofnod gan bennaeth yr ysgol neu aelod arall o'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh) i ddangos tystiolaeth bod pob sesiwn addysgu wedi cael ei chynnal gan ddefnyddio ffurflen Cofnod Cyfnod Sefydlu CGA. Ystyriwyd bod hyn yn feichus, yn enwedig i'r rhai sy'n gwneud gwaith cyflenwi tymor byr oherwydd anawsterau gan gynnwys:

- cael gafael ar berson addas i lofnodi'r ffurflen
- yr ANG yn anghofio gofyn am lofnod ar y diwrnod
- ffurflenni papur yn mynd ar goll (ac felly roedd unrhyw gofnodion blaenorol ar yr un papur yn cael eu colli)

- anawsterau technegol yn gysylltiedig â sganio'r ffurflenni papur a diffyg cyfatebiaeth rhwng nifer y sesiynau sy'n ymddangos ar Broffil Sefydlu ar-lein yr ANG o'i gymharu â'r dystiolaeth ar bapur.

- 5.18 Cyfeiriwyd at sawl enghraifft hefyd lle roedd ANG yn tangofnodi'r sesiynau yr oeddent yn eu haddysgu: er enghraifft, nid oedd un wedi cadw unrhyw gofnodion o'r gwaith cyflenwi a wnaeth yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol a dim ond yn ystod trafodaeth y grŵp ffocws y sylweddolodd fod angen i ysgolion ddangos tystiolaeth o'r rhain er mwyn bod yn gymwys at ddibenion sefydlu. Yn ddealladwy, nid oedd yn anghyffredin i ANG nodi bod y broses yn 'hunllef llwyr'.
- 5.19 O ran gwelliannau, galwodd mwyafrif yr ANG sy'n cyflenwi ar i'r broses gael ei symleiddio a'i hawtomeiddio. Roedd yr awgrymiadau a gynigiwyd yn cynnwys mabwysiadu dull llofnodi electronig yn hytrach nag ar bapur neu ymchwilio i ffordd arall o ddangos tystiolaeth o waith cyflenwi, megis defnyddio cofnodion talu asiantaeth gyflenwi. Dadleuodd un ANG:
- 'mae'r asiantaeth yn gwybod eich bod chi wedi bod... felly gallai lofnodi'r cofnod... byddai hynny'n llawer haws na chael yr ysgol i lofnodi... dydych chi ddim yn cael eich talu os nad ydych chi wedi troi i fyny.' (ANG)

Llai o amser addysgu

- 5.20 Nododd y rhan fwyaf o ANG a gyflogir gan ysgolion eu bod yn cael derbyn eu hawl i lai o amser addysgu ar gyfer datblygiad proffesiynol, yn ychwanegol at y lleihad o 10 y cant yn yr amser addysgu ar gyfer Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA). Mae ANG yn defnyddio'r amser hwn at ystod o ddibenion gan gynnwys cwblhau eu Proffil Sefydlu, cwrdd â Mentoriaid Sefydlu (MS) a mynychu sesiynau dysgu proffesiynol. Fodd bynnag, canfu rhai ANG nad oeddent bob amser yn cael yr amser gwarchodedig hwn: er enghraifft, nododd un ANG a oedd yn dod i ddiwedd ei gyfnod sefydlu fod yr ysgol o bryd i'w gilydd yn gofyn iddo gyflenwi ar gyfer athrawon sy'n absennol yn ystod ei amser gwarchodedig. Mae ANG sydd angen parhau â'u cyfnod sefydlu yn ystod eu hail flwyddyn hefyd yn canfod na allant gael amser addysgu gwarchodedig:

'Dechreuais ym mis Tachwedd ar contract go iawn, felly roedd yn rhaid i mi ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ganlynol - felly yn ystod traean olaf fy nghyfnod sefydlu roedd gen i amserlen lawn. Ni all ysgolion roi hanner amserlen i chi am ran o'r flwyddyn.' (ANG)

- 5.21 Nid yw ANG sy'n cyflenwi fel arfer yn manteisio ar amser addysgu gwarchodedig ac roedd hyn yn wir am athrawon cyflenwi byrdymor a hirdymor, fel y rhai sy'n cyflenwi dros gyfnod mamolaeth gan fod yn rhaid iddynt ddysgu'r amserlen sydd yn ei lle ar gyfer deiliad y swydd: 'Fel athro cyflenwi, dim ond hanner diwrnod yr wythnos roeddwn i'n ei gael fel pawb arall. Chefais i ddim amser ychwanegol, er fy mod yn gwneud gwaith cyflenwi hirdymor. Doeddwn i ddim yn gwybod am hyn, ddywedodd neb wrtha'i amdano.' Ychwanegodd athrawes gyflenwi arall â phrofiad tebyg na chafodd yr amser addysgu gwarchodedig (nac amser CPA yn rheolaidd) ond roedd hi'n gyndyn o godi'r mater rhag ofn iddi golli'r contract cyflenwi.
- 5.22 Roedd yr adborth gan y Consortia Addysg ac ALLau yn adleisio profiadau ANG, gydag un yn ychwanegu 'ar y cyfan, mae ANG cyflogedig yn cael eu hamser gwarchodedig'. Awgrymodd y Consortia Addysg ac ALLau y dylai ysgolion gymryd mwy o gyfrifoldeb am ddyrannu amser gwarchodedig i ANG sy'n cyflenwi sydd gyda nhw am fwy na nifer benodol o wythnosau, ac y dylid adlewyrchu hyn yn y canllawiau. Awgrymodd rhai y dylai'r canllawiau adlewyrchu'n ffurfiol y trefniadau anffurfiol sydd ar waith rhwng y Consortia Addysg, sy'n annog ysgolion i ddarparu'r gostyngiad o 10 y cant yn yr amser addysgu i ANG sy'n cyflenwi ar ôl cyfnod o bythefnos o waith cyflenwi.
- 5.23 Mae'r trefniadau ar gyfer cael llai o amser addysgu yn amrywio ar draws ysgolion, gyda gwahanol ddulliau yn aml yn cael eu mabwysiadu mewn lleoliadau cynradd ac uwchradd. Yn ôl cynrychiolydd Consortiwm Addysg, nid yw 10 y cant yn edrych yr un fath ym mhob lleoliad. Dywedodd un ANG uwchradd fod 'diwrnodau nad ydynt yn ddiwrnodau addysgu' yn cael eu dyrannu iddynt drwy gydol y flwyddyn yn hytrach nag amserlen wythnosol reolaidd lai a dywedodd ANG cynradd eu bod yn cael 'naill ai hanner bore neu brynhawn bob wythnos ... weithiau os byddaf wedi methu un, byddaf yn cael dwbl yr amser yr wythnos ganlynol'.

- 5.24 Roedd cynrychiolwyr y Consortia Addysg ac ALLau o'r farn bod y canllawiau'n ddigon eglur o ran y mater hwn ond yn awgrymu y dylid ychwanegu enghreifftiau i ddangos sut y gallai weithio'n ymarferol. Byddai hyn yn helpu ANG i ddeall eu bod 'yn cael yr amser' o ystyried bod y prif broblemau'n ymwneud â 'sut mae'n edrych ac yn cael ei becynnu' ar hyn o bryd.

6. Darpariaeth dysgu proffesiynol

- 6.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r adborth a gasglwyd yn ystod y gwaith maes am y ddarpariaeth dysgu proffesiynol a gynigir gan Consortia Addysg ac Awdurdodau Lleol (ALLau) i athrawon newydd gymhwyso (ANG) yn ystod eu cyfnod sefydlu.

Strwythur a chynnwys

- 6.2 Fel yr amlinellir ym Mhennod 2, mae'r dull o ddarparu sesiynau dysgu proffesiynol i ANG yn cael ei arwain gan y Consortia Addysg, gydag ALLau hefyd yn chwarae rôl ar draws rhanbarthau ERW a GwE.

- 6.3 Roedd yr adborth gan ANG ar y sesiynau dysgu proffesiynol hyn yn gadarnhaol iawn, gyda'r rhai a oedd wedi mynychu sesiynau CCD a GCA yn darparu adborth cryfach yn gyffredinol:

'Maen nhw wedi bod mor barod i helpu.' (ANG)

'Roeddwn i wrth fy modd gyda nhw.' (ANG)

'Dyma oedd yr agwedd fwyaf buddiol [ar y broses sefydlu], i rannu profiadau a dysgu oddi wrth ein gilydd.' (ANG)

'Roedd yn gyfle da i gwrdd ag ANG eraill. Fi oedd yr unig ANG yn fy ysgol felly roedd hi'n braf iawn cwrdd â phobl a oedd yn gwneud yr un peth.' (ANG)

'Fe wnaeth i mi deimlo'n fwy cartrefol... roedd myfyriwr yno o'r llynedd a roddodd ychydig o awgrymiadau i ni ar sut i ddefnyddio PebblePad ac roedd hynny'n ddefnyddiol iawn.' (ANG)

- 6.4 Nododd ANG fod y sesiynau ar reoli ymddygiad ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn arbennig o ddefnyddiol yn ogystal â chyfleoedd i arsylwi gwersi.

- 6.5 Roedd peth awgrym bod rhai pynciau'n gorgyffwrdd â chynnwys eu cwrs Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) (e.e. rhinweddau athro da a myfyriwr da) ond er gwaethaf hyn, roedd ANG yn teimlo eu bod yn mynd i'r afael â'r pynciau hyn yn wahanol yn rhinwedd eu swydd fel athrawon. Roedd ANG uwchradd o un rhanbarth hefyd o'r farn y gellid cael sesiynau

gwahanol i gyfateb ag anghenion ANG cynradd ac uwchradd o ystyried mai 'dim ond unwaith neu ddwywaith yr wythnos y mae athrawon uwchradd yn gweld plant'. Roedd yr ANG hyn yn ei chael hi'n anodd cymhwyso rhai o'r cysyniadau a drafodwyd yn ystod y sesiynau dysgu proffesiynol.

- 6.6 Mae darpariaethau dysgu proffesiynol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd (e.e. adolygiadau blynyddol mewnol mewn tri rhanbarth a gwerthusiad annibynnol yn achos GCA). Yn rhanbarth GCA, yn ogystal â chomisiynu gwerthusiad annibynnol diweddar, mae'r holl arweinwyr dysgu proffesiynol yn cwrdd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd mewn diwrnod 'ailddylunio' sy'n cynnwys adolygu a diwygio adnoddau addysgu. Yn rhanbarth GwE, arweiniodd adolygiad mewnol diweddar at ALLau yn cyflwyno dwy sesiwn gyffredin gychwynnol fel rhan o'r rhaglen. Fel arfer gweithredir ar adborth gan ANG a gesglir yn ystod y sesiynau dysgu proffesiynol ac, mewn un rhanbarth, arweiniodd at gynnwys modiwl newydd ar ddysgu ymddygiadol a sesiwn benodol ar gyfer ANG sy'n gweithio mewn ysgolion arbennig.
- 6.7 Croesawodd cynrychiolwyr y Consortia Addysg, ALLau a Gwirwyr Allanol (GA) y cysyniad o raglen dysgu proffesiynol genedlaethol, ar yr amod y gellid cyflawni hyn ar lefel leol/ranbarthol:
- 'Byddai'n well cael rhaglen ar gyfer Cymru gyfan ... rhaglen graidd pum niwrnod.' (ALI)
- 6.8 Awgrymwyd y gallai'r rhaglen genedlaethol hon gael ei datblygu gan endid addas ac y gallai corff proffesiynol sicrhau ei hansawdd, fel yn achos achrediad CGA o ddarpariaeth AGA. Byddai'r dull hefyd yn cyd-fynd â datblygiadau ar draws y sector ar gyfer rhaglen arweinyddiaeth ac arweinyddiaeth ganol yn y sector addysg. Byddai rhaglen genedlaethol o'r fath hefyd yn ei gwneud yn haws hyrwyddo a chyfleu disgwyliadau a chefnogaeth sydd ar gael i ddarpar ANG. Byddai hefyd yn sicrhau bod sesiynau dysgu proffesiynol yn rhoi'r ddealltwriaeth a'r gallu i ANG gyflwyno'r cwricwlwm addysg newydd o 2022 ymlaen.

Presenoldeb

- 6.9 Dywedodd cynrychiolwyr y Consortia Addysg a'r ALLau fod nifer dda o ANG a gyflogir gan ysgolion yn mynychu'r sesiynau dysgu proffesiynol ond nid felly ANG sy'n cyflenwi, ond roedd o leiaf ddau ALI wedi nodi eu bod wedi gweld gwell presenoldeb eleni gan athrawon cyflenwi o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Priodolwyd y gwelliant hwn i gyflwyno taliad ariannol bach i ANG sy'n cyflenwi ar draws y rhanbarth hwn ers mis Medi 2019. Yn rhanbarth ERW gall ANG sy'n cyflenwi hawlio £150 os ydynt yn mynychu pob un o'r pum sesiwn.
- 6.10 Ategwyd y tueddiadau presenoldeb hyn gan ANG, er bod ANG sy'n cyflenwi a oedd yn eu hail flwyddyn addysgu yn fwy tebygol o nodi eu bod yn mynychu yn ystod eu hail flwyddyn, oherwydd diffyg gwybodaeth ar ddechrau'r cyfnod sefydlu. Mewn un rhanbarth, ystyriwyd bod argaeledd sesiynau llenwi bylchau yn bwysig i'r grŵp hwn. Cyfaddefodd dau ANG sy'n cyflenwi mewn un grŵp ffocws y dylent fod wedi mynychu'r sesiynau dysgu proffesiynol yn ystod y blynyddoedd academiaidd blaenorol ond gan nad oeddent yn ymwybodol ohonynt ar y pryd, roeddent yn mynychu sesiynau eleni yn lle hynny. Roedd trydydd ANG mewn grŵp ffocws arall, a oedd bellach yn cael ei chyflogi gan ysgol ac yn ei hail flwyddyn addysgu, yn gwrthwynebu'r ffaith ei bod yn gorfod mynychu'r sesiynau hyn gan ei bod wedi 'dysgu popeth fwy neu lai' yn ystod ei phrofiad dysgu blaenorol fel athrawes gyflenwi. At ei gilydd, mae hyn yn awgrymu bod ymwybyddiaeth o sesiynau yn gwella dros gyfnod sefydlu ANG - yn wir, adeg y gwaith maes, dim ond un ANG oedd heb fynychu unrhyw sesiwn o'r fath.
- 6.11 Mae sawl ffactor i'w gyfrif am gyfraddau presenoldeb isel ANG sy'n cyflenwi mewn sesiynau dysgu proffesiynol. Maent yn cynnwys:
- fel y trafodwyd eisoes, diffyg ymwybyddiaeth o'r sesiynau sy'n cael eu cynnal
 - digon o gyfleoedd i ANG sy'n cyflenwi gael gwaith addysgu ar y dyddiau hynny oherwydd y nifer fawr o ANG nad ydynt yn yr ysgol oherwydd eu bod yn mynychu sesiynau dysgu proffesiynol

- a'r ffaith nad yw ANG sy'n cyflenwi bob amser yn cael ad-daliad ariannol am fynychu.

- 6.12 Pwysleisiodd sawl ANG sy'n cyflenwi yr angen i flaenoriaethu ennill incwm ar ddechrau eu cyfnod sefydlu, o ystyried eu bod yn aml wedi ysgwyddo dyledion myfyrwyr sylweddol tra roeddent yn y brifysgol. Pwysleisiodd asiantaethau cyflenwi hefyd y byddai ANG sy'n cyflenwi a oedd wedi sicrhau wythnos o waith cyflenwi, er enghraifft, yn amharod iawn i aberthu'r cyfle hwn ar gyfer un diwrnod o hyfforddiant di-dâl a bod yn well gan ysgolion ddefnyddio un athro cyflenwi ar gyfer y cyfnod cyfan. Awgrymodd rhai ANG hefyd fod asiantaethau cyflenwi yn eu hannog i beidio â mynychu'r digwyddiadau hyfforddi hyn a derbyn gwaith â thâl yn lle hynny.
- 6.13 Er gwaethaf y ffaith bod sesiynau Anelu yn cael eu cynnal ar benwythnosau ar draws rhanbarth CCD mewn ymdrech i oresgyn rhai o'r problemau hyn, roedd ANG sy'n cyflenwi a oedd wedi bod yn ymwybodol o'r rhain wedi bod yn amharod i fynychu gan nad oeddent eisiau aberthu eu penwythnos os oeddent wedi bod yn gweithio yn ystod yr wythnos, hyd yn oed pan gawsant gynnig taliad i wneud hynny.
- 6.14 Roedd mwyafrif yr ANG a gyflogwyd yn dweud bod eu hysgolion wedi eu cefnogi i fynychu sesiynau dysgu proffesiynol a dim ond ambell un a ddywedodd fod eu hysgolion wedi gwrthwynebu iddynt eu mynychu ambell waith. Roedd y rhain yn tueddu i fod yn ysgolion a oedd naill ai'n cyflogi nifer fwy o ANG ac yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i athrawon cyflenwi ar gyfer pob un ohonynt neu ysgolion a oedd yn cael arolygiad gan Estyn.
- 6.15 Er mwyn mynd i'r afael â llawer o'r materion hyn, dadleuodd rhai o gynrychiolwyr y Consortia Addysg ac ALLau y dylai sesiynau dysgu proffesiynol fod yn rhan orfodol o'r broses sefydlu a byddai gweithredu hyn yn haws pe bai un rhaglen ar gyfer Cymru gyfan.

7. Rôl unigolion a chyrff allweddol

- 7.1 Mae'r bennod hon yn ystyried canfyddiadau'r gwaith maes mewn perthynas â'r rolau a gyflawnir gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA), Cyrff Priodol (CP), Mentoriaid Sefydlu (MS) a Gwirwyr Allanol (GA).

CGA

- 7.2 Mae gan CGA nifer o swyddogaethau fel y nodir yn y canllawiau, sef:
- '[c]ynnal a darparu mynediad at y proffil ymsefydlu statudol ar-lein drwy'r Pasbort Dysgu Proffesiynol fel bod yr ANG yn gallu myfyrio ar y safonau a chofnodi ei brofiadau proffesiynol
 - [g]weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r consortia i gynnal rhan proffil ymsefydlu'r Pasbort Dysgu Proffesiynol a sicrhau mynediad i'r partïon, gan gynnwys unrhyw ddeunyddiau ategol
 - sicrhau bod y sawl sy'n ymgymryd â'r rhaglen ymsefydlu yn meddu ar SAC [Statws Athro Cymwysedig] ac wedi'i gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yng nghategori athro ysgol
 - casglu, coladu a chynnal ffynhonnell ddata ganolog ar gyfer athrawon sy'n ymgymryd â'r rhaglen ymsefydlu
 - r[h]annu'r wybodaeth hon gyda'r partïon cyfrifol wrth ddarparu'r rhaglen ymsefydlu drwy gyfleuster Cyngor y Gweithlu Addysg ar y we
 - [g]weithio gyda'r consortia i sicrhau bod yr ANG sy'n ymgymryd â chyfnod ymsefydlu yn cael gwiriwr allanol
 - [g]weinyddu cyllid ymsefydlu ar ran Llywodraeth Cymru
 - [c]yhoeddi tystysgrifau ymsefydlu ar sail canlyniadau ymsefydlu a ddarperir gan y corff priodol
 - gwrando ar apeliadau ymsefydlu⁵³.
- 7.3 Dywedodd CP eu bod wedi derbyn gwybodaeth gan CGA am ANG sy'n ymgymryd â'r broses sefydlu yn eu hardal (h.y. rhestr o'r rhai sydd wedi

⁵³ t.18.

dechrau cwblhau eu Proffil Sefydlu) yn ogystal â gwybodaeth i'r rhai sydd eto i ddechrau eu Proffil Sefydlu. Mae CP yn rhoi cryn bwys ar y wybodaeth hon gan ei bod yn cael ei defnyddio i gyfathrebu ag ANG a monitro eu cynnydd. Mae CP hefyd yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro presenoldeb ANG mewn sesiynau dysgu proffesiynol.

7.4 Fodd bynnag, roedd CP yn rhwystredig oherwydd y ffaith nad ydynt yn gallu cael gafael ar y rhestr o'r holl athrawon sydd newydd gofrestru gan CGA, a hynny oherwydd cyfyngiadau diogelu data, gan y byddai hyn yn cynnwys y rhai nad ydynt wedi dychwelyd eu Ffurflenni Sefydlu i CGA h.y. y garfan o ANG sydd ar hyn o bryd yn llithro drwy'r rhwyd. Nododd sawl Consortiwm Addysg ac ALI 'os nad ydynt yn dechrau'r proffil yna nid ydym yn gwybod eu bod yn bodoli' (Consortia Addysg). Mae'r rhain yn fwy tebygol o fod yn athrawon cyflenwi sy'n parhau i fod yn anhysbys i CP ac felly nid ydynt yn cael mynediad i'r ystod lawn o gymorth sefydlu sydd ar gael o'r cychwyn cyntaf.

7.5 Er gwaethaf hyn, roedd ALLau a'r Consortia Addysg o'r farn bod eu perthynas waith â CGA yn adeiladol a byddai'r adborth cyffredinol yn awgrymu bod CGA yn cyflawni ei rôl yn effeithiol o ran ymgysylltu ag ANG ac ysgolion. Disgrifiodd un ALI fod CGA yn darparu gwasanaeth 'o'r radd flaenaf' i ANG ac ysgolion.

Cyrff priodol

7.6 Mewn dau ranbarth, mae rôl CP wedi'i dirprwyo'n llawn gan yr ALLau i GCA a CCD ond yn y ddwy ardal sy'n weddill, mae ALLau wedi cadw'r swyddogaethau hyn ac mae'r Consortia Addysg ond yn ymwneud ag agweddau penodol ar y rhaglen sefydlu, megis cymedroli a dysgu proffesiynol. Un o'r agweddau allweddol ar rôl y CP yw sicrhau bod systemau sicrhau ansawdd priodol ar waith fel bod ANG yn cael mynediad i raglen dysgu proffesiynol, monitro a chymorth o ansawdd uchel. Mae adborth yn tynnu sylw at y rôl hon gan gynnwys gwirio bod ANG yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, monitro bod ANG yn gwneud cynnydd gyda'u Proffiliau Sefydlu a delio ag unrhyw faterion sy'n peri pryder os bydd GA yn codi materion o'r fath.

- 7.7 Canfu'r gwaith maes fod lefel y profiad a'r adnoddau y mae ALLau yn eu neilltuo i gyflawni eu swyddogaethau AB yn amrywio. Mewn un rhanbarth mae rhai ALLau yn ddibynnol iawn ar y Consortiwm Addysg am gyngor ac arweiniad tra bod ALLau eraill yn yr un Consortiwm Addysg yn dibynnu ar un cydweithiwr mwy profiadol i gael cyngor. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod rôl y CP yn cynrychioli rôl fach iawn i'r staff dan sylw a diffyg hyfforddiant ffurfiol ar gyfer y rôl.
- 7.8 O ganlyniad, mae ymgysylltiad ALLau â MS ac ANG yn amrywio: ychydig iawn o gysylltiad a gafodd un â MS ar ôl i'r hyfforddiant MS cychwynnol gael ei ddarparu ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd. Yn yr un modd, mae rhai ALLau yn neilltuo mwy o adnoddau i gyfathrebu ag ANG a'u cefnogi yn ystod eu cyfnod sefydlu, tra bod eraill yn tueddu i gael cysylltiad â nhw ar ddechrau a diwedd eu cyfnod sefydlu.

Mentoriaid Sefydlu

- 7.9 Roedd cynrychiolwyr ALLau a'r Consortia Addysg o'r farn bod rhai agweddau'n ymwneud â rôl y MS yn wendid yr oedd angen mynd i'r afael ag ef fel mater o flaenoriaeth yn y rhaglen sefydlu: 'nid ydym yn gwneud pethau'n iawn'. Nid oedd yn anghyffredin clywed am heriau o ran recriwtio a chadw MS a mynegodd CP rwystredigaeth nad oedd ganddynt unrhyw fecanweithiau i fynd i'r afael â'r rhain, yn enwedig o ran cymhellion ariannol. Y farn gyffredinol oedd nad oedd gan rôl MS y statws a'r bri yr oedd yn eu mynnu ar un adeg, ac o'r herwydd, mae athrawon ysgol yn amharod i ymgymryd â'r rôl. Er bod ysgolion yn derbyn taliad ariannol o £700 y tymor am weithgareddau sy'n gysylltiedig â sefydlu (i dalu costau sy'n gysylltiedig â rhyddhau ANG), nid yw MS fel arfer yn cael eu gwobrwyo'n ariannol am eu rôl. Roedd rhai yn cwestiynu a ddylai MS gael eu gwobrwyo am y rôl mewn gwirionedd, fel y byddai wedi bod yn wir o dan y trefniadau blaenorol.
- 7.10 Mae'r Consortia Addysg ac Awdurdodau Lleol yn darparu sesiynau briffio ar gyfer MS, fel arfer ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd, gyda'r nod o hyfforddi o leiaf un MS y flwyddyn ar gyfer pob ysgol. Fodd bynnag, mae'r defnydd o'r hyfforddiant hwn yn anghyson ar hyn o bryd - mewn un achos,

amcangyfrifodd cynrychiolydd y Consortiwm Addysg mai dim ond tua hanner yr ysgolion yn ei ranbarth a anfonodd MS i'r sesiwn briffio. Er gwaethaf y ffaith iddo gyflwyno ffi ad-daliad ariannol yn ddiweddar ar gyfer MS sy'n mynychu'r sesiynau briffio, nid oedd un Consortiwm Addysg wedi gweld unrhyw gynnydd mewn presenoldeb yn y digwyddiadau hyfforddi hyn.

7.11 Cynigiwyd nifer o awgrymiadau ar gyfer gwella'r canllawiau sy'n ymwneud â MS gan y credwyd ar hyn o bryd nad oedd y canllawiau'n ddigon penodol a manwl e.e. mae'n rhaid i'r MS 'sicrhau ei fod wedi cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol priodol er mwyn cyflawni rôl y mentor sefydlu yn effeithiol'⁵⁴. Roedd y rhain yn cynnwys:

- ei gwneud yn orfodol orfodol i ysgolion benodi MS. Awgrymodd CP y gallai'r rôl ddod yn rôl statudol er mwyn codi ei phroffil a'i statws
- nodi gofyniad i ddeiliad swydd MS fynychu digwyddiad briffio/hyfforddi blynyddol a ddarperir gan y CP. Roedd rhywfaint o awgrym nad oedd ysgolion yn cydnabod yr angen i MS fynychu hyfforddiant oni bai eu bod wedi recriwtio ANG ac yn yr achosion hyn, nid oedd ysgolion wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddarparu cymorth i ANG sy'n cyflenwi a allai gael eu lleoli gyda nhw yn ystod y flwyddyn. Awgrymodd eraill nad oedd MS profiadol bob amser yn cydnabod yr angen i fynychu digwyddiadau hyfforddi ac oherwydd hyn nid oedd ganddynt ddigon o wybodaeth am y newidiadau i'r rhaglen sefydlu. Awgrymodd un ALI y gallai'r canllawiau nodi'n benodol na ddylai ysgolion gyflogi na defnyddio ANG sy'n cyflenwi oni bai bod eu MS wedi mynychu'r sesiwn hyfforddi flynyddol
- nodi'r disgwyliadau o ran yr amser y byddai angen i MS ei neilltuo i gefnogi ANG, gan gynnwys amllder cyfarfodydd anffurfiol a ffurfiol.

⁵⁴ Llywodraeth Cymru (2017) [Ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru](#) t.15.

- 7.12 Yn ogystal, awgrymwyd y dylid datblygu pecyn briffio a hyfforddi cenedlaethol ar draws y sector i'w ddefnyddio fel sail i'r sesiwn hyfforddi MS, ac y dylid ei gynnal ar-lein er mwyn ehangu mynediad i ysgolion.

Adborth ar ddarpariaeth MS

- 7.13 O ran profiad ANG o'u MS, nododd nifer o ANG a gyflogir gan ysgolion brofiadau cadarnhaol:

'mae hi [yr MS] wedi bod yn gefnogol iawn pan mae ganddi amser.' (ANG)

'roedd fy mentor cyntaf yn anhygoel. Roedd yn gofalu amdanaf. Roedd yno i mi pryd bynnag yr oedd angen rhywbeth arnaf.' (ANG)

'mae ystafell fy mentor wrth ymyl yr ystafell CPA a gallaf alw heibio i'w gweld. Rydym wedi trefnu cyfarfodydd i ddal i fyny unwaith yr wythnos ar ôl ysgol. Fe wnaeth hi egluro sut i ddefnyddio Pebble Pad [y Pasbort Dysgu Proffesiynol] Mae hi wedi fy arsylwi yn dysgu a hyd yn oed wedi dod ag athrawes arall i mewn sy'n addysgu yn y cyfnod sylfaen gan nad oedd hi'n gwneud hynny. Mae hi wedi bod yn wych.' (ANG)

- 7.14 O ran ANG a nododd brofiadau cadarnhaol, nodwyd bod eu MS bob amser ar gael yn gyfleus ac yn hawdd siarad â nhw; a'u bod wedi elwa o gyfarfodydd ffurfiol un-i-un yn ogystal â dal i fyny'n anffurfiol. Nododd un ANG o'r fath ei fod wedi trefnu cyfarfodydd dal i fyny gyda'i MS bob pythefnos. Roedd rhai ANG yn cael cyfarfodydd grŵp â'u MS, lle roeddent wedi'u lleoli mewn ysgolion a oedd yn cyflogi mwy nag un ANG. Mewn un achos, adroddwyd bod gan yr MS gyfrifoldeb am Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) ac ANG ac roedd yn trefnu sesiynau grŵp rheolaidd i bawb rannu eu profiadau. Yn yr achos hwn mae'r MS yn trefnu cyfarfodydd unigol tuag at ddiwedd y cyfnod sefydlu, i fynd i'r afael â materion penodol a darparu cymorth unigol gyda'r nod o fodloni gofynion y PDP.

- 7.15 Nododd nifer fach o ANG lai o brofiadau cadarnhaol o ran eu hymwneud ag MS ac roeddent yn teimlo eu bod wedi cael eu 'gadael i fwrw ati':

'Mae gen i'r un mentor ag o'r blaen [pan oeddwn yn ymgymryd ag AGA].

Dim ond yn rhan-amser mae hi'n gweithio. Mae hi ym mlwyddyn 2 ac rydw i yn y cyfnod sylfaen ... felly rydyn ni'n cael egwyl ginio wahanol ac mewn

gwahanol rannau o'r ysgol. Mae'n anodd iawn trefnu i gwrdd â hi. Mae hi ond yn dod i'm gweld pan fydd hi'n gallu gwneud hynny... dydyn ni ddim yn trefnu unrhyw gyfarfodydd. (ANG)

'Roedd gen i fentor da iawn ond yna dyrannwyd dirprwy i mi. Mae 12 o'r cyfarfodydd wedi'u canslo. Dywedodd wrthyf 'Mae'n ddrwg iawn gen i, ond alla'i ddim eich gweld chi nawr, mae rhywbeth wedi codi'. Does gen i ddim yr un berthynas â hi... allwch chi ddim troi ati os oes gennych broblemau. Mae'n gwneud i chi deimlo fel methiant yn y dosbarth.' (ANG)

'Mae'n ymddangos nad yw fy MS yn gwybod llawer am y broses ac os byddaf yn gofyn gwestiwn iddi, mae'n aml yn dweud wrtha'i am fynd i ofyn i'r ANG arall yn yr ysgol.' (ANG)

- 7.16 Y prif broblemau y cyfeiriwyd atynt amlaf oedd y ffaith bod yr MS yn brysur ac nad oeddent bob amser ar gael yn hawdd nac yn hawdd siarad â nhw. Awgrymodd ANG fod gan MS rolau uwch eraill yn yr ysgolion (megis Dirprwy Benaethiaid neu Gydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynnydd ADY)) ac nad oedd ganddynt ddigon o amser i'w dreulio gydag ANG. Nid oedd pob un wedi elwa o amser cyswllt gwarchodedig gyda'u MS ac roeddent yn teimlo eu bod yn dibynnu ar 'fachu eich mentor am bum munud ar yr iard'. Dywedodd eraill eu bod yn derbyn cyngor anghyson gan eu MS a'r GA.

- 7.17 Er gwaethaf yr heriau sy'n gysylltiedig ag MS, roedd ALLau a'r Consortia Addysg yn ymwybodol bod nifer helaeth o MS yn gwneud gwaith rhagorol. Ystyriwyd mai cryfder y dull gweithredu oedd y cyngor a'r arweiniad dyddiol, anffurfiol yn aml, y gallai MS eu rhoi i ANG yn yr ysgol a'r gwendid mwyaf cyffredin oedd diffyg dealltwriaeth MS o'r PDP.

Gwiriwyr Allanol

- 7.18 Mae'r canllawiau sefydlu yn disgwyl i GA sicrhau ansawdd y trefniadau sefydlu mewn ysgolion ar ran AB a sicrhau bod y cyfnod sefydlu yn cael ei gynnal yn unol â'r rheoliadau. Byddai'r rôl hon yn cynnwys sicrhau ansawdd y rôl a gyflawnir gan yr MS. Disgwylir i GA hefyd ddarparu cymorth mentora ychwanegol i ANG yn ôl yr angen a chanfuwyd bod hyn yn bennaf ar gyfer ANG sy'n cyflenwi nad ydynt yn manteisio ar gymorth MS yn yr ysgol.

Recriwtio a hyfforddi GA

- 7.19 Mae'r pedwar Consortiwm Addysg yn cymryd cyfrifoldeb am recriwtio a hyfforddi GA er bod eu dulliau'n amrywio rhywfaint. Mae rhai Consortia Addysg yn penodi GA yn yr ysgol tra bod eraill yn recriwtio GA sydd wedi'u lleoli yn yr ysgol ac ymgynghorwyr (cyn benaethiaid neu uwch arweinwyr yn nodweddiadol) i gyflawni'r rôl. Roedd Consortia Addysg ac ALLau o'r farn bod GA yn yr ysgol yn gweithio'n dda gan eu bod yn gallu tynnu ar wybodaeth bresennol a phrofiadau, ond cydnabuwyd hefyd eu bod yn fwy heriol eu recriwtio.
- 7.20 Mewn un rhanbarth penodir GA annibynnol i weithio gydag ANG sy'n gwneud gwaith cyflenwi byrdymor ac fel rheol maent yn cefnogi rhyw 10 ANG ar unrhyw adeg benodol. Ystyriwyd bod y model hwn yn gweithio'n dda gan ei fod yn cynnig mwy o hyblygrwydd i ddiwallu anghenion ANG sy'n cyflenwi. Mae rhai ardaloedd yn gweithredu model clwstwr ysgol lle y bydd un GA yn gweithio gyda'r holl ANG yn y clwstwr ysgolion - credwyd bod hyn yn gweithio'n dda, ond dywedwyd bod rhai achosion o lwythi gwaith uchel ar gyfer GA yn anfantais. Mewn un rhanbarth, mae CGA yn ariannu un GA sydd hefyd yn gweithio i asiantaeth gyflenwi ac ystyriwyd bod y model hwn yn gweithio'n dda, yn enwedig o gofio bod yr asiantaeth gyflenwi yn darparu hyfforddiant i ANG drwy'r deiliad swydd hwn.
- 7.21 Mae Cosnortia Addysg sy'n defnyddio staff ysgol yn unig i gyflawni swyddogaethau GA yn ei chael hi'n anodd recriwtio unigolion, yn enwedig yn y sector uwchradd. Mae ysgolion yn aml yn ei chael hi'n anodd rhyddhau staff i gyflawni eu dyletswyddau GA ac mae staff y dyrennir swyddogaethau GA iddynt yn tueddu i fod yn rhai sy'n cael eu dyrchafu'n gyflym i rolau uwch mewn ysgolion. Nid yw recriwtio yn gymaint o broblem lle mae Consortiwm Addysg hefyd yn defnyddio GA annibynnol.
- 7.22 Mae'r llwyth gwaith a ddyrennir i bob GA yn amrywio a darganfu'r gwaith maes y gall nifer yr ANG y mae disgwyl i GA weithio â nhw fod yn uchel e.e. mae 83 GA mewn un rhanbarth yn gweithio gyda thua 500 o ANG, ac mae hyn yn uwch lle mae GA annibynnol yn cael eu dyrannu i gefnogi ANG sy'n cyflenwi (e.e. mewn un awdurdod lleol, roedd tri GA yn cefnogi 43 o

ANG sy'n cyflenwi adeg ein gwaith maes). Awgrymodd rhai cyfranwyr y gallai fod yn briodol i'r canllawiau sefydlu nodi uchafswm o ANG y gall GA ddisgwyl sicrhau eu hansawdd yn y dyfodol.

- 7.23 Mae'n gyffredin i'r Consortia Addysg gynnig hyfforddiant blynyddol i GA. Mewn un rhanbarth, roedd y sesiynau hyfforddi ar gyfer GA yn cyd-daro â chyfle i ANG gwrdd â'r GA a fyddai'n arwain eu clwstwr, gan olygu bod yn rhaid i ANG gwrdd â'u GA yn gynnar iawn yn y broses. Rhoddir llai o bwyslais gan CP ar fonitro gwaith GA wedi hynny ac awgrymwyd y gallai fod yn ddefnyddiol i'r canllawiau diwygiedig gynnwys cyngor ar hyn.

Paru GA ac ANG

- 7.24 Roedd y mwyafrif o'r cyfranwyr o'r farn bod y broses o baru GA ag ANG yn gymhleth, o ystyried bod CGA, CP, ysgolion ac ANG yn gysylltiedig â'r broses, a'r ffaith bod prosesau'n wahanol ar draws rhanbarthau. Y prosesau paru cyfredol yw:

- mae CGA yn darparu rhestr o ANG i GA neu ALLau sydd angen cymorth gan GA, yn wythnosol
- mae dau Consortia Addysg (CCD a GCA) yn cynnal yr ymarfer paru ac yn hysbysu CGA am y canlyniad
- mewn dau ranbarth, (GwE ac ERW) mae CGA yn dyrannu GA i ANG ar ran y CP. Yn rhanbarth GwE mae'r dyraniad yn cael ei wneud yn unol â meini prawf paru y cytunwyd arnynt ond yn ERW, mae ANG yn cael eu paru â GA sy'n gyfrifol am eu clwstwr o ysgolion. Mae'r trefniadau ar gyfer ANG sy'n athrawon cyflenwi byrdymor yn rhanbarth ERW yn wahanol yn yr ystyr bod Cydlynwyr Sefydlu ALLau fel arfer yn dyrannu GA i'r ANG hyn.

- 7.25 Cododd y Consortia Addysg ac ALLau fater pwysig yn ymwneud â'r ffaith bod GA yn cael yr un tâl am gefnogi athro cyflenwi byrdymor, sy'n golygu mwy o waith, ag y cânt am gefnogi ANG cyflogedig sydd hefyd yn cael ei gefnogi gan MS yn yr ysgol. Roeddent yn teimlo bod angen mynd i'r afael â hyn yn y canllawiau, yn enwedig o ystyried bod 'ANG sy'n athrawon

cyflenwi byrdymor yn fwy agored i niwed a bod angen mwy o gymorth arnynt, nid llai'.

Sesiynau cyfnos gyda GA

7.26 O ran ymarfer effeithiol, mae GA mewn rhai rhanbarthau neu ardaloedd ALI yn cynnal sesiynau cyfnos clwstwr ysgolion ar gyfer eu ANG ac roedd y rhain yn aml yn cael eu hystyried yn gyfleoedd rhwydweithio defnyddiol i ANG, yn enwedig ANG sy'n cyflenwi a'r rhai a oedd yn unig ANG yn eu hysgol. Ar draws ERW, mae GA yn trefnu cyfarfodydd clwstwr bob hanner tymor ar gyfer ANG a gyflogir gan ysgolion ac ANG sy'n cyflenwi. Mae strwythur a chylch gwaith y sesiynau'n amrywio, yn dibynnu ar arddull a mewnbwn y GA ond fel arfer maent yn cynnwys cyfle i'r rhwydwaith rannu profiadau.

7.27 Roedd barn y gallai'r rhwydweithiau clwstwr hyn gael eu cryfhau a'u defnyddio'n ehangach yn y dyfodol ac roedd ANG nad oeddent yn eu defnyddio ar hyn o bryd yn teimlo dan anfantais gan nad oeddent wedi clywed amdanynt ac yn ei chael hi'n anodd deall y sgwrs:

'Mae'n ddrwg gennyf ond dwi ddim yn gwybod beth sy'n cael ei ddweud ... dwi ddim yn gwybod am beth rydych chi'n sôn.' (ANG)

Adborth gan ANG

7.28 Adroddodd ANG brofiadau cadarnhaol a negyddol o weithio gyda'u GA. Dyrannwyd GA i lawer yn gynnar yn y broses ac roeddent wedi cwrdd â'r GA o fewn amserlen resymol, ac roedd y rhain yn cynnwys ANG a oedd wedi cwrdd â'u GA yn ystod sesiwn cyfnos. Dywedodd eraill eu bod ond newydd gyfarfod eu GA neu nad oeddent wedi'i gyfarfod eto adeg y gwaith maes ac roeddent yn meddwl bod hyn yn 'eithaf hwyr yn y dydd'.

7.29 Roedd cryn ddryswch ymhlith ANG ynghylch pryd y disgwyliwyd iddynt gwrdd â'u GA ac roedd llawer o hyn yn cael ei waethygu gan ddehongliadau gwahanol o nifer y sesiynau addysgu yr oedd angen iddynt fod wedi'u cwblhau er mwyn bod yn gymwys i gael dyraniad GA. Dywedodd un fod GA wedi cael ei ddyrannu iddo ar ôl 50 o sesiynau tra bod un arall wedi nodi 70 o sesiynau addysgu. Roedd y ddau o'r farn bod yr amserlenni hyn yn rhy hir o ystyried eu bod yn ANG sy'n cyflenwi ac nad oedd

ganddynt fynediad at unrhyw fath arall o gymorth yn y cyfamser.

Gofynnodd un 'Pam 70 o sesiynau?' Oni fyddai'n well dyrannu GA i ANG sy'n cyflenwi ar y cychwyn?'

- 7.30 Roedd y prif faterion eraill a godwyd gan ANG mewn perthynas â'u profiad o GA yn ymwneud â derbyn negeseuon a oedd yn gwrthddweud y rhai a dderbyniwyd gan eu MS ac ansicrwydd ynghylch sut a phryd y dylent gadw cysylltiad â'u GA. Er enghraifft, esboniodd un ANG 'Cefais fy annog i beidio ag anfon e-bost ati [GA] gan fy mentor ... nid oedd gan y mentor arall yn yr ysgol broblem gydag eraill [h.y. ANG eraill] yn e-bostio eu GA'. At hynny, roedd y materion a godwyd gan ANG unigol yn cynnwys anawsterau o ran cael eu paru â GA sy'n siarad Cymraeg yn eu hardal a GA yn ei chael hi'n anodd arsylwi gwersi ANG sy'n cyflenwi, gan y gallai eu man addysgu amrywio o un diwrnod i'r llall.

8. Profiadau ANG sy'n cyflenwi

- 8.1 Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar brofiadau athrawon newydd gymhwyso (ANG) sy'n gwneud gwaith cyflenwi a barn asiantaethau cyflenwi a gyfrannodd at yr adolygiad.

ANG sy'n cyflenwi

- 8.2 Cadarnhaodd cynrychiolwyr y Consortia Addysg a'r Awdurdod Lleol (ALI) fod nifer yr ANG sy'n cyflenwi wedi cynyddu yn eu hardal dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a nodwyd yn aml eubod yn ffurfio dros hanner eu carfan ANG ar hyn o bryd. O bryder penodol i'r Consortia Addysg ac ALLau roedd nifer yr ANG sy'n ymgymryd â gwaith cyflenwi byrdymor e.e. mewn un rhanbarth roedd ANG sy'n athrawon cyflenwi byrdymor yn cyfrif am dros un rhan o bump o'u carfan adeg y cyfweiliad, ac mewn rhanbarth arall cyfrifwyd eu bod yn cynrychioli dros hanner y garfan ar ryw bwynt yn ystod cyfnod sefydlu'r ANG. Mewn ALI arall, o'r 83 ANG a oedd yn hysbys i'r Corff Priodol (CP), roedd 43 yn athrawon cyflenwi byrdymor.
- 8.3 Dadleuwyd yn aml mai ANG sy'n athrawon cyflenwi byrdymor oedd y rhai yr oedd angen cymorth arnynt fwyaf, o ystyried eu diffyg cysylltiad rheolaidd ag un ysgol, diffyg mynediad at Fentor Sefydlu (MS) a'r tebygolrwydd cynyddol nad oeddent yn cael eu cynnwys yn 'y system' nes eu bod wedi hysbysu Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) o'u bwriad i ymgymryd â'r broses sefydlu.

Anawsterau o ran cyrraedd safonau proffesiynol

- 8.4 Awgrymodd llawer o'r cyfranwyr, gan gynnwys ANG, nad oedd gwaith cyflenwi byrdymor ar ei ben ei hun yn darparu tystiolaeth ddigonol i ANG i ddangos eu bod yn cyrraedd y safonau proffesiynol yn llawn. Nododd ANG â phrofiad o waith cyflenwi byrdymor nad oeddent yn cael cyfleoedd i gynllunio eu gwaith addysgu, i asesu gwaith disgyblion, i gyfathrebu â rhieni ac i ddangos profiadau arwain wrth ymgymryd â'r broses sefydlu drwy'r llwybr hwn yn unig. Dywedodd un unigolyn o'r fath ei fod wedi gwneud gwaith di-dâl er mwyn cael y profiadau hyn. Awgrymodd rhai ANG sy'n cyflenwi y gallai fod yn briodol nodi is-set o'r safonau proffesiynol y gellid disgwyl i ANG sy'n gwneud gwaith cyflenwi byrdymor eu cyrraedd:

'Yn llythrennol, roeddwn i'n troi i fyny, yn dysgu gwers rhywun arall ac yna'n gadael. Roeddwn yn gweithio'r diwrnodau ond nid oeddwn yn cael y profiadau angenrheidiol i gyd-fynd â'r gofynion hynny. Dim ond ers i mi fod mewn swydd amser llawn rwyf wedi gallu bwrw ati'n gyflym a cheisio gwneud popeth o fewn fy ngallu.' (ANG)

'Rwy'n teimlo na ddylai eich hyfforddiant ANG gychwyn tan i chi ddechrau yn eich swydd amser llawn gyntaf oherwydd tan hynny mae yna bethau allwch chi ddim eu gwneud er mwyn cwblhau eich cyfnod sefydlu - yn syml, allwn i ddim cyrraedd y safonau hyn.' (ANG)

'I bobl sy'n cyflenwi ... mae rhai o'r pethau ar y rhestr wirio yn anodd iawn. Os ydych chi mewn rhywle gwahanol bob dydd, allwch chi ddim cwblhau pob un ohonynt. Dydych chi ddim yn mynd i nosweithiau rhieni. Mae'n rhaid i chi wneud lleoliad tymor hwy'. (ANG)

- 8.5 Er mwyn goresgyn rhai o'r problemau hyn, awgrymodd y Consortia Addysg ac ALLau y gallai fod yn briodol pennu isafswm o ddiwrnodau parhaus mewn un lleoliad ysgol a fyddai'n gymwys at ddibenion sefydlu. Awgrymodd un y dylai profiadau sefydlu fod yn 'isafswm o dair wythnos mewn unrhyw ysgol benodol' yn hytrach na sesiynau hanner diwrnod unigol. Yn unol â hyn, credwyd y dylai'r canllawiau roi dyletswydd ar ysgolion i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros ANG sy'n cyflenwi, a fyddai'n ymgymryd ag isafswm cyfnod o addysgu yn eu lleoliad (drwy ddyrannu llai o amser addysgu a chymorth MS iddynt). Fodd bynnag, cydnabuwyd y byddai ysgolion yn ysgwyddo costau ychwanegol o ganlyniad i hyn ac y gallent fod yn llai tebygol o dderbyn ANG fel athrawon cyflenwi.

Anawsterau cael sesiynau addysgu

- 8.6 Nodwyd y diffyg gwaith addysgu i athrawon cyflenwi yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol fel rhwystr mawr i ANG sy'n cyflenwi o ran cyflawni'r isafswm o sesiynau addysgu ar gyfer eu cyfnod sefydlu. Credwyd bod nifer o ffactorau i'w cyfrif am hyn. Yn gyntaf, credwyd bod ysgolion yn gwneud mwy a mwy o ddefnydd o Gynorthwywyr Addysgu goruchwyliol neu Gynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALU) yn hytrach nag athrawon cyflenwi. Awgrymodd un Consortiwm Addysg 'nad yw llawer o ANG sy'n

cyflenwi yn cael llawer o waith eleni oherwydd hyn'. Yn ail, awgrymwyd bod camgyfatebiaeth rhwng y galw gan ysgolion a nifer yr athrawon cyflenwi sydd ar gael. Er enghraifft, nododd un Consortiwm Addysg fod 'mwy o athrawon cyflenwi na'r hyn sydd ei angen' ar ysgolion. Adleisiwyd hyn gan ddau ANG sy'n cyflenwi a oedd wedi dechrau eu cyfnod sefydlu ym mis Medi 2019, gan ychwanegu eu bod ond wedi llwyddo i sicrhau rhyw bedwar i bum diwrnod addysgu fel athrawon cyflenwi dros gyfnod o ddau fis rhwng Medi a Hydref:

'Dim ond 10 sesiwn dw i wedi eu gwneud ers dechrau'r flwyddyn. Roedd mis Medi yn dawel iawn. Mae'n broses araf iawn. Rwy'n cael cynnig gwaith cyflenwi sy'n waith goruchwyllo ond rwy'n ei wrthod. Wela i ddim pam y dylwn i ei wneud.' (ANG)

Profiad anghyfartal

- 8.7 Roedd ANG cyflenwi tymor byr yn adrodd yn rheolaidd am brofiadau a oedd yn achosi llawer o straen a phryder iddynt yn sgil ymgymryd â'u cyfnod sefydlu drwy'r llwybr hwn gan ddadlau'n gryf dros fwy o gydraddoldeb ag ANG cyflogedig:

'Rwy'n teimlo fy mod i wedi mynd i'r maes cyflenwi yn hollol ddall.' (ANG)

'Pan rydych chi'n gwneud gwaith cyflenwi mae'n rhaid i chi gynnal eich hun gymaint mwy... ond rydych chi yn y tywyllwch o'i gymharu â'r rhai mewn swyddi.' (ANG)

- 8.8 Yn wir, dewisodd rhai ANG sy'n gwneud gwaith cyflenwi byrdymor ohirio eu cyfnod sefydlu nes iddynt sicrhau contract cyflenwi tymor hwy, fel cyfnod mamolaeth. Dewisodd un ANG uwchradd o'r fath a oedd wedi sicrhau swydd gyflenwi dros gyfnod mamolaeth rhwng mis Medi a'r Pasg gymryd amser i ffwrdd o addysgu:

'Oherwydd y straeon ofnadwy yr oeddwn i wedi'u clywed am wneud hyfforddiant ANG fel athro cyflenwi. Wnelo un tymor, roeddwn i'n meddwl y byddwn i'n ei adael tan fis Medi, pan fyddwn i'n dechrau mewn ysgol.' (ANG)

- 8.9 Cyfaddefodd dau ANG cyflenwi mewn un grŵp eu bod wedi dod yn 'destun pryder' yn ystod eu cyfnod sefydlu ac er bod hyn wedi digalonni'r ddau ar y pryd, o edrych yn ôl roeddent yn croesawu hynny gan ei fod wedi eu galluogi i gael mwy o gymorth. Meddai un ohonynt:
- 'Ni ddylech suddo i'r dyfnderoedd er mwyn cael y cymorth gwyh hwnnw.'
- (ANG)
- 8.10 Yn hyn o beth, roedd sawl Consortiwm Addysg ac ALI o'r farn bod y model cyflenwi clwstwr yn fodel priodol a oedd yn darparu mwy o gymorth i'r ANG ac yn un y dylid mynd ar ei drywydd ymhellach er mwyn mynd i'r afael â phrofiad anghyfartal y garfan hon. Edrychwyd yn gadarnhaol ar y model lle y cafodd ei ddefnyddio'n effeithiol ac ystyriwyd bod ganddo'r potensial i gynnig mwy o gysondeb i ANG sy'n gwneud gwaith cyflenwi byrdymor.
- 8.11 O ran cymorth gan asiantaethau cyflenwi, enwodd ANG a oedd â phrofiad o wneud gwaith cyflenwi ddwy asiantaeth gyflenwi a oedd wedi eu cynorthwyo gyda'u cyfnod sefydlu, ond ni wnaeth y mwyafrif hynny. Roedd un yn cofio mynychu sesiynau mewn un asiantaeth gyflenwi, wedi'i hwyluso gan ddau bennaeth, ond dim ond yn ystod yr amser pan oedd hi'n gweithio'n gyfan gwbl i'r cwmni hwnnw.

Asiantaethau cyflenwi

- 8.12 Mae data a ddarparwyd i'r tîm ymchwil gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod 60 o asiantaethau cyflenwi yn gweithredu ledled Cymru. O'r rhain, mae 27 wedi'u cymeradwyo ar fframwaith athrawon cyflenwi'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC) ar gyfer Cymru.
- 8.13 Defnyddir asiantaethau cyflenwi ar draws pob rhan o Gymru, ac eithrio yng Ngwynedd ac Ynys Môn, lle mae'r Awdurdodau Lleol (ALI) naill ai'n gwneud y gwaith hwn yn uniongyrchol (ar gyfer y sector cynradd) neu mae ysgolion (o'r sector uwchradd) yn defnyddio eu cysylltiadau personol eu hunain. Ar gyfer y sector cynradd, mae gan yr ALI restr o athrawon cyflenwi cymeradwy tra bod ysgolion uwchradd yn gweithredu eu trefniadau unigol eu hunain. Yn yr olaf, mae ysgolion yn dibynnu ar athrawon cyflenwi i ddatgan a ydynt yn ANG neu wedi cwblhau eu cyfnod sefydlu statudol i athrawon.

Fframwaith athrawon cyflenwi y GCC ar gyfer Cymru

- 8.14 Croesawodd y cyfranwyr y ffaith bod y fframwaith newydd wedi'i gyflwyno gan yr ystyriwyd ei fod wedi gosod safonau ac arferion sylfaenol y mae'n ofynnol i asiantaethau cyflenwi ar y fframwaith eu bodloni. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys gallu dangos eu bod yn cael eu harchwilio'n flynyddol gan un o dri chorff achredu a'u bod yn cadw at God Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi ac Egwyddorion Gwaith Teg Llywodraeth Cymru.
- 8.15 Mae cyflwyno'r fframwaith hefyd wedi arwain at bennu cyfradd ddyddiol sylfaenol ar gyfer athrawon cyflenwi a mwy o dryloywder i ysgolion wneud penderfyniadau gwybodus mewn perthynas â ffioedd gwasanaeth a godir gan asiantaethau cyflenwi. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn monitro gwariant ar athrawon cyflenwi a staff goruchwyllo eraill sy'n cyflenwi ar gyfer yr asiantaethau sydd ar y fframwaith. Mae'n ofynnol i asiantaethau cyflenwi ar y fframwaith gyflwyno'r wybodaeth hon i Lywodraeth Cymru bob chwarter.
- 8.16 Fel rhan o'r broses dendro, roedd yn ofynnol hefyd i asiantaethau cyflenwi ddangos y byddent yn darparu cymorth i ANG, gan gynnwys cyfleoedd dysgu proffesiynol. Awgrymwyd bod y dulliau a fabwysiadwyd yn flaenorol gan asiantaethau cyflenwi yn amrywio'n helaeth: roedd rhai yn darparu hyfforddiant helaeth tra bod eraill yn darparu ychydig iawn, os o gwbl. Bwriad y fframwaith oedd sicrhau mwy o gysondeb a thegwch o ran y cymorth a ddarperir. Mae'n ofynnol i asiantaethau cyflenwi adrodd i Lywodraeth Cymru ar natur a nifer y staff cyflenwi sydd wedi'u hyfforddi, ond nid o reidrwydd ar nifer yr ANG sy'n manteisio ar ddarpariaeth o'r fath.
- 8.17 Er eu bod yn croesawu'r fframwaith newydd hwn fel ymgais gychwynnol i wella cysondeb a safonau, roedd rhai cyfranwyr o'r farn y gallai gael ei ddatblygu ymhellach yn y dyfodol. Er enghraifft, awgrymodd un cyfrannwr fod angen fframwaith wedi'i reoleiddio'n fwy ar gyfer asiantaethau sydd wedi bod yn destun proses sicrwydd ansawdd.

Adborth gan asiantaethau cyflenwi

- 8.18 Mae adborth gan gyfanswm o naw asiantaeth gyflenwi a oedd oll ar fframwaith athrawon cyflenwi y GCC (darparodd chwech gyflwyniad

ysgrifenedig, cyfwelwyd tri a chyflwynodd un adborth ysgrifenedig yn ogystal â chael ei gyfweld) yn awgrymu bod nifer yr ANG a ddefnyddir ar hyn o bryd gan bob asiantaeth gyflenwi yn amrywio o gyn lleied â dau, i ryw '10 neu 12 ' i oddeutu 100.

- 8.19 Adroddodd asiantaethau cyflenwi fod cymhelliant ANG i ymgymryd â gwaith fel athrawon cyflenwi yn amrywio ac yn cynnwys ffactorau 'negyddol', megis methu â sicrhau cyflogaeth â thâl mewn ysgolion, yn ogystal â ffactorau cadarnhaol megis bod gwaith cyflenwi wedi cael ei ddewis fel ffordd o fyw sy'n cyd-fynd ag ymrwymïadau a diddordebau eraill.
- 8.20 Cadarnhaodd asiantaethau cyflenwi eu bod yn gwirio statws SAC eu cronfa o athrawon cyflenwi drwy ofyn am gopi o'u tystysgrif yn flynyddol ac os oes angen, gwirio cronfa ddata CGA o athrawon ysgol cofrestredig. Yn yr un modd, maent yn hysbysu ANG o'r angen i weld eu tystysgrif sefydlu ar ôl iddynt gwblhau'r cyfnod yn llwyddiannus. Nododd un asiantaeth gyflenwi 'yn aml nid oes rhaid i ni fynd ar eu holau... maen nhw fel arfer yn fwy na pharod i'w rhannu'. Nododd eraill:
- 'Pan fyddan nhw'n cofrestru gyntaf, mae'n ofynnol bod pob cymhwyster a thystysgrif wedi'u cwblhau gan gynnwys y dystysgrif sefydlu. Rydym hefyd yn gwirio ar-lein gan fod gennym fynediad i gronfa ddata CGA, ac os gwelir 'yn yr arfaeth' rydym yn gwybod nad ydynt wedi cwblhau eu cyfnod sefydlu eto'. (Asiantaeth gyflenwi)
- 8.21 Dywedodd nifer o asiantaethau eu bod yn cymryd y camau canlynol ac ni chanfu'r gwaith maes unrhyw gamddehongliadau mawr o'r canllawiau gan asiantaethau cyflenwi:
- mabwysiadu'r canllawiau sefydlu
 - rhoi prosesau clir ar waith i friffio ANG o'r angen i fod wedi'u cofrestru fel athro ysgol gydag CGA
 - darparu trosolwg o'r broses sefydlu i ANG
 - hysbysu'r ANG o'r angen i lenwi'r 'Ffurflen Hysbysu Sefydlu fel Athro Cyflenwi Byrdymor' a ddarperir gan CGA

- cyngori ysgolion am statws sefydlu ANG sy'n cael eu lleoli gyda nhw
- monitro bod ANG yn cofnodi eu sesiynau addysgu a gwirio statws manylion sefydlu ar gofnod CGA ANG, fel arfer bob tymor.

8.22 Mae gan bob un o'r naw asiantaeth gyflenwi heblaw un bolisiâu wedi'u dogfennu sy'n nodi eu trefniadau ar gyfer rheoli a chefnogi athrawon cyflenwi sy'n ymgymryd â'r broses sefydlu. Rhennir y rhain gydag ANG. Dim ond un asiantaeth gyflenwi nad oedd ganddi bolisi ar hyn o bryd ar gyfer cefnogi ANG, ac ychwanegodd fod hwn yn cael ei ddatblygu. Mae adolygiad o'r dogfennau a rennir ag ANG yn dangos bod lefel y manylion a ddarperir ynddynt yn wahanol (e.e. mae un yn adlewyrchu testun y canllawiau sefydlu ac mae un arall yn ganllaw cryno dwy dudalen er enghraifft).

8.23 Dywedodd yr asiantaethau cyflenwi eu bod yn cynnal sesiynau briffio cychwynnol, yn enwedig yn ystod cyfnodau'r haf, ar gyfer y rhai sydd ar fin dechrau gwneud gwaith cyflenwi, ac mae hyn yn cynnwys trosolwg o'r Proffil Sefydlu y mae angen iddynt ei gwblhau. Dadleuodd un asiantaeth gyflenwi ei bod yn bwysig darparu'r wybodaeth hon oherwydd efallai na fydd ANG yn mynychu eu sesiwn friffio ranbarthol tan y chweched neu'r wythfed wythnos o'u tymor cyntaf.

Ffigur 8.1: Enghraifft o asiantaeth gyflenwi

Dywedodd un asiantaeth gyflenwi fod ganddi berthynas ragorol â phrifysgolion Cymru i recriwtio ANG. Mae'r asiantaeth yn darparu seminar undydd i'r rhai sy'n cael eu recriwtio dros gyfnod yr haf i'w briffio, ymhlith agweddau eraill, ar y rhaglen sefydlu a'r hyn y bydd ei angen arnynt i fodloni gofynion y canllawiau sefydlu. Gwahoddir siaradwyr allanol fel CGA ac MS/penaethiaid ysgolion i gyflwyno yn y digwyddiad. Cynhelir sesiynau briffio llenwi bylchau yn ystod hanner tymor yr hydref ar gyfer y rhai sydd wedi cofrestru gyda'r asiantaeth gyflenwi ers cyfnod yr haf. Yn ogystal, darperir pecyn croeso i ANG sy'n cynnwys gwybodaeth am gofrestru CGA a'r broses sefydlu.

- 8.24 Mae'n ofynnol i asiantaethau cyflenwi hysbysu ysgolion am unrhyw staff cyflenwi sy'n ANG. Cadarnhaodd asiantaethau cyflenwi a gyfwelwyd fod hyn yn digwydd ar gyfer archebion a wneir ymlaen llaw: 'mae'r cadarnhad archebu a anfonir i ysgolion yn cynnwys statws ANG' er efallai na fydd bob amser yn digwydd ar gyfer archebion munud olaf a wneir ar lafar.
- 8.25 Yn gyffredinol, roedd yr asiantaethau cyflenwi a gyfrannodd at yr adolygiad yn wybodus am ddatblygiadau polisi a'r gofynion canllaw ar gyfer ANG. Mae'r mwyafrif yn cyflogi/yn cael eu rhedeg gan unigolion sydd â phrofiad uniongyrchol, gan gynnwys penaethiaid/dirprwy benaethiaid, a GA ac MS. Roedd y mwyafrif wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a CGA ond roedd y lefelau ymgysylltu â CP yn is. Dadleuodd un nad oeddent wedi cael eu hannog mewn unrhyw ffordd i anfon eu ANG sy'n cyflenwi ar unrhyw gyrsiau hyfforddi a ddarperir yn y rhanbarth.
- 8.26 Nododd yr asiantaethau cyflenwi hefyd eu bod wedi cynnal cyfarfodydd adolygu gydag ANG, ond mae'r rhain yn amrywio o ran natur ac amllder. Ar un pen i'r sbectrwm disgrifiwyd y rhain fel 'galwadau misol wedi'u hamserlennu gydag ANG i drafod eu statws, nifer y sesiynau a gofnodwyd a nifer y sesiynau yr oedd eu hangen er mwyn cwblhau'r cyfnod sefydlu yn llwyddiannus' ond mewn achosion eraill rhoddwyd cymorth i ANG i gwblhau eu Proffil Sefydlu.
- 8.27 Roedd y prif broblemau a godwyd gan asiantaethau cyflenwi mewn perthynas â'r rhaglen sefydlu ar gyfer ANG yn ymwneud â'r canlynol:
- 'achosion pryder' ddim yn cael eu nodi'n ddigon buan ar gyfer ANG sy'n cyflenwi, yn aml nid cyn i'r ANG gwblhau rhai agweddau penodol ar eu proffil. Byddai'n ddefnyddiol pe bai problemau'n cael eu nodi'n gynt
 - nid yw ANG nad yw eu GA yn cysylltu â nhw o fewn amserlen dderbyniol yn gwybod ble i droi am gymorth
 - nid yw ANG cyflenwi yn cael eu talu i fynychu sesiynau dysgu proffesiynol. Byddai'r taliad yn darparu cynnig mwy teg o'i gymharu ag ANG a gyflogir gan ysgolion

- nid yw asiantaethau'n gallu cael gafael ar y wybodaeth yn y Proffil Sefydlu a baratowyd gan ANG na chael unrhyw adborth gan y GA neu'r CP am y cynnydd a wneir gan ANG, felly ni allant gefnogi'r unigolyn ar lefel un i un. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae rhai asiantaethau cyflenwi yn cynnal cyfarfodydd unigol a chyfarfodydd grŵp gyda'u ANG i sicrhau bod yr holl sesiynau addysgu yn cael eu cofnodi a bod tystiolaeth ddigonol yn cael ei chasglu ar gyfer y Proffiliau Sefydlu.
- peidio â chael eu hannog, drwy'r canllawiau, i ddyrannu contractau cyflenwi tymor hwy i ANG, er mwyn cynorthwyo â'r broses sefydlu
- diffyg mynediad at 'PDP ffug' i'w ddefnyddio at ddibenion hyfforddi gyda'u ANG sy'n athrawon cyflenwi
- peidio â chael eu hysbysu am ysgolion y mae Estyn yn eu rhoi dan fesurau arbennig er mwyn osgoi gosod ANG mewn lleoliadau o'r fath.

8.28 Cododd un asiantaeth gyflenwi hefyd broblemau'n ymwneud â'r diffiniad o 'gyflogaeth reolaidd':

Ffigur 8.2: Diffiniad o gyflogaeth reolaidd

Rhannodd un asiantaeth gyflenwi bryder ynghylch y diffyg diffiniad yn y canllawiau presennol o 'gyflogaeth reolaidd' a 'threfniant rheolaidd neu dymor hwy' a roddir ar waith ar gyfer ANG sy'n cyflenwi. Er enghraifft, mae un o ANG yr asiantaeth yn gweithio'n rheolaidd mewn ysgol un diwrnod yr wythnos. Yn yr achos hwn, mae'r ANG wedi cwblhau'r 'Ffurflen Hysbysu Sefydlu fel athro cyflenwi byrdymor' ar gyfer CGA ac mae'r ysgol wedi cwblhau'r 'Ffurflen Hysbysu Sefydlu'. Galwodd yr asiantaeth gyflenwi am eglurhad o 'gyflogaeth reolaidd', p'un yw hynny'n gyflogaeth barhaol, dros dro neu'n waith cyflenwi. Byddai hyn yn helpu i egluro pryd y mae ANG yn gymwys i gael cymorth ANG yn yr ysgol a phryd y dylai roi'r gorau i gofnodi pob sesiwn fel sesiynau cyflenwi.

Cymorth i ANG

- 8.29 Dywedodd y rhan fwyaf o'r asiantaethau cyflenwi a gyfrannodd at yr ymchwil eu bod yn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer eu ANG, er bod natur y rheini'n amrywio:

Ffigur 8.3: Enghreifftiau o bolisïau asiantaethau cyflenwi

Mae gan un asiantaeth gyflenwi Gynllun Cymorth ANG wedi'i ddogfennu ar waith. Mae'r asiantaeth gyflenwi yn darparu 12 awr o gymorth yn ystod blwyddyn academiaidd i bob ANG a thelir iddynt fod yn rbesennol yn y pedair sesiwn gyntaf. Mae'r sesiynau i gyd yn ddigwyddiadau hanner diwrnod, ac yn cynnwys:

- mannau cychwyn ar gyfer Sefydlu
- ymarfer myfyriol ac agweddau ar y safonau proffesiynol newydd: cydweithredu, arloesi, dysgu proffesiynol
- y grefft o addysgu ac agweddau ar gydweithredu, arloesi, dysgu proffesiynol
- agweddau ar gydweithredu, arloesi, dysgu proffesiynol, arweinyddiaeth
- sesiwn galw heibio wirfoddol.

Yn yr achos hwn, roedd yr asiantaeth yn poeni am ANG a oedd hefyd wedi'u cofrestru ag asiantaethau cyflenwi eraill, o ystyried y byddent yn debygol o elwa'n fasnachol o'r math hwn o fuddsoddiad.

Mae asiantaeth gyflenwi arall yn darparu ystod eang o sesiynau hyfforddi i athrawon cyflenwi, gan gynnwys ANG, yn ystod gwyliau ysgol sy'n ymdrin â phynciau megis cymorth cyntaf, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE), diogelu ar-lein, codi a chario, cyflwyniad i laith Arwyddion Prydain (BSL), ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, asesiad ar gyfer dysgu, cymhwysedd digidol, Cymraeg achlysurol a'r cwricwlwm ysgol presennol.

Mae trydedd asiantaeth gyflenwi yn darparu hyfforddiant am ddim yn ogystal â chyfleoedd dysgu proffesiynol eraill i ANG. Ni chaiff ANG eu talu i fynychu'r rhain. Darperir y rhain fel sesiynau cyfnos bob hanner tymor ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau ysgol. Maent yn ymdrin â phynciau megis llythrennedd, rhifedd, Cymraeg, cymorth cyntaf a chodi a chario. Mae mynychwyr yn derbyn tystysgrifau presenoldeb. Maent hefyd yn cynnig arsylwi gwersi ANG sy'n cyflenwi i'w helpu i adolygu eu perfformiad yn erbyn y safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth - datblygwyd y dull hwn gan gynghorydd asiantaeth gyflenwi sydd â phrofiad blaenorol o weithio fel MS ac GA.

Mae dwy asiantaeth gyflenwi arall yn darparu mynediad at gyrsiau ar-lein am ddim i ANG, a ddarperir drwy bartner hyfforddi. Mae pob cwrs fel arfer yn sesiwn awr o hyd.

Adborth gan ANG ar asiantaethau cyflenwi

- 8.30 Er gwaethaf y cyfraddau uchel o gymorth a chyfleoedd dysgu proffesiynol a nodwyd gan asiantaethau cyflenwi a gyfrannodd at y gwaith maes, roedd adborth gan ANG a oedd wedi ymgymryd â gwaith cyflenwi yn awgrymu mai ychydig iawn a oedd wedi manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol o'r fath. Roedd un ANG o'r fath wedi mynychu tair sesiwn gymorth i adolygu cwblhau ei Broffil Sefydlu ar y PDP ac wedi cael ei dalu i fod yn bresennol, ond roedd hwn yn brofiad eithaf unigryw o'i gymharu ag eraill:

'Dechreuais weithio fel athro cyflenwi fis Medi diwethaf [2018]. Ni chefais unrhyw gymorth gan fy asiantaeth gyntaf o ran hyfforddiant ANG. Ymunais ag ail asiantaeth ac unwaith eto ni chynigiodd unrhyw gymorth i mi yn fy mlwyddyn ANG. Dim ond pan gefais swydd hirdymor yn ymwneud â mamolaeth y gwnaeth yr ysgol gamu i'r adwy a rhoi pethau ar waith i mi.'
(ANG)

'Dywedodd yr ail asiantaeth 'o, ANG ydych chi ynde?'. 'Ie', atebais, a dyna ddiwedd y sgwrs!' (ANG)

- 8.31 Mewn achos arall, roedd un ANG wedi dilyn cyrsiau ar-lein am ddim a oedd ar gael gan ei asiantaeth gyflenwi ar bynciau fel llythrennedd a rhifedd ond

nid oedd eto wedi cymryd rhan yn y cyrsiau penwythnos a gynigiwyd gan yr asiantaeth gyflenwi hon, oherwydd cost eu mynychu (dywedwyd bod hyn yn £140).

8.32 Canfu'r gwaith maes hefyd fod yr hyn a ddywedodd yr asiantaethau cyflenwi wrthym am eu harferion gweithredol yn gwbl groes i brofiadau gwirioneddol ANG sy'n cyflenwi wrth ddelio ag asiantaethau cyflenwi. Cyfeiriodd ANG yn rheolaidd at brofiadau negyddol o ymdrin ag asiantaethau cyflenwi e.e. 'Rwy'n credu mai hwn yw un o'r cwmnïau mwyaf anfoesegol sy'n bodoli'.

8.33 Nododd ANG a chanddynt brofiad o waith cyflenwi nad oedd ysgolion yn aml yn ymwybodol eu bod yn ANG. Ategwyd hyn gan ALLau a'r Consortia Addysg a ychwanegodd fod ANG yn ofni dweud hyn wrthynt yn aml oherwydd canfyddiad bod yn well gan ysgolion athrawon cyflenwi mwy profiadol. Er enghraifft, roedd un ANG sy'n cyflenwi wedi cael ei roi mewn ysgol am ryw chwe mis heb i'r ysgol gael gwybod ei bod yn ANG. Ymhlith y sylwadau a gynigiwyd gan ANG roedd y canlynol:

'Yn aml iawn, byddwn i'n cyrraedd yr ysgol ac ni fyddai'r ysgol yn gwybod fy mod i'n ANG.' (ANG)

'Dydyn nhw ddim yn gwybod fy mod i'n ANG... tan y bydda i'n gofyn iddyn nhw lofnodi fy ffurflen.' (ANG)

'Bedwar mis ar ôl dechrau, doedd yr ysgol ddim yn gwybod fy mod i'n ANG.' (ANG)

Cyfathrebu ag asiantaethau cyflenwi

8.34 Mae gwybodaeth am y broses sefydlu yn cael ei lledaenu i asiantaethau cyflenwi drwy ddigwyddiadau briffio, bob blwyddyn o leiaf gan Lywodraeth Cymru, CGA a'r Consortia Addysg. Mae adborth yn awgrymu bod presenoldeb gwell yn y sesiynau hyn yn ddiweddar ac roedd yr asiantaethau yn eu hystyried yn ddull pwysig o gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau polisi a datblygiadau rheoliadol.

8.35 Fe'n hysbyswyd gan ALLau a'r Consortia Addysg eu bod yn cyfathrebu cyfleoedd a dyddiadau dysgu proffesiynol i asiantaethau cyflenwi er mwyn

iddynt drosglwyddo'r wybodaeth i'r ANG. Roedd adborth gan yr asiantaethau cyflenwi yn awgrymu bod y wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i ANG mewn tair o'r pedair asiantaeth a gafodd eu cyfweld ond mai dim ond cyfran fach iawn sy'n dewis mynychu. Fodd bynnag, roedd adborth gan ANG a oedd wedi ymgymryd â gwaith cyflenwi yn awgrymu mai ychydig iawn o wybodaeth a gânt gan asiantaethau cyflenwi am y cyfleoedd dysgu proffesiynol sydd ar gael drwy ALLau neu'r Consortia Addysg ac maent yn aml yn dibynnu ar ddulliau anffurfiol eraill o glywed am y rhain. Dywedodd un ANG sy'n athro cyflenwi nad oedd yn ymwybodol o'r sesiynau dysgu proffesiynol sydd ar gael yn ei ardal a nododd un arall 'pe bawn i'n gofyn [i'r asiantaeth gyflenwi], bydden nhw'n swta iawn gyda mi'. Yn yr un modd, roedd ALLau a'r Consortia Addysg yn cwestiynu i ba raddau yr oedd asiantaethau cyflenwi yn 'trosglwyddo'r wybodaeth honno i ANG'.

- 8.36 Byddai asiantaethau cyflenwi yn croesawu trefniant mwy ffurfiol i gydweithredu â'r unigolion a'r sefydliadau sy'n ymwneud â'r broses sefydlu athrawon a galwodd un am sicrhau bod asiantaethau'n cael eu 'cynrychioli'n well' ar rwydweithiau sector yn hyn o beth.
- 8.37 Galwodd asiantaethau cyflenwi hefyd ar Lywodraeth Cymru i ystyried a ellid ariannu asiantaethau i hyfforddi a chefnogi ANG a galwodd ar unrhyw ganllawiau yn y dyfodol ar sefydlu athrawon i ddarparu llawer mwy o eglurder ynghylch rôl asiantaethau o'r fath, gydag un yn ychwanegu:

'rydym am helpu a chefnogi ein ANG ond mae angen eglurder arnom ynghylch pwy sy'n gwneud beth a beth ddylai ein rôl ni fod'. (Asiantaeth gyflenwi)
- 8.38 Roedd un enghraifft benodol yn ymwneud â rôl asiantaethau ac ysgolion wrth gefnogi ANG sy'n cyflenwi. Dadleuodd un asiantaeth gyflenwi fod y system bresennol 'wedi methu'n gyson â nodi ar ba bwynt y mae'r ysgol yn gyfrifol am ANG'. Awgrymwyd yn yr achos hwn y byddai rhai ysgolion ond yn defnyddio ANG am gyfnod o hyd at ddeg wythnos gan fod dealltwriaeth y byddai ysgolion yn cymryd cyfrifoldeb am gefnogi'r ANG ar y pwynt hwnnw.

Canllawiau ar gyfer y dyfodol yn ymwneud ag asiantaethau cyflenwi

- 8.39 Roedd cyfranwyr o'r farn bod achos cryf dros gryfhau'r canllawiau sefydlu o ran yr hyn sy'n ofynnol gan asiantaethau cyflenwi a nodi gofynion penodol ohonynt. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys rhannu gwybodaeth am sesiynau dysgu proffesiynol sydd ar gael i ANG yn eu hardal a'u gwneud yn fwy atebol am hyfforddiant a phroses sefydlu'r ANG y mae'n eu cyflogi. Teimlwyd hefyd y gellid cryfhau'r canllawiau mewn perthynas â'r cyfathrebu rhwng CP ac asiantaethau cyflenwi, yn enwedig mewn perthynas â rhoi ANG mewn ysgolion ar gontractau tymor hwy. Er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau cyflenwi hysbysu'r CP perthnasol o achosion lle mae ANG yn cael eu rhoi mewn ysgolion am gyfnod o dair wythnos neu fwy.

9. Barn ynghylch yr adnoddau sydd ar gael i ANG

- 9.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith maes mewn perthynas â'r adnoddau y mae athrawon newydd gymhwyso (ANG) yn eu defnyddio, gan gynnwys y Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP).

Y Pasbort Dysgu Proffesiynol

- 9.2 Yn gyffredinol, roedd pob math o gyfrannwr o'r farn bod cyflwyno'r adnodd PDP ar y we i gofnodi tystiolaeth a phrofiadau o'r broses sefydlu wedi bod yn gam cadarnhaol dros ben. Roedd y cyfranwyr o'r farn bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i'r PDP yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er bod sawl gwelliant wedi'i gynnig er mwyn gwella ei ddefnyddioldeb.
- 9.3 Er bod ANG efallai'n fwy beirniadol o'r PDP na chyfranwyr eraill, fe wnaethant amlygu manteision yr adnodd o ran:
- gallu gweld yn glir pa safonau na chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth ar eu cyfer
 - gallu cael mynediad iddo ar-lein a thrwy ap ffôn
 - gallu uwchlwytho deunydd ffotograffig a fideos fel dystiolaeth i ategu'r safonau: nododd un ANG ei fod wedi defnyddio Iris i recordio gwers a'i lanlwytho i'r PDP ac wedi gweld hyn yn ffordd ddefnyddiol o fyfyrrio ar ei ymarfer ei hun 'wrth edrych yn ôl arno sylweddolais fy mod yn dweud 'bois' yn llawer rhy aml'.

Ffigur 9.1: Enghraifft o ddefnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol

Nododd un cyfranogwr mewn grŵp ffocws brofiad cadarnhaol iawn o ddefnyddio'r PDP: 'mae fy mhrofiad wedi bod yn wahanol iawn [i weddill y grŵp] ac mae wedi bod yn ddefnyddiol. Doeddwn i ddim yn gwybod sut i fynd i'r afael â mater a gododd yn y dosbarth. Newidiais y ffordd roeddwn i'n edrych ar bethau. Roedd fy nosbarth yn cael trafferth gyda newid [arian] ... fe'i defnyddiais fel offeryn i gynllunio. Dwi ar goll braidd hebdo nawr. Efallai y byddaf yn ei ddefnyddio eto'.

9.4 Roedd y prif broblemau ymarferol a godwyd gan ANG ynglŷn â'r PDP yn cynnwys:

- yr angen am dudalen ragarweiniol
- yr anawsterau o fethu â 'mewngofnodi ac aros i mewn'
- yr angen am restr o'r safonau proffesiynol yn y Proffil Sefydlu
- methu â newid yn ôl ac ymlaen rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ac i'r gwrthwyneb, pan oedd defnyddiwr yn ei chael hi'n anodd deall un iaith
- cymhlethdod gwelywio a'r angen am gynllun symlach i weld pa safonau sydd wedi'u cynnwys a pha rai sydd ddim. Awgrymodd un ANG y 'byddai'n ddefnyddiol cael tabl yn crynhoi ble rydych chi yn erbyn y safonau ... i weld faint sydd gennyf ar ôl ... nid yw'n hawdd gweld y botwm i'w ddewis ar gyfer hyn'
- anawsterau dod o hyd i'r sylwadau sydd wedi'u hychwanegu at y PDP gan Wiriwr Allanol (GA) neu Fentor Sefydlu (MS): 'rydych chi'n cael e-bost yn dweud wrthyf fod sylw wedi'i ychwanegu, ond mae'n anodd iawn dod o hyd i hyn yn y system'
- ofn pwysu'r botwm cyflwyno. Awgrymodd ANG y dylid newid lliw hwn er mwyn lleihau'r risg o gyflwyno eu proffil yn ddamweiniol.

9.5 Roedd ANG a gafodd well cefnogaeth gan eu MS yn gwneud defnydd mwy effeithiol o'r PDP. Y rhai nad oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant yn ymwneud â'r PDP a oedd yn cael yr anhawster mwyaf gydag ef: awgrymodd un hyd yn oed y 'dylid cael sesiwn ar PebblePad [y PDP] ym mis Medi'. O ganlyniad, roedd ANG nad oeddent wedi cael arweiniad a hyfforddiant priodol yn ymwneud â'r PDP yn fwy tebygol o'i ystyried fel ymarfer ticio blychau. Er enghraifft:

'Ar hyn o bryd dw i ddim yn elwa dim o ysgrifennu am fy mhrofiadau. Pe bai rhywun yn dangos i mi sut mae [enw cyfranogwr arall yn y grŵp ffocws] yn ei ddefnyddio yna byddwn i'n ei ddefnyddio'n wahanol. Ar hyn o bryd, dim ond rhestr wirio ydyw ... rydych chi'n rhuthro pethau tua'r diwedd.

- 9.6 Mae'r dystiolaeth sy'n cael ei uwchlwytho gan ANG i'w Proffil Sefydlu ar y PDP yn cael ei hadolygu gan MS a GA. Yn ogystal, mae rhai Cyrff Priodol (CP) yn monitro'r cynnydd a wneir gan ANG drwy eu PDP ac yn cysylltu â'r rhai sy'n methu ag uwchlwytho unrhyw dystiolaeth ar adeg benodol o'r flwyddyn academiaidd. Nododd CP eu bod yn poeni am yr ANG hynny nad ydynt yn cwblhau eu Proffil Sefydlu yn rheolaidd, gan ei adael tan ddiwedd eu cyfnod sefydlu i wneud hynny. Gellir anfon llythyrau pryder at yr ANG hyn a rhoi cymorth priodol iddynt.
- 9.7 Heblaw am faterion ymarferol yn ymwneud â'r PDP, roedd y prif fater arall a godwyd gan ANG, GA a CP fel ei gilydd yn ymwneud â'r diffyg arweiniad cyson ynghylch faint o Brofiadau Dysgu Proffesiynol a lefel y manylion fesul Profiad Dysgu Proffesiynol yr oedd angen i ANG eu defnyddio fel dystiolaeth ar gyfer bodloni'r 32 elfen o'r safonau proffesiynol. Roedd GA a CP yn ymwybodol bod y cyngor i ANG ar y mater hwn yn amrywio o un ardal i'r llall ac o un GA ac MS i'r llall. Roedd y sylwadau a wnaed yn cynnwys 'dywedodd un CP wrthynt fod angen tri phrofiad arnynt bob hanner tymor' tra bod eraill yn awgrymu bod angen wyth profiad arnynt, un arall bob hanner tymor tra bod eraill yn dweud nad oedd ots.
- 9.8 Adleisiodd ANG y cyngor cymysg hwn gan adrodd eu bod wedi cael eu cynghori i ysgrifennu am eu Profiadau Dysgu Proffesiynol mewn amryw o ffyrdd fel traethodau, pwyntiau bwled ac fel paragraffau byr. Datgelodd y drafodaeth mewn un grŵp ffocws wahaniaethau sylweddol mewn cyngor hyd yn oed yn yr un rhanbarth gydag un ANG yn nodi 'dywedwyd wrthym hanner ffordd i dicio dwy neu dair safon [ar gyfer pob profiad dysgu proffesiynol]' tra bod un arall wedi cael ei gynghori i 'dicio popeth' ond yn yr achos hwn roedd yn rhaid iddo newid ei ddull wedi hynny. Adeg y gwaith maes, roedd y cyngor ar nifer y Profiadau Dysgu Proffesiynol sy'n ofynnol ar gyfer ANG yn amrywio o chwech i 16. Mewn un rhanbarth roedd y canllawiau a gynigiwyd i ANG wedi newid yn ddiweddar o fod angen tri darn bach o dystiolaeth ar gyfer pob disgrifydd (gan olygu bod angen dros 30 darn o dystiolaeth) i 16 i 20 o ddarnau o dystiolaeth mwy ystyrlon.

- 9.9 Dadleuodd ANG yn gryf dros fwy o eglurder a chysondeb ynghylch nifer y Profiadau Dysgu Proffesiynol sy'n ofynnol i fodloni'r safonau proffesiynol ond gyda rhywfaint o hyblygrwydd i addasu i ddulliau unigol:

'Rwy'n credu y dylai fod ar ffurf yr hyn sy'n gweithio i ni' ac 'rwy'n credu y dylai fod yn hyblyg. Os ydych chi'n trefnu taith yna mae'n bosib iawn y byddai'r profiad hwnnw'n cyrraedd pump o'r safonau. Dyma sut mae fwyaf defnyddiol'. (ANG)

- 9.10 Ystyriwyd ei bod yn rhy gynnar i asesu a fyddai ANG yn parhau i ddefnyddio PDP ar ôl eu cyfnod sefydlu, er bod cyfranwyr yn obeithiol bod y ffaith iddo gael ei gyflwyno'n ddiweddar o fewn AGA yn golygu y byddai defnyddwyr yn dechrau ei weld fel offeryn dysgu diofyn ar gyfer eu proffesiwn. Fodd bynnag, mae parhau i'w ddefnyddio ar ôl y cyfnod sefydlu hefyd yn dibynnu ar agwedd ysgolion tuag at yr adnodd. Mae ANG sy'n gweithio mewn ysgolion sy'n gefnogol i'r PDP yn fwy tebygol o barhau i'w ddefnyddio:

'Rydw i wedi ei ddangos i'm mentor yn yr ysgol ... ac mae'r ymateb yn eithaf negyddol. Mae athrawon yn dweud wrthym 'rhaid i chi fwrw ymlaen â phethau eleni' ac rydych yn sylweddoli nad oes diben iddo ... mae'n feichus.' (ANG)

- 9.11 Parhaodd tri o'r saith unigolyn a oedd wedi cwblhau eu cyfnod sefydlu i ddefnyddio eu PDP gan eu bod yn ei gael yn offeryn defnyddiol i gofnodi profiadau a allai fod o gymorth ar gyfer dyrchafiad yn y proffesiwn addysgu yn y dyfodol. Yn un o'r achosion hyn, mae'r ysgol yn annog athrawon i ddefnyddio'r PDP ond yn y lleill parhawyd i ddefnyddio'r PDP er gwaethaf agwedd eithaf negyddol tuag at ymhlith cydweithwyr.

Adnoddau eraill

- 9.12 Mae gan ANG fynediad at ystod o adnoddau eraill ac maent yn eu defnyddio. Gellid grwpio'r rhain yn adnoddau gwybodaeth am sefydlu ac adnoddau addysgu ac addysgol, gan gynnwys:

Ffigur 9.2: Adnoddau a ddefnyddir gan ANG

Adnoddau gwybodaeth am sefydlu	Adnoddau addysgu ac addysgol
• Gwefannau a chyfryngau cymdeithasol y Consortia Addysg • Gwefannau ALLau • Gwefan a phecynnau gwybodaeth CGA	• Hwb • EBSCO • Dysgu • TES • Twinkle • Impact Wales

- 9.13 Cyfeiriwyd at Hwb yn rheolaidd gan ANG fel yr adnodd addysgu mwyaf cyffredin a defnyddiol ond cyfeiriwyd yn llai aml at adnoddau addysgu eraill. O ran adnoddau gwybodaeth sefydlu, y prif bwynt a godwyd gan ANG oedd yr angen am ganllaw 'ffug' clir a chryno i'r rhai sy'n dechrau ar y broses sefydlu a oedd yn egluro'r camau angenrheidiol y dylent eu cymryd, yn enwedig ar gyfer ANG cyflenwi. Er y cydnabuwyd bod gwybodaeth fanwl ar gael ar wefan CGA, awgrymodd sawl ANG bod gormod o wybodaeth arni a'i bod yn anodd ei dehongli.

10. Effeithiolrwydd cyfnod sefydlu athrawon

- 10.1 Mae'r bennod hon yn ystyried barn y rhai a gyfrannodd at y gwaith maes ar effeithiolrwydd cyffredinol y broses sefydlu athrawon. Mae'n ymchwilio i ba raddau y mae'r broses sefydlu yn adeiladu ar brofiadau a gafwyd yn ystod Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA); yn paratoi unigolion ar gyfer addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn creu ethos o ddysgu a datblygiad proffesiynol parhaus ymysg unigolion.
- 10.2 Mae'r bennod hefyd yn trafod syniadau'r cyfranwyr am ddyfodol y broses sefydlu i athrawon nad ydynt eisoes wedi cael sylw yn yr adroddiad hwn, yn enwedig ymestyn y cyfnod sefydlu o flwyddyn i ddwy flynedd a chysylltu cyflawniad llwyddiannus y cyfnod sefydlu â chyflog a thelerau ac amodau athrawon.

Adeiladu ar Addysg Gychwynnol i Athrawon

- 10.3 Mae'r cyfranwyr wedi cydnabod bod newidiadau diweddar i'r ddarpariaeth AGA wedi gwella'r cysondeb â phrofiad athrawon o'r broses sefydlu, yn enwedig o ran gwella gwybodaeth athrawon newydd gymhwyso (ANG) am y safonau proffesiynol newydd a chynnydd bach yn y ddealltwriaeth o'r hyn y bydd y rhaglen sefydlu yn ei olygu. Roedd disgwyl i'r gwelliannau hyn gael effaith bellach dros yr ychydig flynyddoedd nesaf o ystyried bod y garfan bresennol o hyfforddeion AGA yn mabwysiadu'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn academiaidd hon. Er gwaethaf hyn, roedd galw am fwy o integreiddio a chydlyniant ar draws rhaglenni AGA a sefydlu, fel na fyddent yn cael eu hystyried yn ddau gam gwahanol yn y broses gymhwyso. Roedd nifer fach o randdeiliaid o'r farn bod angen i AGA a'r broses sefydlu gael eu 'huno' neu eu 'pecynnu' fel un cynnig gyda mwy o bwyslais ar gyfleu'r daith a'r gofynion cyffredinol i ymgeiswyr ar y cychwyn.

Paratoi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

- 10.4 O ystyried mai dim ond chwe ANG a oedd yn addysgu (yn rhannol o leiaf) drwy gyfrwng y Gymraeg, rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli eu barn ar effeithiolrwydd y rhaglen sefydlu o ran eu paratoi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. At ei gilydd, awgrymodd yr ANG hyn eu bod yn gallu ymgysylltu

â'r rhan fwyaf o agweddau ar y rhaglen sefydlu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys mynediad at MS sy'n siarad Cymraeg a chwblhau eu Proffil Sefydlu yn Gymraeg, ond codwyd rhai anawsterau mewn perthynas â'u paru â GA sy'n siarad Cymraeg.

- 10.5 Fodd bynnag, nid oedd yr holl ANG hyn wedi gallu cael sesiynau dysgu proffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg ac roedd yr unigolion hyn yn teimlo dan anfantais yn gorfod trafod eu proffesiwn drwy gyfrwng y Saesneg. Dywedodd un ANG, a oedd wedi cael gradd BA mewn Addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac a oedd yn addysgu yn Gymraeg:

'Rwy'n credu bod y rhai sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg dan anfantais mewn gwirionedd oherwydd bod y derminoleg a ddefnyddir ar y cyrsiau yn Saesneg'. Yn yr achos hwn, roedd yr hyfforddiant yn yr ALI drwy gyfrwng y Saesneg a nododd yr unigolyn 'roeddwn yn siomedig iawn a bod yn onest'. (ANG)

- 10.6 Er mwyn goresgyn y problemau hyn, mae ALLau yn cydweithredu â siroedd cyfagos i alluogi ANG i fynychu sesiynau Cymraeg sydd ar gael yn yr ardaloedd hyn. Fodd bynnag, nid oedd ANG yn awyddus i fynychu sesiynau lle nad oeddent yn gyfarwydd â'u cymheiriaid ac roeddent yn ofni colli unrhyw wybodaeth leol a fyddai ar gael yn eu sesiwn 'leol'. Ar gyfer sesiynau a oedd yn cael eu rhedeg gan un Consortïwm Addysg telir costau teithio i ganiatáu i ANG deithio i gwrs Cymraeg o'u dewis.

- 10.7 Er ei fod ychydig y tu allan i gwmpas y gwaith ymchwil hwn, mae'n werth nodi adborth gan dri siaradwr Cymraeg arall a oedd wedi penderfynu peidio ag addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n tynnu sylw at yr angen am gefnogaeth barhaus i wella hyder a datblygu sgiliau yn ystod eu cyfnod sefydlu:

Ffigur 10.1: Adborth ANG ar addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Roedd tri ANG mewn un grŵp ffocws yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, ac wedi cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol. Byddai'r tri yn hoffi gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ond roeddent wedi penderfynu dysgu drwy gyfrwng y Saesneg oherwydd canfyddiad nad

oedd eu Cymraeg yn 'ddigon da'. Dywedodd yr ANG hyn fod y teimlad hwn yn deillio o ofni y byddai cydweithwyr Cymraeg 'snobyddlyd' yn edrych i lawr eu trwynau arnynt a diffyg hyder i addysgu drwy gyfrwng Cymraeg. Ym mhob achos, byddai'r ANG hyn wedi croesawu cymorth i wella eu Cymraeg ffurfiol, gan gynnwys cymorth i ddatblygu terminoleg pynciau Cymraeg.

Creu ethos o ddysgu a datblygiad proffesiynol parhaus ymysg unigolion

- 10.8 Roedd llawer o ANG, ond yn sicr nid pob un, o'r farn eu bod yn myfyrio'n effeithiol ar eu harferion addysgu eu hunain yn ystod eu cyfnod sefydlu ac yn defnyddio eu hamser nad oedd yn amser addysgu i gofnodi'r profiadau hyn ac i ddysgu ohonynt. Yn hyn o beth, ystyriwyd bod y Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) yn offeryn defnyddiol ar gyfer cadw profiadau a gwersi o'r fath. Fodd bynnag, nid oedd ANG a oedd yn ystyried y PDP fel ymarfer blwch ticio er mwyn cwblhau eu gofynion sefydlu yn elwa yn yr un modd. Ategwyd hyn gan gynrychiolwyr CP a ddadleuodd fod yr ANG a oedd yn cael gwell cefnogaeth a'r rhai cryfaf yn gallu myfyrio'n effeithiol ar eu harferion eu hunain ond y gallai eraill elwa o gefnogaeth barhaus er mwyn i ethos o ddysgu parhaus gael ei ymgorffori yn eu dull gweithredu.

Ymestyn cyfnod sefydlu i athrawon

- 10.9 Nid oedd unrhyw awydd ymhlith yr ystod o gyfranwyr i ymestyn y cyfnod sefydlu statudol i athrawon o flwyddyn i ddwy flynedd neu gyfnod cyfatebol, er bod cymeradwyaeth eang i ymestyn y gefnogaeth sydd ar gael i ANG dros gyfnod hwy, o bosibl dros ddwy neu dair blynedd. Byddai ANG yn elwa o allu cael mynediad i elfennau o'r rhaglen sefydlu megis cymorth gan MS ac amser addysgu gwarchodedig yn ystod eu hail flwyddyn addysgu. Awgrymodd sawl ANG y byddai gostyngiad graddol yn lefel y cymorth a'r amser nad yw'n amser addysgu yn hytrach na'u dirwyn i ben yn sydyn yn briodol.
- 10.10 Teimlwyd y byddai rhai ANG yn elwa o'r cymorth hwn yn fwy nag eraill h.y. ANG iau â llai o brofiad bywyd i ymdrin â materion fel rheoli ymddygiad a rhieni anodd; y rhai sy'n symud i addysgu mewn lleoliad gwahanol (o'r cyfnod Sylfaen i CA2 er enghraifft) a'r rhai nad oeddent wedi elwa o

gymorth MS yn ystod eu cyfnod sefydlu oherwydd eu bod wedi dilyn y llwybr cyflenwi. Dywedodd un cyfranogwr a oedd wedi cwblhau ei gyfnod sefydlu:

'Mae gen i ddosbarth anoddach eleni ond dim cefnogaeth. Fi hefyd yw'r pwynt cyswllt cyntaf i ANG newydd arall yn yr ysgol eleni. Rwy'n teimlo fy mod wedi cael fy anghofio braidd eleni. Mae'n teimlo ychydig fel bod ar ymyl y clogwyn.' (ANG)

- 10.11 Galwodd sawl unigolyn am fwy o bwyslais ar gefnogi llesiant athrawon newydd ar ôl iddynt gwblhau eu rhaglen sefydlu, o ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â blinder, teimlo eu bod wedi'u gorlethu a theimlo nad oes ganddynt gefnogaeth. Er enghraifft, dywedodd un:

'Dair wythnos yn ôl roeddwn i eisiau rhoi'r gorau iddi. Doeddwn i ddim yn gallu ymdopi â'r cyfan. Doedd gen i ddim cefnogaeth, doeddwn i ddim yn gwybod ble i droi. Roeddwn i'n teimlo bod pwysau'r byd ar fy ysgwyddau, es i at y meddyg a doedd e ddim yn gwybod beth i'w wneud. Fe weithiais i 70 o oriau yr wythnos diwethaf - mae'n waith caled iawn. Dw i yn yr ysgol erbyn 7.30am ac adref erbyn 6pm ac yna dwi'n dechrau gweithio eto [gartref]. Dw i'n gweithio ar benwythnosau a dw i wedi ymlâdd. Mae fy mhen i'n dweud wrtha'i am gau'r gliniadur a gweithio llai, ond mae'n anodd iawn gwybod sut i flaenoriaethu.' (ANG)

Cysylltu cyflawni'r cyfnod sefydlu'n llwyddiannus a chyflog ac amodau athrawon

- 10.12 Ar hyn o bryd, nid yw ANG yn symud ymlaen i lefel uwch o gyflog ar ôl cwblhau eu cyfnod sefydlu yn llwyddiannus ond yn hytrach fe'u hystyrir yn yr un modd ag athrawon eraill, yn yr ystyr eu bod yn ddarostyngedig i gyflog ac amodau athrawon ysgol Llywodraeth Cymru sy'n nodi bod y cynnydd yn nhâl athro yn gynnydd blynyddol sy'n dod i rym o'r 1^{af} o fis Medi neu pan fydd athro yn ymgymryd â swydd newydd⁵⁵. O ran cysylltu cyflawni'r cyfnod sefydlu yn llwyddiannus a chyflog ac amodau athrawon,

⁵⁵ Llywodraeth Cymru (2019) [Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol \(Cymru\) 2019 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol](#).

roedd consensws eang ymhlith ANG a CP y byddai'n briodol i godiadau cyflog gael eu cysylltu â chyflawni'r cyfnod sefydlu yn llwyddiannus.

- 10.13 Y prif fater, a godwyd gan yr ANG hynny a gwblhaodd eu cyfnod sefydlu yn ystod y flwyddyn academiaidd, oedd na chawsant godiad cyflog tan ddechrau'r flwyddyn academiaidd ganlynol ond eto nid oeddent yn elwa ar fanteision y rhaglen sefydlu, fel llai o lwyth gwaith addysgu neu gymorth gan MS yn ystod yr amser hwn.

11. Casgliadau ac argymhellion

11.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno ein casgliadau ac yn cynnig awgrymiadau ar gyfer newid a chryfhau trefniadau sefydlu athrawon yng Nghymru. Wrth wneud hynny, dychwelwn i ystyried pedwar cwestiwn ymchwil allweddol yr astudiaeth sy'n ymwneud ag:

- ymwybyddiaeth o'r broses sefydlu statudol, y wybodaeth amdani ac agweddau tuag ati
- effeithiolrwydd y broses sefydlu statudol o ran adeiladu ar Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA), darparu profiadau proffesiynol, cefnogi ymarferwyr i fyfyrion ar eu hymarfer eu hunain a pharatoi athrawon newydd gymhwyso (ANG) ar gyfer dysgu gydol oes a gyrfa mewn addysgu.
- yr amodau sy'n cefnogi neu'n llesteirio proses sefydlu effeithiol
- ffyrdd y gellid cryfhau'r broses sefydlu i gefnogi'r amcan o ddatblygu gweithlu medrus iawn yng Nghymru.

Ymwybyddiaeth o'r broses sefydlu statudol, y wybodaeth amdani ac agweddau tuag ati

11.2 Deuwn i'r casgliad fod ymwybyddiaeth o'r broses sefydlu statudol i athrawon yng Nghymru ymysg ANG cyn ymgysylltu â'r broses sefydlu yn amrywio, ac ANG sy'n cyflenwi yw'r rhai lleiaf gwybodus am ofynion y broses sefydlu. Roedd ANG sy'n symud yn ôl i Gymru, neu i mewn i Gymru, i ymgymryd â'r broses sefydlu hefyd yn llai gwybodus am y gofynion. Mae'n destun pryder nad yw llawer o ANG, yn enwedig ANG sy'n cyflenwi, yn gweithio tuag at gwblhau eu cyfnod sefydlu yng Nghymru er gwaethaf ymdrechion Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) i gyfleu'r gofyniad i wneud hynny. Sesiynau briffio cychwynnol a ddarperir gan Awdurdodau Lleol (ALLau) a Chonsortia Addysg yw'r dull pwysicaf a'r mwyaf addysgiadol i ANG werthfawrogi gofynion y cyfnod sefydlu yn llawn ac, felly, dylid parhau â'r rhain.

11.3 Mae'n ymddangos bod ymdrechion diweddar gan CP i gyfleu gofynion sefydlu athrawon i hyfforddeion presennol ar raglenni AGA yng Nghymru

wedi helpu i wella ymwybyddiaeth ac, yn ein barn ni, dylent barhau. Mae cyfle pellach i ymgorffori ymwybyddiaeth ac agwedd gadarnhaol tuag at y broses sefydlu o fewn darpariaeth AGA ledled Cymru. Mae'n wir bod ANG yn methu â chydabod pwysigrwydd y wybodaeth a rennir hyd nes y daw'n berthnasol iddynt: byddai hyn yn egluro pwysigrwydd sesiynau briffio cychwynnol ar gyfer ANG. Rhaid hefyd ystyried dulliau o nodi a hysbysu'r ANG hynny sy'n symud neu'n dychwelyd i Gymru i ymgymryd â'r broses sefydlu i hathrawon, ar ôl cwblhau eu AGA mewn sefydliad y tu allan i Gymru.

- 11.4 O ystyried bod cymaint o sefydliadau'n rhan o'r broses a'u gwahanol rolau, mae llawer o ANG yn colli'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt fel rhan o'u cyfnod sefydlu wrth iddynt drosglwyddo o un lleoliad i'r llall, neu nid ydynt yn cael eu cynnwys o'r cychwyn cyntaf o gwbl. Mae'r daith hon yn cychwyn ar ddiwedd AGA (er ei bod yn ymddangos bod y niferoedd nad ydynt yn cofrestru fel athrawon ysgol â CGA oherwydd diffyg ymwybyddiaeth yn ystod y cyfnod pontio hwn yn isel oherwydd ffocws darparwyr AGA ar gael hyfforddeion i gofrestru). Mae achos cryf i CGA rannu ei gronfa ddata o athrawon ysgol sydd newydd gofrestru gyda Chyrff Priodol (CP) cyn dechrau'r flwyddyn academiaidd fel y gall CP gysylltu'n rhagweithiol a chyfathrebu ag ANG yn uniongyrchol i sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn sesiwn friffio gychwynnol ar y broses sefydlu.
- 11.5 Awgrymodd adborth gan ANG a gyfrannodd at yr ymchwil hon fod cyfnod sefydlu i athrawon newydd yn briodol ond mae'r rhaglen bresennol yn aml yn cael ei hystyried yn 'gylch' i neidio drwyddo neu'n 'flwch i'w dicio' er mwyn parhau â'u gyrfa yn y proffesiwn, yn hytrach na cham cychwynnol ar daith datblygiad proffesiynol.

Effeithiolrwydd y broses sefydlu statudol

- 11.6 Deuwn i'r casgliad fod y trefniadau presennol ar gyfer sefydlu athrawon yng Nghymru yn addas iawn ar gyfer mwyafrif yr ANG a gyflogir gan ysgolion sydd hefyd yn cael cymorth digonol gan eu Mentor Sefydlu (MS). Fodd bynnag, mae'r enghreifftiau niferus a gofnodwyd drwy'r astudiaeth hon o ANG nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn yn awgrymu bod angen

gwneud rhai newidiadau sylfaenol i'r rhaglen sefydlu athrawon yng Nghymru.

- 11.7 Yn seiliedig ar yr adborth a gasglwyd, mae cyfnod sefydlu statudol o flwyddyn yn briodol, ond dylid ystyried ymestyn agweddau ar y cymorth sydd ar waith (gan gynnwys gostyngiad graddol yn yr amser nad yw'n amser addysgu a mentora pellach neu gefnogaeth gan rwydwaith cymheiriaid).
- 11.8 Yn seiliedig ar adborth gan ANG, mae angen rhoi sylw i ddwy agwedd ar y rhaglen sefydlu athrawon fel blaenoriaeth. Mae'r agwedd gyntaf yn ymwneud â phrofiadau ANG sy'n cyflenwi ac mae'r ail yn ymwneud â phrofiadau ANG o gymorth gan MS.

ANG sy'n cyflenwi

- 11.9 Mae profiad ANG sy'n cyflenwi o ymgymryd â'r broses sefydlu yn heriol dros ben ac mae angen sicrhau bod profiad tecach yn cael ei ddarparu i'r garfan hon. Mae dadl gref dros godi'r bar o ran isafswm profiadau addysgu ANG, os yw Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau eu bod yn gallu dangos eu bod yn cyrraedd safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth ar ddiwedd eu cyfnod sefydlu. Yn ein barn ni, mae'n afrealistig disgwyl i ANG gyflawni gofynion y safonau newydd drwy waith cyflenwi byrdymor yn unig.
- 11.10 Mae achos hefyd dros wella'r cymorth i ANG sy'n cyflenwi a'u profiadau yn ystod eu cyfnod sefydlu fel eu bod yn cael darpariaeth debycach i'r ddarpariaeth a gaiff eu cymheiriaid a gyflogir gan ysgolion. Yn hyn o beth, ac o ystyried canfyddiadau cadarnhaol ei werthusiad annibynnol a drafodwyd ym Mhennod 3 yr adroddiad hwn, mae achos cryf dros ymestyn y prosiect Peilot Clwstwr Cyflenwi i gyflogi a chefnogi nifer briodol o ANG sy'n cyflenwi bob blwyddyn.

Profiad o gymorth gan MS

- 11.11 Yn ail, mae profiad ANG o gefnogaeth gan MS yn amrywio'n sylweddol ymhlith ANG a gyflogir gan ysgolion ac nid yw'r rhai sy'n gwneud gwaith cyflenwi yn manteisio ar ddarpariaeth fentora debyg ar hyn o bryd. Mae

achos cryf dros fynd i'r afael â'r maes hwn o'r broses sefydlu statudol i athrawon fel blaenoriaeth.

Amodau sy'n cefnogi neu'n llesteirio proses sefydlu effeithiol

Rôl sefydliadau

- 11.12 Mae trefniadau sefydlu athrawon yng Nghymru yn gymhleth, oherwydd bod ystod o randdeiliaid yn gysylltiedig â'r broses a'r angen i ddiwallu anghenion ANG a gyflogir ac ANG sy'n gwneud gwaith cyflenwi ac sy'n dilyn llwybrau gwahanol iawn mewn perthynas â'r broses. Canfu'r gwaith maes fod y broses sefydlu athrawon yng Nghymru yn dibynnu ar fewnbynnau ystod a nifer fawr o sefydliadau (Llywodraeth Cymru, CGA, Awdurdodau Lleol (ALLau), Consortia Addysg, ysgolion ac asiantaethau cyflenwi) ac unigolion (MS a Gwirwyr Allanol). Mae dadl gref dros symleiddio'r dull cymaint ag sy'n ymarferol bosibl a mabwysiadu mwy o gysondeb o ran y cymorth sydd ar gael a'r dulliau o gyfathrebu ag ANG.
- 11.13 Mae'r Consortia Addysg yn mabwysiadu agwedd wahanol i rôl CP a dirprwyo'r rôl honno. Mewn Consortia Addysg lle mae rôl CP yn cael ei chyflawni ar lefel ALL, yn naturiol mae mwy o amrywiad ar draws y rhanbarth hwnnw o ran yr arferion a'r systemau sy'n cael eu mabwysiadu. Byddai'n fuddiol i Consortia Addysg, ynghyd â'u priod ALLau, adolygu'r modelau gweithio a fabwysiadwyd ar draws pob rhanbarth. Wrth nodi hyn, rydym yn cydnabod bod rhai ALLau sy'n ymgymryd â'r rôl CP yn gweithredu'n effeithlon iawn ond nid oes gan eraill yr adnoddau angenrheidiol i fabwysiadu dull cyson.

Cyfathrebu a gwybodaeth

- 11.14 O ystyried bod sefydlu athrawon yn cael ei weld fel proses ticio blychau yn hytrach na cham cyntaf ar y daith datblygiad proffesiynol, deawn i'r casgliad fod angen ail-becynnu a chyflwyno'r broses sefydlu i athrawon mewn modd sy'n adlewyrchu'r ffocws a'r iaith a ddefnyddir bellach ar draws polisi addysg, gan bwysleisio bod y broses sefydlu yn gam allweddol ar daith dysgu proffesiynol hirdymor. Mae modd cyfleu neges o'r fath yn well i'r rhai sy'n ymgymryd ag AGA ar hyn o bryd yn ogystal ag i'r proffesiwn addysgu ehangach.

- 11.15 Mae ystod eang o wybodaeth fanwl, ragorol i gefnogi'r broses sefydlu athrawon ar gael i'r rhai sy'n dechrau ar yrfa addysgu. Mae'r rhain ar gael ar draws ystod o wefannau gwahanol sefydliadau ac fe'u darperir yn uniongyrchol i ANG drwy CGA pan fyddant yn cofrestru fel athro ysgol. Mae'n ymddangos bod bwlch o ran map llwybr gweledol symlach wedi'i gyflwyno mewn dull haws ei ddefnyddio, ac wedi'i dargedu at y rhai sydd ar fin cwblhau eu AGA neu sydd newydd gofrestru fel athro ysgol newydd gydag CGA, i amlinellu'r camau nesaf hollbwysig y dylent fod yn eu cymryd.

Dysgu proffesiynol

- 11.16 Dywed adborth gan ANG fod y cyfleoedd dysgu proffesiynol a ddarperir fel rhan o'u cyfnod sefydlu yn un o gryfderau'r broses. Yn seiliedig ar yr adborth a gasglwyd, mae cyfleoedd i adeiladu ar y ddarpariaeth hon o bosibl drwy un rhaglen dysgu proffesiynol genedlaethol sydd wedi bod yn destun proses sicrwydd ansawdd y gellid ei darparu mewn ffordd hyblyg. Awgrymwn y dylid ei gwneud yn orfodol i ANG gymryd rhan mewn gweithgaredd dysgu proffesiynol, a bod hyn yn berthnasol i ANG a gyflogir ac ANG sy'n cyflenwi fel ei gilydd. Dylai fod angen cymryd rhan mewn gweithgaredd dysgu proffesiynol er mwyn cwblhau'r cyfnod sefydlu yn llwyddiannus. Dylid rhoi ad-daliad ariannol i ANG sy'n cyflenwi am fynychu unrhyw sesiynau dysgu proffesiynol a gyflwynir fel rhan o'r rhaglen sefydlu.

Asiantaethau cyflenwi

- 11.17 Mae asiantaethau cyflenwi wedi dod i chwarae mwy o ran ym mhroses sefydlu athrawon dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yng ngoleuni'r niferoedd cynyddol o ANG sy'n ymgymryd â'u cyfnod sefydlu drwy'r llwybr hwn. Yn ein barn ni, mae angen i ganllawiau sefydlu athrawon gydnabod hyn a chryfhau'r gofynion sydd ar waith ar gyfer asiantaethau cyflenwi, er mwyn ymestyn rhai o'r arferion effeithiol sy'n cael eu mabwysiadu ar hyn o bryd gan nifer fach o asiantaethau. Byddai hyn yn mynd gam o'r ffordd tuag at gau'r bwlch presennol rhwng polisïau ac arferion asiantaethau cyflenwi a phrofiadau ANG o weithio iddynt. Mae angen i'r canllawiau fod yn fwy eglur

a manwl ynghylch y swyddogaethau y mae disgwyl i asiantaethau cyflenwi eu mabwysiadu.

Awgrymiadau ar gyfer cryfhau'r broses sefydlu statudol i athrawon

- 11.18 Rydym yn amlinellu isod chwe argymhelliad strategol i gryfhau'r broses sefydlu statudol ar gyfer athrawon yng Nghymru yn y dyfodol.

Argymhelliad 1: Rydym yn argymhell y dylid cadw'r cyfnod sefydlu statudol o flwyddyn, ond y dylid ystyried ymestyn y cymorth ar ôl y cyfnod hwn. Gallai hyn gynnwys darparu cymorth drwy fentora a rhwydwaith cymheiriaid ynghyd â gostyngiad graddol yn yr amser nad yw'n amser addysgu ar ôl diwedd y cyfnod statudol.

Argymhelliad 2: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellid darparu profiad tecach o'r broses sefydlu i ANG sy'n cyflenwi. Gallai hyn gynnwys datblygu model penodol a ddyluniwyd yn arbennig i gefnogi ANG sy'n cyflenwi. Gallai gynnwys:

- dull sy'n ceisio rhoi mwy o brofiadau o gyfnodau addysgu olynol mewn un ysgol i ANG sy'n cyflenwi
- ymestyn y prosiect Peilot Clwstr Cyflenwi fel cyfrwng ar gyfer darparu profiadau addysgu cyflenwi tymor hwy i ANG sy'n cyflenwi ac sy'n ymgymryd â'r broses sefydlu
- gwneud ad-daliad ariannol i ANG sy'n cyflenwi am fynychu sesiynau dysgu proffesiynol
- cofnodi profiadau o waith cyflenwi cymwys drwy ddefnyddio tystiolaeth sydd eisoes ar gael ar ffurf cofnodion cyflogaeth asiantaethau cyflenwi er mwyn lleihau'r baich presennol ar athrawon cyflenwi i gasglu'r wybodaeth hon â llaw
- sicrhau bod gan ANG sy'n cyflenwi fynediad at gymorth gan MS penodedig. Gellid cyflawni hyn drwy GA, asiantaethau cyflenwi neu ei ymgorffori yn y Prosiect Clwstr Cyflenwi

- egluro'r gofynion ar ysgolion i ddarparu amser addysgu gwarchodedig i ANG sy'n cyflenwi sy'n gweithio gyda nhw.

Argymhelliad 3: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Chonsortia Addysg ac ALLau, yn ystyried a ellid cymhwyso strwythur symlach i drefniadau sefydlu yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys adolygu priodoldeb gwirwyr allano, mentoriaid sefydlu a chyrrff priodol a'u rôl penodol. Dylai hefyd ystyried rôl asiantaethau cyflenwi a'r gofynion ohonynt, yng ngoleuni'r awgrymiadau a gynigir yn Argymhelliad 2.

Argymhelliad 4: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gallai pob ANG elwa o gymorth rhagorol gan MS yn ystod eu cyfnod sefydlu athrawon statudol. Yng ngoleuni'r newidiadau a allai ddeillio o weithredu argymhelliad 3, gallai hyn gynnwys ymchwilio i opsiynau ar gyfer datblygu a darparu hyfforddiant hyblyg i MS a gwella rôl yr MS o ran statws a chydabyddiaeth ariannol.

Argymhelliad 5: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r prosesau gweinyddol a chyfathrebu sydd wedi'u mabwysiadu gan sefydliadau allweddol sy'n ymwneud â'r broses sefydlu statudol ar gyfer athrawon. Awgrymwn y dylai'r adolygiad hwn ymchwilio i drosglwyddo gwybodaeth i CP am athrawon ysgol sydd newydd gofrestru a'r broses o gysylltu ag athrawon ysgol sydd newydd eu cofrestru er mwyn eu hannog i gymryd rhan yn broses sefydlu.

Argymhelliad 6: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, ar y cyd â'r Consortia Addysg, yn comisiynu rhaglen dysgu proffesiynol genedlaethol o ansawdd uchel ar gyfer ANG a allai fod ar gael mewn modd hyblyg. Dylai'r rhaglen hon gynnwys modiwlau gorfodol craidd (gan gynnwys sesiwn frifio gychwynnol) y byddai disgwyl i ANG eu cwblhau yn ystod eu cyfnod sefydlu a modiwlau ychwanegol y gellid eu cynnig yn ystod y ddwy neu dair blynedd gyntaf o addysgu.

- 11.19 Rydym hefyd yn nodi isod rai awgrymiadau ymarferol, yn seiliedig ar syniadau a gynigiwyd gan gyfranwyr i'r astudiaeth hon, y gallai Llywodraeth Cymru fod eisiau eu hystyried ar gyfer y byrdymor tra bo trafodaethau'n digwydd ar drefniadau sefydlu yn y dyfodol fel rhan o'r Pecyn Cymorth

Gyrfa Gynnar yng ngoleuni'r argymhellion a wneir uchod. Credwn y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r canllawiau sefydlu athrawon yn cynnwys:

- mwy o fanylion yn ymwneud â threfniadau sefydlu ar gyfer ysgolion o dan fesurau arbennig, yn seiliedig ar y cwestiynau mwyaf cyffredin a ofynnir i CP, a'r atebion a ddarperir ganddynt
- enghreifftiau o sut y gall ANG o bosibl ddefnyddio eu hamser addysgu gwarchodedig mewn gwahanol leoliadau ysgol
- diffiniad clir o'r hyn a olygir wrth 'gyflogaeth reolaidd' ANG sy'n cyflenwi er mwyn egluro pa bryd y dylai ysgolion fod yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros ANG sy'n cyflenwi.
- dehongliad mwy addas o sesiwn addysgu i'w ddefnyddio ar draws lleoliadau uwchradd: er bod sesiwn hanner diwrnod yn briodol ar gyfer ANG cynradd, gallai ANG uwchradd gronni gwersi unigol mewn ffordd fwy hyblyg
- mwy o fanylion am y disgwyliadau gan GA gan gynnwys y nifer fwyaf o ANG y gall GA ddisgwyl sicrhau eu hansawdd; pryd y gall ANG ddisgwyl cael cyswllt cychwynnol â'r GA a ddyrannwyd iddynt; a'r hyn sy'n ofynnol gan CP o ran monitro gwaith GA
- annog yr ymarfer effeithiol o gynnal sesiynau cyfnos wedi'u hwyluso ar gyfer ANG yn gysylltiedig â'u clwstwr o ysgolion.

Atodiad A: Offerynnau ymchwil

Canllaw pwnc 1: Grŵp Ffocws ANG

Y cefndir

1. Dywedwch ychydig amdanoch chi eich hun, eich profiadau addysgu a statws eich cyfnod sefydlu:
 - Holwch: pryd wnaethoch chi ddechrau addysgu?
 - Holwch: ydych chi newydd ddechrau eich cyfnod sefydlu, hanner ffordd drwyddo neu wedi'i gwblhau'n llwyddiannus?
 - Holwch: ydych chi'n cael eich cyflogi gan ysgol neu ydych chi'n gwneud gwaith cyflenwi?
 - Holwch os yn athro cyflenwi: beth yw natur a thelerau eich gwaith cyflenwi presennol? Er enghraifft, ai gwaith cyflenwi hirdymor yw hwn (e.e. cyfnod mamolaeth) neu waith cyflenwi byrdymor (e.e., llai nag 1 tymor neu 2 hanner tymor olynol)?
 - Holwch os yn cyflenwi o'r blaen: beth oedd natur a thelerau unrhyw waith cyflenwi blaenorol? Er enghraifft, tua faint o ysgolion a hyd y cyfnod cyflenwi ym mhob un

Ymwybyddiaeth o'r broses sefydlu statudol, gan gynnwys y rheoliadau a'r canllawiau

2. Oeddech chi'n ymwybodol o'r angen i ymgymryd â phroses sefydlu statudol pan ddechreuoch chi addysgu am y tro cyntaf?
 - Beth oedd eich barn am hyn fel cysyniad?
3. Pa mor wybodus oeddech chi yn y lle cyntaf am yr hyn a fyddai'n ofynnol ohonoch yn ystod y cyfnod sefydlu statudol? Holwch am:
 - Sut y daethoch chi i wybod am y gofynion hyn?
 - [\[Athrawon cyflenwi yn unig\]](#) Sut, os o gwbl, y gwnaeth asiantaethau cyflenwi roi gwybod i chi am y gofynion hyn?
 - [Oeddech chi'n ymwybodol bod yn rhaid i ANG gael eu cofrestru dros dro gyda CGA yn y categori athro/athrawes ysgol cyn y gall y cyfnod sefydlu ddechrau?](#)
 - Oeddech chi'n ymwybodol bod yn rhaid cyfrif pob sesiwn a weithiwyd fel athro tuag at y broses sefydlu?
 - Oeddech chi'n ymwybodol nad oes modd cyfrif y sesiynau a weithiwyd fel cynorthwyydd addysgu neu oruchwyliwr cyflenwi tuag at y cyfnod sefydlu?
 - Oeddech chi'n ymwybodol bod yn rhaid i chi gofnodi pob sesiwn addysgu gyda CGA?

- Oeddech chi'n ymwybodol na all ANG gael ei neilltuo i weithio fel athro mewn ysgol sydd dan fesurau arbennig, oni bai bod Estyn wedi ardystio'n ysgrifenedig bod yr ysgol yn addas i ddarparu goruchwyliaeth a hyfforddiant sefydlu?
4. Pa mor gyfarwydd ydych chi â'r rheoliadau a'r canllawiau presennol ar y broses sefydlu statudol ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru⁵⁶?
- Ydych chi wedi profi unrhyw faterion nad ydynt yn cael eu cwmpasu'n ddigonol gan y rhain?

Sesiynau addysgu

5. Beth yw eich barn am y gofyniad i ANG gwblhau 3 thymor/380 o sesiynau ysgol o leiaf (cyfrifir un sesiwn fel hanner diwrnod) fel rhan o'r cyfnod sefydlu?
- Pa broblemau, os o gwbl, y mae hyn yn eu hachosi i chi?
6. Ydych chi'n cael eich hawl i lai o amser addysgu ar gyfer datblygiad proffesiynol yn ystod eich cyfnod sefydlu? (Mae hyn yn ychwanegol at y gostyngiad o 10% mewn amser addysgu ar gyfer CPA.)
- [Ar gyfer y rhai sydd wedi gweithio mewn mwy nag un lleoliad ysgol, gan gynnwys ANG sy'n cyflenwi] Sut, os o gwbl, y mae'r hawl hon yn amrywio o un ysgol i'r llall?
 - Os nad ydych, pam?

Datblygiad proffesiynol a'r ddarpariaeth hyfforddiant

7. Pa raglen ddysgu broffesiynol i ANG a ddarparwyd gan gonsortia addysg/ALI ydych chi wedi ei mynychu hyd yn hyn?
- Sawl sesiwn ydych chi wedi'i mynychu?
 - Beth sy'n dda am y sesiynau hyn?
 - Sut, os o gwbl, y gellid eu gwella?
8. [\[Athrawon cyflenwi yn unig\]](#) Ydy'r asiantaethau cyflenwi yn cynnig unrhyw gyfleoedd dysgu proffesiynol i chi?
- Os felly, beth yw natur y ddarpariaeth hon ar gyfer pob asiantaeth gyflenwi?
 - Ar ba ffurf mae'r ddarpariaeth ar gael (e.e. sesiynau diwrnod llawn, cyfnos)?
 - Ydych chi'n cael eich talu i fynychu unrhyw sesiynau?

⁵⁶ Llywodraeth Cymru (2017) [Ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru](#).

9. [\[Athrawon cyflenwi yn unig\]](#) Ydy asiantaethau cyflenwi yn eich gwneud yn ymwybodol o sesiynau dysgu proffesiynol a ddarperir gan gonsortia/ALLau? Os felly, pa rai a sut?
10. [\[Athrawon cyflenwi yn unig\]](#) Ydy asiantaethau cyflenwi yn eich cynorthwyo'n ariannol i fynychu sesiynau dysgu proffesiynol a ddarperir gan gonsortia/ALLau? Os felly, pa rai a sut?

Rôl y mentor sefydlu

11. Pa gymorth ydych chi'n ei gael gan eich mentor sefydlu⁵⁷?
- Pwy sy'n ymgymryd â'r rôl hon?
 - Pa mor aml ydych chi'n cwrdd â'ch mentor?
 - Beth sy'n dda am y cymorth mentora rydych chi'n ei gael?
 - Ym mha ffordd y gellid gwella'r cymorth mentora?

Rôl y gwiriwr allanol

12. Pa gymorth ydych chi'n ei gael gan eich gwiriwr allanol?
- Pwy sy'n ymgymryd â'r rôl hon?
 - Pa mor aml ydych chi'n cwrdd â'ch gwiriwr allanol?
 - Beth sy'n dda am y gefnogaeth a gewch gan eich gwiriwr allanol?
 - Ym mha ffordd, os o gwbl, y gellid gwella'r cymorth a ddarperir gan y gwiriwr allanol?

I'r rhai a gyflogir gan asiantaethau cyflenwi

13. [\[Athrawon cyflenwi yn unig\]](#) Ym mha ffordd y mae asiantaethau cyflenwi yn eich cynorthwyo i fodloni eich gofynion sefydlu statudol e.e. drwy helpu i gyflawni'r sesiynau addysgu angenrheidiol, drwy gyfathrebu ag ysgolion, drwy eich cynghori ar gofnodi tystiolaeth i gyrraedd y safonau proffesiynol ac ati?
- Pa mor effeithiol yw'r cymorth a ddarperir gan yr asiantaeth cyflenwi?
 - Pa drafferthion, os o gwbl, ydych chi wedi'u cael?
14. [\[Athrawon cyflenwi yn unig\]](#) Pa rôl sydd gan asiantaethau cyflenwi o ran monitro eich cynnydd?
- Pa wybodaeth neu dystiolaeth am eich gwaith a'r cynnydd a wnaed sydd ar gael i asiantaethau cyflenwi?
 - Pwy sy'n darparu'r wybodaeth hon iddynt?

⁵⁷ Sylwch na fydd gan ANG sy'n cyflenwi sydd ar gyfres o leoliadau byrdymor mewn gwahanol ysgolion fentor mewn ysgol. Y gwiriwr allanol sy'n ymgymryd â'r rôl.

15. [\[Athrawon cyflenwi yn unig\]](#) Pa mor effeithiol yw'r prosesau a fabwysiadwyd gan asiantaethau cyflenwi i fonitro'ch cynnydd?
- Pam ydych chi'n dweud hyn?
16. [\[Athrawon cyflenwi yn unig\]](#) A fu unrhyw broblemau o safbwynt y cyfathrebu rhwng yr asiantaethau cyflenwi a'r ysgolion pan fyddwch yn cael eich neilltuo i ymgymryd â gwaith cyflenwi?
- Beth oedd y problemau hyn a beth, yn eich barn chi, oedd yn eu hachosi?
 - Sut y gellid mynd i'r afael ag unrhyw faterion yn y dyfodol?

Adnoddau

17. Ydych chi'n defnyddio Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) CGA i gofnodi profiadau proffesiynol?
- Pa mor dda y mae hyn yn gweithio'n ymarferol?
 - Beth yw cryfderau a gwendidau'r PDP?
 - Ym mha ffordd, os o gwbl, y dylid newid y PDP er mwyn diwallu eich anghenion yn well?
18. Pa adnoddau eraill (holwch os bydd angen: gwefannau Hwb, CGA a chonsortia) y mae gennych fynediad iddynt ac yr ydych yn eu defnyddio?
- Pa mor dda, neu beidio, y mae'r adnoddau hyn yn diwallu eich anghenion?
 - Ym mha ffordd, os o gwbl, y gellid gwella'r adnoddau hyn er mwyn diwallu eich anghenion yn well?

Effeithiolrwydd y cyfnod sefydlu statudol presennol i athrawon

[\[Nodyn i'r ymchwilydd: mae angen teilwra'r cwestiynau canlynol yn unol â phrofiad personol yr ANG o'r broses sefydlu hyd yma, gan dderbyn y bydd rhai ar ddechrau'r daith hon ac y bydd eraill wedi cwblhau eu cyfnod sefydlu\]](#)

19. Pa mor dda, neu beidio, y mae eich profiad o'r broses sefydlu wedi adeiladu ar y profiadau a gawsoch yn ystod eich Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA)?
- Pam ydych chi'n dweud hyn?
20. Pa mor dda, neu beidio, y mae eich profiad o'r broses sefydlu wedi eich paratoi ar gyfer gyrfa ym maes addysgu?
- Pam ydych chi'n dweud hyn?
 - Beth, os unrhyw beth, y gellid ei wella neu ei newid?
21. Ydych chi o'r farn bod y rhaglen sefydlu statudol a gawsoch wedi'i theilwra'n briodol i'r sector yr ydych yn gweithio ynddo (e.e. lleoliadau cynradd, uwchradd, ysgol arbennig)?

- Pam ydych chi'n dweud hyn?

22. [I'r rhai sy'n dymuno addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg] Pa mor dda, neu beidio, y mae eich profiad o'r broses sefydlu wedi eich paratoi ar gyfer addysgu drwy gyfrwng Cymraeg?

- Pam ydych chi'n dweud hyn?
- Pa gyfleoedd neu gymorth ydych chi wedi manteisio arnynt yn Gymraeg i'ch helpu i'ch paratoi (e.e. rhaglenni dysgu proffesiynol, mentor/gwiriwr allanol Cymraeg, cyfleoedd addysgu ysgol ac ati)
- Beth oedd y cryfderau a'r gwendidau o ran eich paratoi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut, os o gwbl, y gellid bod wedi gwella'r broses sefydlu o ran eich paratoi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg?

23. I ba raddau y mae eich profiad o'r broses sefydlu wedi rhoi'r profiadau proffesiynol i chi i ddangos eich bod yn bodloni'r disgrifyddion sefydlu o fewn y safonau proffesiynol?

- Pam ydych chi'n dweud hyn?

24. Pa mor effeithiol fu'r rhaglen sefydlu o ran eich galluogi i fyfyrion ar eich ymarfer eich hun a chyrraedd y nodau y gwnaethoch eu gosod i chi eich hun?

- Pam ydych chi'n dweud hyn?

25. I ba raddau y mae eich profiad o'r broses sefydlu wedi eich arfogi ag ethos o ddysgu parhaus a datblygiad proffesiynol?

- Pam ydych chi'n dweud hyn?
- Beth, os o gwbl, y gellid ei wella neu ei newid?

Y dyfodol

26. Pa newidiadau, os o gwbl, yr hoffech eu gweld yn cael eu gwneud i drefniadau sefydlu statudol athrawon yn y dyfodol?

- Pam ydych chi'n dweud hyn?
- Beth yw eich barn am ymestyn y cyfnod sefydlu statudol i athrawon o un flwyddyn i ddwy flynedd, fel sy'n digwydd yn Lloegr?
- Beth yw eich barn ar gysylltu'r broses o gyflawni'r cyfnod sefydlu statudol yn llwyddiannus a chyflog ac amodau athrawon? Sut y gallai hyn weithio'n ymarferol?

Canllaw pwnc 2: Cynrychiolwyr ALI / Consortia Addysgol

Y cefndir

1. Dywedwch ychydig wrthyf am:
 - Eich rôl
 - Ymwneud eich sefydliad â'r ddarpariaeth sefydlu statudol i athrawon
2. Sut mae darpariaeth sefydlu statudol yn cael ei threfnu yn yr ardal/rhanbarth?
 - Pa rôl y mae'r consortia addysg, awdurdodau lleol ac ysgolion yn ei chyflawni?
 - Pa strwythurau/prosesau sydd ar waith i reoli'r ddarpariaeth sefydlu?

Ymwybyddiaeth o'r broses sefydlu statudol

3. Yn eich profiad chi, pa mor ymwybodol yw ANG o'r angen i ymgymryd â'r broses sefydlu statudol pan fyddant yn dechrau addysgu gyntaf?
 - Sut mae ANG yn gweld y broses sefydlu statudol (e.e. mewn goleuni negyddol neu gadarnhaol)?
 - Pam mae'n nhw'n credu hynny?
 - Pa mor wybodus yw ANG pan fyddant yn dechrau addysgu am yr hyn sy'n ofynnol ohonynt yn ystod y cyfnod sefydlu statudol? (e.e. a ydynt yn ymwybodol o'r angen i gofnodi pob sesiwn addysgu gyda CGA, bod yn rhaid cyfrif pob sesiwn a weithir fel athro tuag at y cyfnod sefydlu, bod angen iddynt fod wedi'u cofrestru dros dro gyda CGA yn y categori athro ysgol cyn y gall y cyfnod sefydlu ddechrau, os ydynt yn gweithio fel athrawon cyflenwi bod yn rhaid iddynt gwblhau 380 o sesiynau)?
 - Sut maen nhw'n cael eu hysbysu am y gofynion hyn?

Rheoliadau a chanllawiau sefydlu presennol i athrawon

4. Pa mor briodol, neu fel arall, yw'r rheoliadau presennol fel y'u nodwyd yn Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015⁵⁸?
 - Pam ydych chi'n dweud hyn?
 - Pa agweddau ar y rheoliadau presennol sy'n gweithio'n dda?
 - Pa agweddau ar y rheoliadau presennol sy'n peri problemau?
5. Pa mor briodol, neu beidio, yw canllawiau presennol Llywodraeth Cymru 'Ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru'⁵⁹?
 - Pam ydych chi'n dweud hyn?

⁵⁸ [Rheoliadau Addysg \(Trefniadau Sefydlu Athrawon Ysgol\) \(Cymru\) 2015.](#)

⁵⁹ Llywodraeth Cymru (2017) [Ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru.](#)

- Pa agweddau ar y canllawiau sy'n gweithio'n dda?
 - Pa agweddau ar y canllawiau sy'n creu broblemau?
 - Pa faterion sydd wedi codi yn eich ardal chi, os o gwbl, nad ydynt yn cael eu cwrmpasu gan y canllawiau?
6. Pa mor briodol, neu beidio, yw'r canllawiau sefydlu ar wefan CGA?
- Pam ydych chi'n dweud hyn?
 - Pa agweddau ar y canllawiau sy'n gweithio'n dda?
 - Pa agweddau ar y canllawiau sy'n peri problemau?
 - Pa faterion sydd wedi codi yn eich ardal chi, os o gwbl, nad ydynt yn cael eu cwrmpasu gan y canllawiau?
7. Beth yw eich barn am y canllawiau presennol o ran yr hyn a ddisgwyllir gan ALLau (ac a ddirprwyir i gonsortia rhanbarthol fel y bo'n briodol) fel y corff priodol (CP)?
- Pam ydych chi'n dweud hyn?
 - Pa agweddau ar y canllawiau, os o gwbl, y gellid eu gwella neu eu newid yn hyn o beth?

Sesiynau addysgu

8. Beth yw eich barn am y gofyniad i ANG gwblhau 3 thymor/380 o sesiynau ysgol o leiaf fel rhan o'r cyfnod sefydlu?
- Pam ydych chi'n dweud hyn?
 - Pa broblemau, os o gwbl, y mae hyn yn eu creu i ALLau/consortia addysg?
 - Pa broblemau, os o gwbl, y mae hyn yn eu creu i chi?
 - Pa broblemau, os o gwbl, y mae hyn yn eu creu i ANG sy'n gwneud gwaith cyflenwi?
9. I ba raddau y mae ANG yn cael eu hawl i lai o amser addysgu yn ystod eu cyfnod sefydlu?
- Beth sydd i'w gyfrif am hyn?
 - Ym mha ffordd y gellid datblygu'r canllawiau ymhellach i helpu i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau?

Y ddarpariaeth datblygiad proffesiynol a hyfforddiant

10. Beth yw natur y rhaglen dysgu proffesiynol i ANG a ddarperir gan y consortia addysg/ALL sydd ar gael yn y rhanbarth/awdurdod?
- Pa sesiynau/cyrsiau sy'n cael eu darparu?
 - Pwy sy'n cyflwyno'r rhaglen?
 - Faint o sesiynau y mae disgwyl i ANG eu mynychu?
 - Pa mor dda yw'r presenoldeb yn y sesiynau?
 - Beth yw cryfderau a gwendidau'r rhaglen?

11. Pa newidiadau, os o gwbl, y dylid eu gwneud *i'r ffordd* y mae rhaglenni dysgu proffesiynol yn cael eu rheoli a'u darparu yn y dyfodol⁶⁰?

- Pam ydych chi'n dweud hyn?

Rôl y corff priodol (CP)

12. Pa rôl a swyddogaethau a ddisgwylir gan y corff priodol yn yr ardal/rhanbarth?

- I ba raddau y mae'r rhain yn cyd-fynd â rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru?

13. Sut mae mentoriaid a GA yn cael eu dyrannu i ANG yn eich ardal/rhanbarth chi?

- Pa mor hawdd/cyflym y mae'r corff priodol yn dyrannu mentor/GA i ANG?
- A oes unrhyw anawsterau o ran dyrannu mentor/GA i ANG?
- Os felly, beth yw'r anawsterau hyn?
- Os felly, sut y gellid mynd i'r afael â'r anawsterau hyn?

Rôl y mentor sefydlu

14. Pa rôl a swyddogaethau y disgwylir i fentoriaid sefydlu eu cyflawni yn yr ardal/rhanbarth?

- I ba raddau y mae'r rhain yn cyd-fynd a chanllawiau Llywodraeth Cymru?
- Pwy sy'n ymgymryd â rôl y mentor sefydlu (ar gyfer ANG mewn ysgolion ac ANG sy'n cyflenwi)?

15. Pa hyfforddiant/cymorth a ddarperir i fentoriaid sefydlu i'w galluogi i gyflawni eu rôl?

- Pa mor effeithiol yw'r hyfforddiant/cymorth hwn?
- Beth, os o gwbl, y gellid ei wella neu ei newid?

16. Pa mor hawdd, neu beidio, yw recriwtio mentoriaid sefydlu?

- Beth sydd i'w gyfrif am unrhyw broblemau recriwtio?
- [Os yw'n berthnasol] Sut y gellid mynd i'r afael ag unrhyw broblemau recriwtio?

17. Pa mor dda, neu beidio, mae mentoriaid sefydlu yn cyflawni eu rôl?

- Pa mor gyson, neu fel arall, yw'r cymorth mentora a ddarperir?
- Beth yw cryfderau a gwendidau'r dull hwn?
- Beth sydd i'w gyfrif am unrhyw gryfderau/gwendidau?

⁶⁰ Sylwer fod yr Athro Mick Waters wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i adolygu ansawdd y rhaglenni dysgu proffesiynol sydd ar gael i ANG. Dylai ein hadolygiad ni ganolbwyntio ar y broses/agweddau technegol y ddarpariaeth yn hytrach na phriodoldeb ac ansawdd cynnwys y rhaglen dysgu broffesiynol.

- Sut y gallai unrhyw ganllawiau gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol fynd i'r afael ag unrhyw wendidau neu anghysondebau?

18. I ba raddau y mae ANG yn cael y cymorth y mae ganddynt yr hawl iddo gan eu mentor sefydlu?

- Beth sydd i'w gyfrif am unrhyw broblemau?
- Sut mae profiadau ANG yn wahanol yn dibynnu ar natur y gyflogaeth/lleoliad ysgol?

Rôl y Gwiriwr Allanol

19. Pa rôl a swyddogaethau a ddisgwyllir gan wirwyr allanol yn yr ardal/rhanbarth?

- I ba raddau y mae'r rhain yn cyd-fynd a chanllawiau Llywodraeth Cymru?
- Pwy sy'n ymgymryd â'r rôl gwiriwr allanol (ar gyfer ANG mewn ysgolion ac ANG sy'n cyflenwi)?

20. Pa hyfforddiant/cymorth a ddarperir i GA i'w galluogi i gyflawni eu rôl?

- Pa mor effeithiol yw'r hyfforddiant/cymorth hwn?
- Beth, os o gwbl, y gellid ei wella neu ei newid?

21. Pa mor hawdd, neu beidio, yw recriwtio GA?

- Beth sydd i'w gyfrif am unrhyw broblemau recriwtio?
- [Os yw'n berthnasol] Sut y gellid mynd i'r afael ag unrhyw broblemau recriwtio?

22. Pa mor effeithiol y mae gwirwyr allanol yn cyflawni eu rôl?

